**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

**Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan gangen Polisïau Diogelu Iechyd a Rhaglenni Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024; Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024; Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024; Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Cymru) 2024; Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024) ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

17 Medi 2024

## RHAN 1

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r rheoliadau a'r canllawiau statudol hyn yn deddfu Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (‘y Ddeddf’) ac Atodlen 3 iddi yn llawn. Maent yn ymdrin â chreu cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau sy'n gysylltiedig â chyflawni triniaethau arbennig. Mae pedair triniaeth arbennig wedi'u henwi yn adran 57 o'r Ddeddf: aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych); tyllu'r corff; electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

1.2 Bydd y cynllun mandadol, pan gaiff ei gychwyn, yn cael ei weithredu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru a bydd gofynion gorfodi'r cynllun yn gyson ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Nid oes unrhyw hawliau etifeddol o'r cynllun cofrestru presennol i awdurdodau lleol, felly bydd y cynllun trwyddedu yr un mor gymwys i holl ymarferwyr newydd a presennol y pedair triniaeth arbennig, a phob mangre neu gerbyd y cyflawnir y triniaethau hyn ynddynt.

1.3 Gofynion y cynllun yw y bydd angen trwydded ar holl ymarferwyr unrhyw un o'r pedair triniaeth ac y bydd angen tystysgrif gymeradwyo ar bob mangre neu gerbyd lle y cyflawnir unrhyw un o'r triniaethau. Yn ogystal, mae amodau trwyddedu mandadol ac amodau cymeradwyo mangreoedd/cerbydau a fydd yn gymwys ym mhob achos. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ledled Cymru o ran safonau ymarfer yn ymwneud â gweithdrefnau rheoli a diogelu rhag heintiau i sicrhau iechyd a diogelwch pob cleient ac ymarferwr. Mae gofynion y cynllun yn gymwys i unrhyw un sy'n cyflawni'r triniaethau hyn yng Nghymru, felly byddant yn gymwys hefyd i ymarferwyr sy'n byw y tu allan i Gymru ond sy'n ymweld o bryd i'w gilydd neu'n croesi'r ffin i weithio, ac i'r cerbydau pwrpasol hynny sy'n dod i mewn i Gymru ac y mae triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni ynddynt.

1.4 Diben cyffredinol y ddeddfwriaeth yw gwella safonau hylendid a diogelwch i'r cyhoedd yn gyffredinol sy'n dymuno cael unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi manylion gofynion y cynllun i'w alluogi i weithredu a chael ei weinyddu a'i orfodi gan yr awdurdodau lleol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw anfanteision neu faterion cymdeithasol penodol, y nod yn hytrach yw sicrhau bod y triniaethau arbennig hyn yn cael eu cyflawni yn ôl safonau cyson ym mhob rhan o Gymru.

1.5 O dan adran 66(11) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r awdurdodau lleol ynghylch materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a oes amheuaeth wedi’i chodi, ac os oes, i ba raddau, ynghylch addasrwydd ceisydd i gyflawni triniaeth arbennig. Mae'r ‘addasrwydd’ hwn yn ymwneud yn unig ag a oes gan yr unigolyn

gollfarnau heb eu disbyddu am 'droseddau perthnasol' fel y'u diffinnir yn adran 66(8) o'r Ddeddf. Mae'r rhain i raddau helaeth yn droseddau o drais, camymddwyn rhywiol neu droseddau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch neu rannau eraill o'r Ddeddf. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'u dyroddi i'r awdurdodau lleol maes o law.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Pasiwyd **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ("y Ddeddf") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mai 2017, ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Dyma'r rhiant-ddeddf ar gyfer y rheoliadau hyn ac fe'i datblygwyd yn dilyn ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion deddfwriaethol i fynd i'r afael â nifer o faterion iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lunio amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da, a phan fo modd, osgoi ffactorau sy'n niweidio iechyd y gellir eu hosgoi.

3.2 Mae'r Ddeddf yn eang o ran ei phwnc ac yn cynnwys darpariaethau mewn nifer o feysydd polisi ar wahân, a nod pob un ohonynt yw ymdrin â heriau cyfoes i iechyd a llesiant yng Nghymru. Yn y Ddeddf ceir 127 o adrannau mewn naw Rhan a phedair Atodlen.

3.3 Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hyn yn ymwneud yn unig â rheoliadau sydd i'w gwneud i ddeddfu Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi yn llawn, sy'n ymdrin â thriniaethau arbennig a'r canllawiau statudol cysylltiedig.

3.4 Mae Rhan 5 mewn perthynas â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn achos pobl ifanc o dan 18 oed yn gysylltiedig yn agos â Rhan 4 ac mae eisoes wedi'i chychwyn. Effaith y Rhan hon yw diffinio'r rhannau o'r corff a ystyrir yn 'bersonol' a gwahardd tyllwyr corff rhag rhoi neu drefnu rhoi twll yn y rhannau hynny o'r corff yn achos plant o dan 18 oed. Mae Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1120 Cy. 194) mewn grym a'u heffaith yw diffinio gwrthrych at ddibenion y gwaharddiad yn Rhan 5 o'r Ddeddf. Gan fod y Rhan hon wedi'i chychwyn a'r Rheoliadau eisoes mewn grym, nid yw'r rhain yn rhan o'r

Memorandwm Esboniadol hwn a’r RIA.

*Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024*

3.5 Mae adrannau 62(1), (4) a (5), 63(1) a (5), 76(4) a (5) o’r Ddeddf, a pharagraffau 4(4) a 5(3) o Atodlen 3 iddi, yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â nifer o wahanol agweddau gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i drwydded triniaeth arbennig gael ei rhoi, ffurf a chynnwys y drwydded triniaeth arbennig a'r amodau trwyddedu mandadol y mae rhaid iddynt fod ynghlwm wrth y drwydded ac y mae rhaid i ddeiliad y drwydded lynu wrthynt.

3.6 Mae adran 123(2)(b) o'r Ddeddf yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 62 a 63 o'r Ddeddf.

3.7 Mae adran 123(3) o'r Ddeddf yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i unrhyw Reoliadau eraill a wneir o dan y Ddeddf.

3.8 O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, caniateir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

3.9 Mae adrannau 69(8) a (9), 70(3), (7), (8) a (9), 71(4), 72(5) a 76(4) a (5) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd. Ar gyfer cyd-destun bydd y cynllun trwyddedu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i driniaethau arbennig gael eu cyflawni mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwywyd gan awdurdod lleol at y diben hwnnw oni bai bod y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw wedi'i hesemptio neu wedi'i esemptio. Os yw awdurdod lleol wedi'i fodloni bod y fangre neu'r cerbyd i gael ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo, bydd yn dyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi'r gymeradwyaeth honno.

3.10 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â nifer o wahanol agweddau ar gymeradwyaethau, gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i dystysgrif gymeradwyo gael ei rhoi, ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo, yr amodau cymeradwyo mandadol y mae rhaid eu hatodi i'r dystysgrif gymeradwyo a glynu wrthynt ac apelio yn erbyn

gwrthod cymeradwyaeth.

3.11 Mae adran 123(2)(b) o'r Ddeddf yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 69(8) a 70(3)(a) neu (c) o'r Ddeddf. Mae adran 123(3) o'r Ddeddf yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i unrhyw Reoliadau eraill a wneir o dan y Ddeddf.

3.12 O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, caniateir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

3.13 Mae adran 58(2) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i berson sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall yng Nghymru, fel rhan o'i fusnes, gael ei drwyddedu, oni bai ei fod wedi'i esemptio. Mae adran 60 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i esemptio proffesiynau cymwys rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig.

3.14 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft fel sy'n ofynnol o dan adran 123(2)(b) o'r Ddeddf.

*Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

3.15 O dan Ran 4 o'r Ddeddf, gall fod yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal gwrandawiad mewn amgylchiadau penodedig. Mae enghreifftiau'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i achosion pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod cais am drwydded triniaeth arbennig, pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu dirymu trwydded triniaeth arbennig, neu pan fo'r awdurdod lleol yn dymuno dynodi unigolyn yn berson y mae arno angen trwydded triniaeth arbennig os yw'n bwriadu cyflawni triniaeth arbennig (adran 61(1) o'r Ddeddf). Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddyroddi hysbysiad rhybuddio (o dan baragraff 15 o Atodlen 3 i'r Ddeddf) ac mae'n ofynnol iddo ystyried sylwadau a wneir ar ôl iddo ddyroddi hysbysiad rhybuddio (paragraff 15(8) o Atodlen 3 i'r Ddeddf).

3.16 At ddibenion gwybodaeth, mae paragraff 18 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn darparu y caiff ymgeisydd, deiliad trwydded neu unigolyn apelio i lys ynadon yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol, ac mae paragraff 19 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn darparu y caniateir dwyn apêl yn erbyn penderfyniad llys yr ynadon i Lys y Goron.

3.17 Mae paragraff 21(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn dirprwyo swyddogaethau

penodedig awdurdod lleol i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod a sefydlwyd o dan adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n cynnwys ystyried sylwadau o'r fath a chyflwyno hysbysiad o benderfyniad.

3.18 Mae paragraff 21(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y gweithdrefnau sy'n gymwys i bwyllgorau trwyddedu neu eu his-bwyllgorau at ddiben arfer swyddogaethau o dan Ran 4 neu yn rhinwedd hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill): darpariaeth ynghylch y canlynol:

(a) dilysrwydd a chworwm
(b) mynediad cyhoeddus
(c) cyhoeddusrwydd
(d) cofnodion.

3.19 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

*Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024*

3.20 O dan Ran 4 o'r Ddeddf, diffinnir ystyr triniaeth arbennig "tyllu'r corff" ar hyn o bryd yn adran 94(1) o'r Ddeddf fel '*gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn'*. Ystyr gwneud trydylliad yw '*gwneud bwlch yng nghyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad*' (adran 94(2) o'r Ddeddf).

3.21 Mae adran 94(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi 'gwrthrych' i ddiffinio ymhellach beth yw ystyr 'tyllu'r corff'.

3.22 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft fel sy'n ofynnol o dan adran 123(2)(b) o'r Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae nifer o driniaethau cosmetig a therapiwtig wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros y ddau ddegawd diwethaf, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r rhain yn cynnwys aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

4.2 Mae risgiau iechyd hysbys sydd wedi'u hadrodd yn dda yn gysylltiedig â'r triniaethau hyn a ddiffinnir yn y Ddeddf fel 'triniaethau arbennig'. Gall heintiau ar safle'r driniaeth ddigwydd, sydd, yn bur anaml, yn gallu achosi anffurfiadau a bygwth bywyd. Gall arferion amhriodol ac anhylan arwain at ledaeniad clefydau heintus, megis feirysau a gludir[1] yn y gwaed, a all effeithio ar iechyd cleientiaid, yn ogystal â pheryglu iechyd yr ymarferydd ei hun. Oherwydd diffygion difrifol ym maes rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â stiwdio tyllu'r corff a thatŵio yng Nghasnewydd yn 2015[2] dioddefodd nifer o gwsmeriaid heintiau croen difrifol lle bu angen i bobl gael gofal fel cleifion mewnol a llawdriniaeth adluniol, yn dilyn triniaethau tyllu a gyflawnwyd yn y stiwdio. Cynhaliwyd ymarfer edrych yn ôl, a oedd yn effeithio ar dros 800 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn bobl ifanc, i nodi unrhyw gleientiaid a allai fod wedi'u heintio â feirysau a gludir yn y gwaed[3].

4.3 Er mwyn lleihau'r risg, mae'n bwysig felly fod ymarferwyr yn defnyddio arferion gwaith diogel, ac yn enwedig bod arferion da i reoli heintiau yn cael eu dilyn bob amser, fel bod cleientiaid ac ymarferwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol. Ymhlith y cymhlethdodau a all godi mae chwyddo, haint, gwaedu, adweithiau alergaidd neu wenwynig i'r sylweddau a ddefnyddir, yn ogystal â rhwygiadau neu anaf corfforol arall. Gallai'r driniaeth achosi niwed i nerfau neu greithio hefyd os caiff y triniaethau eu cyflawni'n wael. O ran tyllu, canfu arolwg ar dyllu'r corff a gynhaliwyd yn Lloegr fod mwy na chwarter y bobl a gafodd driniaeth tyllu'r corff (ar wahân i labedi'r clustiau) wedi cael profiad o gymhlethdodau, a bod rhyw hanner ohonynt wedi barnu bod y cymhlethdodau yn ddigon difrifol i chwilio am gymorth ychwanegol[4]. Roedd nifer yr achosion yn uwch ymhlith y rhai rhwng 16 a 24 oed, gyda phroblemau iechyd yn digwydd yn achos rhyw un rhan o dair o driniaethau tyllu'r corff. Er bod y rhan fwyaf o broblemau sy'n gysylltiedig â thyllu fel arfer yn fân ac yn hunan-gyfyngus, mae rhai cymhlethdodau yn ddigon difrifol i ofyn am sylw meddygol neu fynediad i'r ysbyty, ac mae achosion unigol o niwed arwyddocaol i iechyd[5]. Gall cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai â chyflyrau iechyd isorweddol, a chofnodwyd achosion pan fu farw unigolion ar ôl cael triniaeth tyllu'r corff[6].

4.4 Mae adolygiad cyflym[7] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn 2023 yn dangos y gall haint sy'n effeithio ar y croen a symptomau corfforol eraill (megis

---

[1] Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29 271 274

[2] www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-32607788

[3] *Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Newport tattooing and piercing concerns update.* Nid yw bellach ar gael ar-lein.

4 Bone, A. Ncube, F. Nichols, T a Noah, ND. (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe. BMJ 336;1426

[5] M. L. Armstrong, S. DeBoer and F. Cetta, "Infective endocarditis after body art: A review of the literature and concerns," Journal of Adolescent Health, cyfrol 43, rhif 3, tt. 217-225, 2008.

[6] BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm 96 BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757]

[7] A rapid review of physical health risks associated with special procedures (tattooing, body piercing, acupuncture, electrolysis) | medRxiv

adwaith alergaidd) fod yn gysylltiedig â phob un o'r pedair triniaeth arbennig.

4.5 Gellir lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig drwy gymryd nifer o gamau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Glanweithdra da yn y fangre lle mae'r driniaeth yn digwydd, ac yn achos y gosodiadau a'r ffitiadau
- Arferion hylan gan ymarferwyr
- Meddu ar y prosesau cywir ar gyfer glanhau, sterileiddio neu waredu offerynnau, deunyddiau a chyfarpar; ac
- Ymgyngoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth.

*Y sefyllfa reoleiddio bresennol*

4.6 Mae'r rheolaethau deddfwriaethol presennol mewn perthynas â thriniaethau arbennig yn anelu at sicrhau bod trefniadau rheoli heintiau yn ddigonol ac yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Y prif ddull o orfodi'r trefniadau hyn yw drwy ddefnyddio'r gofynion cofrestru yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ('Deddf 1982'), sy'n cynnwys aciwbigo, tyllu'r clustiau, electrolysis a thatŵio, a ddiwygiwyd yn ddiweddarach i gynnwys tyllu cosmetig a lliwio'r croen yn lled-barhaol. Yn ogystal, mae rheolaethau rheoleiddio eraill sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gwahardd gweithgareddau ar unwaith, neu ar gyfer rheoli mangreoedd neu bethau pan fo modd dangos risg o niwed arwyddocaol i iechyd y cyhoedd. Er hynny, mae'r rhain bellach yn annigonol i ymateb i heriau'r diwydiant triniaethau arbennig modern gan fod hyn wedi tyfu o ddiddordeb lleiafrifol i fod yn ddiddordeb prif ffrwd.

4.7 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gofrestru ymarferwyr a mangreoedd o dan Ran 8 o Ddeddf 1982 ond mae'r broses yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae rhai awdurdodau lleol yn cofrestru mangreoedd, rhai yn cofrestru ymarferwyr, a rhai'r ddau. Yn ogystal, pan fo awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r darpariaethau, mae gorfodaeth yn aml yn anghyson ledled Cymru. I fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, creodd Llywodraeth Cymru is-ddeddfau enghreifftiol[8] yn 2011 ar gyfer mabwysiadu cynllun cofrestru o dan Ddeddf 1982 yn ymwneud â glendid a hylendid mangreoedd, ymarferwyr a chyfarpar, ond ni wnaeth nifer o awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Nid yw'r awdurdodau lleol bellach yn debygol o wneud hynny gan eu bod wedi bod yn aros, ers i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017, am greu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig sy'n destun y Memorandwm Esboniadol hwn.

4.8 Ni all awdurdodau lleol wrthod cais i gofrestru o dan Ddeddf 1982 ond os yw cofrestriad blaenorol ymgeisydd eisoes wedi'i ganslo gan y llysoedd o ganlyniad i'w gael yn euog o drosedd (megis torri is-ddeddf

[8] https://www.llyw.cymru/ddeddfau-ar-aciwbigo-tatwio-lliwio-croen-tyllu-ac-electrolysis

ar hylendid). Rhaid cymryd y rhan fwyaf o geisiadau, felly, ar eu golwg gyntaf a'u cymeradwyo.

4.9 Mae gorfodi'r gofyniad cofrestru yn dibynnu ar allu awdurdod lleol i brofi bod person yn ‘cynnal busnes’. Gall hyn fod yn anodd os nad yw ymarferwyr yn gweithredu o fangre fasnachol, gan y gallai rhai ymarferwyr, er enghraifft, weithio gartref. Mae'r sefyllfa hon wedi'i gwaethygu gan bandemig Covid-19, gyda mwy o ymarferwyr yn dewis gweithio o'u mangreoedd preswyl.

4.10 Nid yw cofrestru o dan Ddeddf 1982 ychwaith yn ddarostyngedig i ofyniad i'r rhai sy'n cyflawni'r triniaethau ddangos bod ganddynt lefel o wybodaeth am hylendid a rheoli heintiau sy'n briodol i'r driniaeth (triniaethau) arbennig y maent yn eu cyflawni, er bod rhai yn wybodus iawn yn hyn o beth. Nid oes unrhyw ofyniad ychwaith ar gyfer ffurflenni cydsynio, ymgynghori cyn ac ar ôl y driniaeth, cyngor ar ôl-ofal na chadw cofnodion. Bernir, felly, nad yw'r cynllun cofrestru presennol bellach yn mynd i'r afael yn ddigonol â phryderon iechyd y cyhoedd ac yn diogelu'r cyhoedd yn effeithiol. Cafwyd enghreifftiau o ymarferwyr anghofrestredig yn cael eu herlyn a’u cyfarpar yn cael ei atafaelu. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, oherwydd y cynnydd yn y cyfryngau cymdeithasol, ei bod yn debygol y bydd nifer o unigolion sy'n hysbysebu eu gwasanaethau ar-lein ac yn gweithredu y tu allan i'r cynllun cofrestru presennol. Gan nad yw'r unigolion hyn wedi'u rheoleiddio, nid yw'n hysbys a ydynt yn defnyddio safonau hylendid a diogelwch priodol nac yn gweithredu mewn amgylcheddau addas. Mae awdurdodau lleol yn ddibynnol i raddau helaeth ar gael gwybodaeth leol neu gael gwybod am gŵyn sy'n cael ei gwneud i ddod yn ymwybodol o'r ymarferwyr hyn, a phan gyflwynwyd gorchmynion Rhan 2A (o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1544 Cy.142))[9] canfuwyd bod y safonau hylendid a diogelwch yn wael.

4.11 Mewn ymateb i'r annigonolrwydd canfyddedig o ran y cynllun presennol, mae'r Ddeddf yn ceisio diddymu darpariaethau Deddf 1982 fel y'u cymhwysir i Gymru a'u disodli â chynllun trwyddedu gorfodol a chenedlaethol ar gyfer ymarferwyr y triniaethau arbennig penodedig a mangreoedd a cherbydau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u gwneud yn Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi ond nid ydynt wedi'u cychwyn eto ac mae angen i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud i'w deddfu'n llawn. Bydd y cynllun a nodir yn Rhan 4 o'r Ddeddf yn golygu bod rhaid i unigolyn, er mwyn cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig a ddiffinnir yn y Ddeddf, fod wedi'i drwyddedu a bod rhaid i'r fangre neu'r cerbyd y mae'n gweithredu ohono gael ei chymeradwyo/ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol perthnasol. Bydd trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo unigol yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Bydd trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo dros dro gyda therfyn amser o ddim mwy na saith niwrnod ar gael hefyd ar gyfer

---

[9] rhestr-o-orchmynion-rhan-2a-a-gyhoeddwyd-yng-nghymru-fel-yr-hysbyswyd-prif-swyddog-meddygol-cymru.pdf (llyw.cymru)

arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae hyn yn galluogi unigolion heb eu trwyddedu yng Nghymru i wneud cais am drwydded dros dro i ymarfer mewn digwyddiadau o'r fath, yn ogystal ag ymarferwyr sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru a/neu'r DU. Yn yr un modd, bydd pobl sy'n rheoli lleoliadau yng Nghymru a/neu gerbydau pwrpasol i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau dros dro o'r fath yn gallu gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro.

4.12 Mae'r cynllun hwn yn anelu at fodloni disgwyliadau cwsmeriaid yn well ac ymateb i'r gwahanol fodelau busnes o fewn y sector. Y bwriad yw sicrhau bod ymarferwyr trwyddedig unigol yn ymarfer yn ôl safonau priodol megis hylendid, diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr, cadw cofnodion a gwirio oedran, yn ogystal â sicrhau nad yw triniaethau arbennig yn cael eu cynnal ond mewn amgylcheddau addas sydd wedi'u cymeradwyo at y diben hwnnw. Y diben cyffredinol yw sicrhau, pan fo'r triniaethau arbennig hyn yn cael eu darparu yng Nghymru, eu bod yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n osgoi niwed posibl i iechyd. Nid bwriad y cynllun yw asesu, gwarantu na rhoi sicrwydd o sgil ymarferydd o ran techneg, cymwysterau nac unrhyw agwedd arall ar ei waith.

4.13 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod y maes triniaethau arbennig yn un sy'n esblygu'n gyflym a'i fod yn destun nifer o ffactorau gan gynnwys newidiadau mewn tueddiadau ffasiwn. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn dal yn gyfredol ac yn effeithiol gan fod triniaethau newydd yn cael eu creu yn gyson, mae adran 93 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig. Caiff y pŵer hwn ei gychwyn ynghyd â'r darpariaethau eraill yn Rhan 4, ond ni chaiff unrhyw driniaethau arbennig ychwanegol eu hychwanegu ar hyn o bryd. Y bwriad erioed oedd y dylid sefydlu'r cynllun ar gyfer y pedair triniaeth arbennig a enwyd cyn ystyried dod â thriniaethau arbennig ychwanegol i mewn i'r cynllun. Byddai angen ymarfer cwmpasu i nodi pa weithdrefnau (os oes rhai) y dylid eu hychwanegu yn y dyfodol ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cyflwyno cynigion. Y gofyniad yw bod unrhyw driniaethau ychwanegol sydd i'w cynnwys yn rhai y gellir eu cyflawni at ddibenion esthetig, neu at y dibenion sy'n therapiwtig ym marn Gweinidogion Cymru, a bod eu cyflawni at y dibenion hynny yn gallu achosi niwed i iechyd pobl (adran 93(3) o'r Ddeddf). Mae Gweinidogion Iechyd blaenorol wedi gwneud datganiadau yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad pellach ar y mater hwn rywbryd yn y dyfodol ac, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, os bydd angen, i ddefnyddio'r pŵer a gychwynnwyd i fynd ar drywydd hyn drwy is-ddeddfwriaeth bellach, a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

*Ymarferwyr*

4.14 Ar ôl i'r cynllun trwyddedu gael ei sefydlu, bydd yn drosedd i ymarferydd gynnal unrhyw rai o'r triniaethau arbennig heb drwydded

neu eu cyflawni o fangre neu gerbydau nad ydynt wedi'u cymeradwyo. Gan fod y drwydded yn cael ei rhoi i'r ymarferydd penodol, mae hyn yn golygu y gallant weithredu o unrhyw fangre neu gerbyd cymeradwy yng Nghymru, neu fwy nag un cyn belled â bod pob mangre/cerbyd wedi'u henwi ar eu trwydded. Mae'r Ddeddf yn darparu i esemptiadau gael eu gwneud ar gyfer y gofynion hyn, er enghraifft, i esemptio aelodau o broffesiynau penodol (megis meddygon cofrestredig a thrwyddedig, deintyddion cofrestredig a nyrsys cofrestredig) rhag yr angen am drwydded i ymarfer triniaethau arbennig, oni bai bod rheoliadau'n darparu fel arall. Mae pŵer ar gael hefyd i Weinidogion Cymru esemptio aelodau o broffesiynau penodedig eraill drwy reoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

4.15 Gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedu mandadol, fel bod safonau ymarfer a gorfodi triniaethau arbennig yn gyson ledled Cymru. Mae'r meini prawf trwyddedu yn nodi, ymhlith pethau eraill, gymhwyster unigolyn am drwydded yn seiliedig ar ei allu i ddangos gwybodaeth am reoli heintiau, cymorth cyntaf a'i rwymedigaethau cyfreithiol – er enghraifft, y gwaharddiad rhag tatŵio unigolyn sydd o dan 18 oed. Mae'r amodau trwyddedu mandadol yn nodi'r gofynion y mae rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni i gadw ei drwydded. Mae'r rhain yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â gwirio oedran pob cleient, defnyddio arferion gofynnol ar gyfer rheoli heintiau a safonau hylendid, ymgynghori â chleientiaid cyn ac ar ôl triniaethau a chadw cofnodion priodol. Mae'r amodau hefyd yn gwahardd deiliad trwydded rhag rhoi triniaeth arbennig i unigolyn sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw oherwydd alcohol, cyffuriau, neu unrhyw fodd arall.

4.16 Mae'r Ddeddf yn darparu i bob ceisydd am drwydded triniaeth arbennig ddatgan unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu am 'droseddau perthnasol' fel rhan o'r broses ymgeisio ac i gyflwyno tystysgrif ddiweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Nodir yr hyn sy'n 'drosedd berthnasol' yn adran 66 o'r Ddeddf. Diben hyn yw sicrhau bod unigolion a allai beri risg i'r cyhoedd oherwydd eu hanes troseddu yn destun craffu gofalus gan yr awdurdod lleol cyn i unrhyw benderfyniad i roi neu wrthod trwydded gael ei wneud. Mae'r Canllawiau Statudol sydd i'w dyroddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 66(11) o'r Ddeddf yn cynnwys canllawiau i awdurdod lleol ynghylch pa faterion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a oes amheuaeth wedi'i chodi, ac os felly, i ba raddau, ynghylch addasrwydd ceisydd i roi triniaeth arbennig. Mae'r Canllawiau Statudol yn ystyried nifer o elfennau i hyn gan gynnwys yr awdurdod lleol sy'n ystyried natur y drosedd, a'r amgylchiadau, megis a fu troseddu dro ar ôl tro, y dedfrydau a basiwyd ac unrhyw dystiolaeth liniaru y gallai'r ceisydd ddymuno ei darparu. Mae'r Ddeddf yn darparu i geisydd gyflwyno sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol yn erbyn gwrthodiad a ddyroddwyd gan yr awdurdod lleol, ac i ddwyn apeliadau gerbron y llys ynadon a Llys y Goron os oes angen.

*Mangreoedd a Cherbydau*

4.17 Rhaid i bob person sy'n gyfrifol am fangre lle y mae unrhyw un o'r triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni wneud cais i'r awdurdod lleol perthnasol am gymeradwyo'r fangre honno cyn y gall unrhyw ymarferwyr gyflawni'r triniaethau yn y fangre honno. Nid oes rhaid i'r ceisydd fod yn ymarferydd ei hun er mwyn cael ei gynnwys o fewn y rhwymedigaeth hon. Mae adran 82 o'r Ddeddf yn darparu y bydd yn drosedd cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r triniaethau yn y fangre oni bai bod tystysgrif gymeradwyo wedi'i rhoi ac yn dal yn ddilys. Gan fod pob mangre yn cael ei harchwilio cyn cael ei chymeradwyo, dim ond i'r fangre honno y gall y dystysgrif gymeradwyo fod yn gymwys ac nid yw'n drosglwyddadwy. Os yw'r ceisydd yn rheoli neu'n berchen ar fwy nag un fangre, rhaid cyflwyno cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob un.

4.18 Mae darpariaeth wedi'i gwneud i gerbydau lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni gael eu cymeradwyo fel pe baent yn fangreoedd statig. Cerbydau a fydd yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo fydd cerbydau ac ôl-gerbydau mwy sydd wedi'u ffitio yn bwrpasol fel ystafelloedd triniaeth symudol, ac ychydig iawn o'r rhain sydd ar waith. Rhaid i unrhyw gerbyd sydd i'w ddefnyddio fel hyn fodloni'r un amodau sefydlu a gweithredu â mangre sefydlog, a bydd yn cael ei archwilio ac yn ddarostyngedig i'r un broses gymeradwyo â mangre sefydlog.

4.19 Mae'r ddarpariaeth yn y Ddeddf yn gyfryw fel na ellir defnyddio'r pwyllgorau trwyddedu i gymrodeddu yn yr un modd ar gyfer gwrthod ceisiadau mangre/cerbydau. Er hynny, nododd ymgyngoreion y dylai ceiswyr am gymeradwyaeth mangre/cerbyd allu cyflwyno sylwadau i' awdurdodau lleol os cânt eu gwrthod. Felly, mae’r rheoliadau perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gan geiswyr am gymeradwyaeth mangre/cerbyd sydd i'w gwrthod hawl debyg i gynrychiolaeth.

*Holl ddeiliaid trwydded/tystysgrif gymeradwyo'r cynllun*

4.20 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwydded (h.y. ymarferwyr) a deiliaid tystysgrifau cymeradwyo (ar gyfer mangreoedd/cerbydau) fod o dan ddyletswydd i fodloni'r holl ofynion a osodir arnynt ac i weithredu yn unol â'r amodau trwyddedu mandadol sy'n berthnasol i'r driniaeth (triniaethau) arbennig y maent yn eu cyflawni a/neu'r amodau cymeradwyo mandadol sy'n gymwys i'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd fel y nodir yn y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys arddangos trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo o fewn y fangre/cerbyd a fydd yn sicrhau cleientiaid bod yr ymarferydd wedi'i drwyddedu, a bod y fangre/cerbyd wedi'i chymeradwyo/ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig.

*Awdurdodau trwyddedu*

4.21 Mae'r Ddeddf yn darparu bod yr awdurdodau lleol i fod yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu, ac am gadw cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a chymeradwyaethau mangre/cerbyd a ddyroddir ganddynt nad ydynt wedi peidio â chael effaith (adran 75 o'r Ddeddf). Rhaid i awdurdod lleol wneud yr wybodaeth sy'n berthnasol i bob trwydded/tystysgrif gymeradwyo ar y gofrestr yn hygyrch i'r cyhoedd. Gall Gweinidogion Cymru drefnu i'r ddyletswydd i gadw cofrestr a osodir ar yr awdurdodau lleol gael ei chyflawni drwy sefydlu un gofrestr i Gymru gyfan a gynhelir gan un awdurdod lleol. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cadarnhau mai dyma'r dull a ffefrir ganddynt. Mae cofrestr genedlaethol ganolog wedi'i chreu fel adnodd ar-lein cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud i ganiatáu iddi gael ei defnyddio ar unwaith pan ddaw'r Rheoliadau i rym. Diben y rhan o'r gofrestr sydd ar gyfer y cyhoedd yw sicrhau bod unrhyw un sy'n ceisio cael unrhyw un o'r triniaethau arbennig diffiniedig yn gallu chwilio am wybodaeth a gwirio bod yr ymarferydd neu'r busnes y maent yn ei ddewis wedi bodloni'r safonau cenedlaethol diogelwch a hylendid sy'n ofynnol ar gyfer darparu triniaethau arbennig yng Nghymru. Bydd rhan gyhoeddus y gofrestr yn cael ei hysgogi gan gronfa ddata ddiogel a mynediad cyfyngedig a rennir gan bob un o'r 22 awdurdod lleol i ganiatáu monitro data trwyddedu a chymeradwyo a gweithgarwch gorfodi yn effeithiol ledled Cymru o fewn unrhyw awdurdod lleol.

4.22 Fel y nodir ym mharagraff 4.16, pwyllgor trwyddedu pob awdurdod lleol fydd cymrodeddwr cam cyntaf unrhyw sylwadau yn erbyn gwrthod trwydded, ac fel yr esbonnir ym mharagraff 4.19 bwriedir i'r awdurdodau lleol glywed sylwadau mewn perthynas â gwrthod tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd/cerbydau. Gellir gwrthod y naill fath o gais neu'r llall am amrywiaeth o resymau ymarferol sy'n dod i'r amlwg drwy'r prosesau ymgeisio ac arolygu sy'n gofyn am drafodaeth ac ystyriaeth bellach. Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau nodi manylion sut y bydd y pwyllgorau trwyddedu/awdurdodau lleol yn cymrodeddu mewn

achosion o'r fath. Os bydd y sylwadau hyn yn methu, gall yr ymgeisydd apelio i'r llys ynadon ac yn y pen draw Llys y Goron.

4.23 Mae'r Ddeddf yn creu nifer o offer gorfodi a throseddau. Bydd awdurdod lleol yn gallu cymryd camau i atal ymarferydd heb ei drwyddedu rhag cyflawni triniaethau arbennig neu atal mangre/cerbyd nad yw wedi'i chymeradwyo/ei gymeradwyo rhag cael ei defnyddio/ei ddefnyddio i ddarparu triniaethau arbennig. Gwneir hyn drwy gyhoeddi hysbysiad stop a fydd yn gymwys i unrhyw le yng Nghymru yn achos ymarferydd neu er enghraifft cerbyd i atal osgoi talu drwy adleoli. Caiff yr awdurdod lleol gymryd camau hefyd yn achos deiliaid trwydded neu ddeiliaid tystysgrif gymeradwyo mangre/cerbyd, drwy gyflwyno hysbysiad camau unioni os yw'r ymarferydd neu'r fangre/cerbyd yn mynd yn groes i unrhyw un o'u hamodau trwyddedu/cymeradwyo mandadol perthnasol. Bydd yr hysbysiad camau unioni hwn yn gorchymyn camau gweithredu a chamau penodol i'w cymryd i unioni'r mater o fewn 14 diwrnod. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i swyddogion yr awdurdodau lleol fynd i mewn i fangre/cerbydau at ddibenion cynnal arolygiadau ac archwiliadau at ddibenion swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Caiff hyn gynnwys arolygu ac archwilio'r fangre, edrych ar gofnodion teledu cylch cyfyng a'u cadw a chael copïau o ddogfennau, megis cofnodion triniaeth a dogfennau cydsyniad.

4.24 Os yw awdurdod lleol wedi'i fodloni bod deiliad trwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol neu wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol ers i'w drwydded gael ei rhoi, yna mae'r Ddeddf yn darparu y caiff ddirymu trwydded triniaeth arbennig naill ai'n llawn neu i'r graddau y mae'n ymwneud â chyflawni triniaeth arbennig benodol. Yn yr un modd, gall yr awdurdod lleol ddirymu tystysgrif gymeradwyo mangre/cerbyd (o dan adran 73 o'r Ddeddf) pan fo deiliad y dystysgrif gymeradwyo wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau cymeradwyo mandadol. Pan fo'r awdurdod lleol wedi cymryd camau gweithredu, megis rhoi hysbysiad stop neu ddirymu trwydded/tystysgrif gymeradwyo, mae gan unigolyn yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf, ac i apelio i lys ynadon os bydd eu sylwadau'n methu. Fel cam olaf, caniateir gwneud apêl i Lys y Goron os yw pob apêl flaenorol wedi methu.

*Effaith fwriedig y darpariaethau*

4.25 Nod y cynllun trwyddedu mandadol yw gwella safonau hylendid a diogelwch mewn perthynas â chyflawni triniaethau arbennig gan ymarferwyr ac o fewn mangreoedd/cerbydau lle cânt eu cyflawni a sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol ymagwedd well a chyson at reoleiddio a gorfodi'r cynllun ledled Cymru.

4.26 Yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig â gwella safonau ymarfer, bydd unigolion sy'n dymuno cael un o'r triniaethau arbennig hefyd yn

elwa'n uniongyrchol, gan y byddant yn cael ymgynghoriad manwl cyn y driniaeth gyda'r ymarferydd. Diben hyn yw sicrhau bod unrhyw faterion iechyd neu ddiogelwch sy'n gysylltiedig â'u hiechyd personol neu'r driniaeth wedi cael eu hystyried, drwy ddarparu gwybodaeth am y driniaeth cyn iddi gael ei chyflawni, yn ogystal â chyngor ar yr ôl-ofal angenrheidiol y mae ei angen. Caiff pobl sy'n ceisio cael y triniaethau hyn eu sicrhau bod y fangre/cerbyd y maent yn ymweld â hi/ag ef wedi'i chymeradwyo/ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig o ran safonau hylendid a diogelwch, a bod yr ymarferydd trwyddedig y maent yn ei ddewis i gyflawni'r driniaeth yn gymwys o ran atal a rheoli heintiau ac yn gallu cyflawni'r driniaeth yn hylan ac yn ddiogel. Byddant hefyd yn gallu cael mynediad at y gofrestr gyhoeddus o ddeiliaid trwydded a mangreoedd/cerbydau cymeradwy ar gyfer triniaethau arbennig a ddarperir yn eu hardal, a'r rhai sydd ar gael ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i wella tryloywder ac yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn fwy gwybodus am arfer triniaethau arbennig ac y gallant, felly, wneud dewisiadau gwybodus os ydynt yn dymuno cael unrhyw un o'r triniaethau.

4.27 Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o ddeiliaid trwyddedau sy'n cyflawni triniaethau arbennig, a'r fangre/cerbydau a gymeradwywyd lle cânt eu cyflawni, yn elwa ar y cynllun oherwydd yr hwb i'w henw da. Drwy fodloni'r gofynion, byddant yn gallu dangos i'r cyhoedd eu bod yn ymarfer yn ôl safonau diogelwch, hylendid a glanweithdra priodol, yn ogystal â'u diogelu eu hunain a'u cleientiaid rhag risgiau iechyd drwy ymgymryd â gweithdrefnau priodol i reoli heintiau. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau ymhellach drwy gynnwys yr wybodaeth yn y Gofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig. Bydd hyder y cyhoedd a dealltwriaeth cleientiaid yn cael eu gwella ymhellach gan yr ymgyngoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth i sicrhau bod pobl yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth benodol y maent yn ei cheisio, gan gynnwys y cyngor ôl-ofal cymwys. Dylai hyn arwain at nifer is o gymhlethdodau a haint ôl-driniaeth os glynir wrth y cyngor ôl-ofal a ddarperir yn briodol gan y cleientiaid hynny.

4.28 Yn ogystal â gwella diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr, mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau gorfodi cyson a syml i'r awdurdodau lleol. Bydd y rhain yn caniatáu iddynt gymryd camau yn erbyn unrhyw un sy'n gweithredu y tu allan i'r cynllun yn ogystal ag yn erbyn deiliaid trwydded/tystysgrif gymeradwyo nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y cynllun.

4.29 Y tu hwnt i hyn, gall manteision gwell diogelwch, hylendid a glanweithdra ymestyn i driniaethau eraill a gynigir gan ymarferwyr, er nad ydynt yn dod o dan ofynion y ddeddfwriaeth.

*Y Rheoliadau i'w gwneud*

4.30 Mae'r ddarpariaeth yn Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi sydd i'w gweithredu drwy gynnwys y Rheoliadau sy'n destun y Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i nodi isod.

*Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024*

4.31 Bydd y cynllun trwyddedu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i driniaeth arbennig a roddir gan unigolyn, wrth gynnal busnes, gael ei rhoi o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig (oni bai bod yr unigolyn hwnnw wedi'i esemptio). Os yw awdurdod lleol wedi'i fodloni bod cais i gael ei ganiatáu, rhaid iddo roi trwydded triniaeth arbennig i'r ymgeisydd, yn ogystal â'r amodau trwyddedu mandadol cymwys y mae rhaid i ddeiliad y drwydded lynu wrthynt. Bydd deiliad y drwydded wedi'i awdurdodi i roi'r driniaeth/triniaethau arbennig a nodir yn ei drwydded yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd a bennir yn ei drwydded. Bydd hyn yn cynnwys yr holl fangreoedd/cerbydau cymeradwy y mae wedi'u henwi yn ei gais, unrhyw le yng Nghymru.

4.32 Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys:

- y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn caniatáu cais am drwydded triniaeth arbennig ("y meini prawf trwyddedu"), gan gynnwys isafswm oedran yr ymgeisydd, a'r dogfennau sydd i'w darparu i gefnogi cais,

- ffurf a chynnwys ffurflen gais am drwydded triniaeth arbennig, ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig, yr amodau trwyddedu mandadol ar gyfer pob trwydded triniaeth arbennig (ni waeth a roddir trwydded triniaeth arbennig am gyfnod o dair blynedd neu ddim mwy na 7 niwrnod),

- yr amodau trwyddedu mandadol sy'n berthnasol i'r driniaeth (triniaethau) arbennig sy'n cael eu cyflawni, darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau triniaeth arbennig.

*Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

4.33 Bydd y cynllun trwyddedu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i driniaethau arbennig gael eu rhoi mewn mangre neu gerbyd wedi'i chymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo gan awdurdod lleol (oni bai bod y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw wedi'i esemptio neu wedi'i esemptio). Os yw awdurdod lleol wedi'i fodloni bod y fangre neu'r cerbyd yn bodloni'r gofynion am gymeradwyaeth bydd yn dyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi'r gymeradwyaeth honno.

4.34 Mae'r rheoliadau yn cynnwys y manylion ehangach ynghylch cymeradwyaethau megis:

- y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn rhoi tystysgrif gymeradwyo newydd, gan gynnwys gofyniad oedran lleiaf i'r ceisydd ac i'r dogfennau gael eu darparu i gefnogi cais,
- y ffurflen gais sydd i gael ei defnyddio wrth wneud cais am dystysgrif gymeradwyo newydd,
- ffurf y dystysgrif gymeradwyo ar ôl i gymeradwyaeth gael ei chaniatáu,
- yr amodau mandadol y bydd tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig iddynt,
- y fangre a'r cerbydau a fydd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol,
- darpariaeth mewn perthynas ag amrywiadau ar dystysgrif gymeradwyo,
- adnewyddu tystysgrif gymeradwyo (er enghraifft, pa feini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i dystysgrif gymeradwyo gael ei hadnewyddu),
- darpariaeth ynghylch copïau newydd o dystysgrif gymeradwyo,
- darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â thystysgrifau cymeradwyo,
- terfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol,
- yr hyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud os yw'n bwriadu gwrthod cais a hawl y ceisydd i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol, a
- y broses apelio mewn perthynas â cheisiadau sy'n cael eu gwrthod.

4.35 Mae'r rhan hon o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r amgylchiadau pan fo safle neu gerbyd wedi'i esemptio rhag gorfod cael ei gymeradwyo gan awdurdod lleol. Mae esemptiadau wedi'u gwneud o fewn y Rheoliadau i fangreoedd/lleoliadau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu hesemptio rhag y gofyniad i gael eu cymeradwyo ar gyfer cyflawni unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig. Yn ogystal, mae esemptiad rhag y gofyniad am gymeradwyaeth ar gyfer mangre wedi'i ddarparu ar gyfer annedd cleient ar gyfer cyflawni aciwbigo yn unig. Rheswm posibl dros hyn fyddai nad yw'r cleient yn gallu cael mynediad at aciwbigo mewn

unrhyw fangre arall. Mae ‘annedd’ yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gartref gofal i oedolion neu hosbis.

*Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

4.36 Rhaid i unigolyn sy’n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall, wrth gynnal busnes, gael ei drwyddedu, oni bai ei fod wedi'i esemptio. Mae'r Rheoliadau hyn yn manylu ar yr amgylchiadau pan fo unigolyn wedi'i esemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig. Mae'r amgylchiadau yn y Rheoliadau hyn yn seiliedig ar gofrestru a rheoleiddio proffesiynol penodol a meini prawf ychwanegol. Mae'r cynllun trwyddedu yn ymwneud â thriniaethau arbennig sy'n cael eu rhoi wrth gynnal busnes. Ni fwriedir i driniaethau arbennig sy'n cael eu rhoi fel rhan o driniaeth y GIG mewn lleoliad y GIG (er enghraifft un o ysbytai'r GIG) ddod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu hwn. Mae swyddogion polisi hefyd wedi penderfynu na ddylai triniaethau arbennig a gyflawnir gan weithwyr proffesiynol meddygol/iechyd perthnasol mewn lleoliadau gofal iechyd annibynnol cyfatebol a reoleiddir gan AGIC fod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu hwn ac felly maent wedi'u cynnwys i'w hesemptio o dan y Rheoliadau.

4.37 Mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn darparu bod unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, sef:

(a) y Cyngor Meddygol Cyffredinol
(b) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
(c) y Cyngor Optegol Cyffredinol
(d) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
(e) y Cyngor Ciropractig Cyffredinol
(f) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
(g) yn ddarostyngedig i adran 26(6), Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
(ga) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

wedi'i esemptio rhag y gofyniad i gael trwydded oni bai bod y Rheoliadau'n pennu fel arall mewn perthynas â thriniaethau arbennig penodol. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol:

- a fydd ymarferwyr meddygol didrwydded, optometryddion, optegwyr cyflenwi, fferyllwyr na thechnegwyr fferyllfeydd wedi’u hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r unigolion hyn gael trwydded i roi triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, a/neu datŵio.

- ni fydd ymarferwyr meddygol cofrestredig a thrwyddedig, deintyddion cofrestredig neu weithwyr gofal deintyddol proffesiynol, bydwragedd cofrestredig, nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio cofrestredig

wedi'u hesemptio rhag y gofyniad am drwydded triniaethau arbennig i gyflawni unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig **oni bai bod yr holl** amodau canlynol yn gymwys:

(1) eu bod yn aelodau presennol o'r cofrestrau a gedwir gan eu cyrff proffesiynol priodol,

(2) bod yr unigolyn hwnnw yn rhoi’r driniaeth arbennig mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a

(3) nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar eu cofrestriad proffesiynol. Os nad oes un neu ragor o'r amodau hyn yn cael eu bodloni, yna mae'n ofynnol i'r unigolyn hwnnw gael trwydded i roi triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datŵio.

- ni fydd ciropodyddion, podiatryddion, ffisiotherapyddion, ciropractyddion ac osteopathiaid cofrestredig wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig ar gyfer aciwbigo ond os yw'r **holl** amodau canlynol yn gymwys:

(1) eu bod yn aelodau presennol o'r cofrestrau a gedwir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;

(2) y rhoddir yr aciwbigo mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a

(3) nad yw'r unigolyn hwnnw yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar eu cofrestriad proffesiynol mewn perthynas â’i addasrwydd i ymarfer.

4.38 Mae’r gweithwyr proffesiynol a restrir yn ail bwynt bwled paragraff 4.37 yn y Rheoliadau wedi’u rhestru’n rhai sydd wedi'u hesemptio rhag trwyddedu ar gyfer pob un o'r pedair triniaeth os ydynt yn bodloni'r holl amodau. Er hynny, yn realistig dim ond aciwbigo ac o bosibl tatŵio meddygol sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r gweithwyr proffesiynol hyn.

*Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024*

4.39 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r triniaethau sy'n gymwys i bwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol (a'u his-bwyllgorau) er mwyn arfer y swyddogaethau a roddwyd iddynt o dan Ran 4 o'r Ddeddf. Rhaid i awdurdod lleol roi rhybudd i unigolyn mewn achosion megis pan fydd yn bwriadu gwrthod cais am drwydded triniaeth arbennig, dynodi unigolyn yn berson y mae arno angen trwydded triniaeth arbennig neu ddirymu trwydded triniaeth arbennig neu dystysgrif gymeradwyo ymhlith rhesymau eraill.

4.40 Mae'n ofynnol i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo ar ôl i hysbysiad rhybuddio gael ei roi i unigolyn a chaniateir cynnal gwrandawiad cyn i'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) wneud penderfyniad terfynol y mae'r cais, y dynodiad neu'r dirymiad yn gymwys iddo. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u dirprwyo i bwyllgor (neu is-bwyllgor) trwyddedu'r awdurdod lleol.

4.41 Mae'r Rheoliadau yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau y mae rhaid i bwyllgor (neu is-bwyllgor) trwyddedu eu dilyn, megis pa broses y mae rhaid ei dilyn cyn cynnal gwrandawiad, y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiad, a pha bryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud.

*Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024*

4.42 O dan Ran 4 o'r Ddeddf, ystyr "tyllu'r corff" ar hyn o bryd yw '**gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn**'. Ystyr gwneud trydylliad yw '**gwneud bwlch yng nghyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad**'.

4.43 Diben y Rheoliadau hyn yw rhagnodi 'gwrthrych' i ddiffinio ymhellach beth yw ystyr 'tyllu'r corff'. Cadarnhaodd proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector tyllu'r corff, nad yw'r enwau a gymhwysir at wrthrychau sy'n cael eu hatodi i gorff unigolyn, eu mewnblannu ynddo, neu eu tynnu ohono, wedi'u safoni. Mae disgrifiadau cyffredin o wrthrychau yn cynnwys 'bachau', 'angorau macrogroenol', 'angorau microgroenol', 'microsglodion cyfathrebu agosfaes' a 'gleiniau silicon'. Hefyd, mae'r ystod o wrthrychau a ddefnyddir yn parhau i newid wrth i'r arfer o dyllu'r corff esblygu. Felly, mae angen i unrhyw ragnodiad o 'wrthrych' fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer natur amrywiol a chreadigol y driniaeth hon sy'n esblygu'n barhaus a dylai'r diffiniad fod yn eang ac yn hollgynhwysol.

4.44 Roedd y profiad o ddatblygu ac ymgynghori ar Reoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019 yn nodi anhawster diffinio 'gwrthrych' o ran siâp, deunydd neu faint. Ni fyddai modd rhestru mewn rheoliadau bob gwrthrych y gellid ei ddefnyddio na fyddai angen ei ddiwygio'n rheolaidd i gymryd i ystyriaeth datblygiadau parhaus, a byddai rhagnodi maint, siâp neu ddeunydd i bob pwrpas yn darparu'r paramedrau ar gyfer osgoi'r gyfraith.

4.45 Effaith y Rheoliadau hyn yw darparu diffiniad o "gwrthrych" fel y bydd y diffiniad o "tyllu'r corff" o dan Ran 4 o'r Ddeddf yn darllen fel a ganlyn:

*ystyr 'tyllu'r corff' yw 'gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu i **unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith**, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn'.*

4.46 Ni farnwyd bod angen diffinio 'gemwaith' yn y Ddeddf na'r Rheoliadau, gan fod ystyr gemwaith yn cael ei deall yn gyffredinol drwy brofiad cyffredin. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'gwrthrych' a ragnodir o dan Reoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019, er bod y diffiniad, yn yr achos hwnnw, yn cael ei ddefnyddio i roi effaith i waharddiad.

## 5. Ymgyngoriadau

5.1 Mae testun llawn ymgyngoriadau blaenorol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Ddeddf i'w weld yn nogfen derfynol y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf[10]. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r ymgyngoriadau ffurfiol, sef rhai cyhoeddus ac ag ymgyngoreion statudol/gofynnol, a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau presennol.

*Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar egwyddorion polisi*

5.2 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar egwyddorion y cynllun trwyddedu triniaeth arbennig (y cyfeirir ato yma fel yr 'ymgynghoriad cyntaf') er mwyn llywio Rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi cychwyn darpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos hwnnw rhwng 25 Ionawr a 19 Ebrill 2023 ac roedd y fersiwn ddrafft o'r RIA yn rhan o'r deunyddiau ymgynghori ynghyd ag Asesiad Effaith Integredig (IIA). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr asesiadau effaith statudol y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru eu gwneud wrth gyflwyno deddfwriaeth newydd. Nododd yr Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a gynhwysir yn yr IIA y dylid ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn ffurfiol fel ymgynghorai statudol, a thrafodir hyn isod. Ni ddaeth unrhyw sylwadau pellach i law am gynnwys yr IIA drwy'r ymgynghoriad cyntaf.

*Ymgynghoriad ffurfiol â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth*

5.3 Cyn i ddogfennau'r ymgynghoriad cyntaf gael eu cyhoeddi, ymgynghorwyd â'r ICO ynghylch adran DPIA yr IIA a luniwyd ar gyfer yr

[10] pri-ld10796-em-r-https://senedd.cymru/laid%20documents/pri-ld10796-em-r/pri-ld10796-em-r-w.pdf

ymgynghoriad hwnnw. Roedd Erthygl 36(4) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn gymwys gan wneud ymgynghori â'r ICO yn orfodol gan fod y cynllun trwyddedu mandadol yn bodloni tri maen prawf ar wahân:

- Data sensitif neu ddata personol iawn: Wedi'i fodloni gan y gofyniad i bob ceisydd am drwyddedau unigol ddatgan ar y ffurflen gais unrhyw euogfarnau heb ei disbyddu am droseddau perthnasol a darparu tystysgrif DBS sylfaenol i gefnogi'r datganiad hwn.

- Data sensitif neu ddata personol iawn: Wedi'i fodloni drwy brosesu data categori arbennig posibl (data iechyd) oherwydd y gofyniad yn y Ddeddf i ymarferwyr trwyddedig gofnodi a chadw cofnodion ymgynghori â chleientiaid.

- Prosesu data ar raddfa fawr. Wedi'i fodloni oherwydd y nifer posibl o unigolion ledled Cymru gyfan sy'n darparu data personol drwy geisiadau ac ymgyngoriadau â chleientiaid, yr ystod o eitemau data personol sy'n cael eu prosesu, hyd y cynllun a graddau daearyddol y prosesu.

5.4 Rhoddodd yr ICO ei hadborth ar gynnwys y ffurflen DPIA a gwnaeth nifer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol i wella gwybodaeth i awdurdodau lleol, ymarferwyr ac unigolion sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau ar ofynion prosesu a chadw data. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol â'r ICO i roi cyd-destun pellach iddynt o ofynion y cynllun, a gwnaed diwygiadau i'r DPIA yn seiliedig ar eu sylwadau a'u cwestiynau. Ymgorfforwyd y DPIA yn yr IIA a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf. Cafodd yr ICO ei gynnwys yn nosbarthiad ffurfiol yr ymgynghoriad cyntaf a'r un a ddilynodd (mae paragraff 5.9 isod yn cyfeirio at hyn). Mae'r ICO wedi cadarnhau nad oes ganddi unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

*Ymgynghori'n ffurfiol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder*

5.5 Gan y bydd troseddau a'r defnydd o'r gwasanaeth llysoedd i glywed apeliadau yn erbyn gwrthod trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo yn rhan o'r cynllun trwyddedu arfaethedig, cafwyd caniatâd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i ymgynghori'n ffurfiol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n ofynnol i swyddogion Llywodraeth Cymru gydweithio â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar sail rynglywodraethol gyfrinachol, i sicrhau bod yr effeithiau ar y system gyfiawnder sy'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw ar ffurf ffurflen nodi'r effaith ar y system gyfiawnder i nodi amcangyfrif o niferoedd o achosion i'w dwyn gerbron y llysoedd. Gofynnwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a nodi unrhyw effeithiau a'r costau posibl i'r Gwasanaeth Llysoedd i roi'r gofynion newydd ar waith a

chlywed yr achosion hynny. Gwnaed yr ymgynghoriad hwnnw yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyntaf a daeth y costiadau cymwys i law oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghyd â'i hasesiad o'r effaith ar waith y gwahanol wasanaethau cyfiawnder o dan eu rheolaeth. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adran berthnasol o'r RIA.

5.6 Ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymhellach gan swyddogion ar ôl i'r ymgynghoriad cyntaf ddod i ben, gan y byddai newidiadau polisi a wnaed o ganlyniad i'r ymatebion a ddaeth i law yn golygu y byddai llai o achosion yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd. O ganlyniad, adolygodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei chostau, ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder (JSII) terfynol wedi'i gynnwys yn yr adran berthnasol o'r RIA.

5.7 Gellir gweld y ddogfen ymgynghori gyntaf, yr RIA drafft a'r IIA a dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r ymatebion a ddaeth i law yn y ddolen ganlynol:
Trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU

5.8 Mae'r IIA wedi cael ei ddiweddaru ers hynny i gynnwys y ffurflen JSII ac asesiad o'r Ddyletswydd Ansawdd, a ddaeth i rym ar ôl i'r IIA drafft gael ei gyhoeddi. Mae hefyd wedi cael ei adolygu'n gyffredinol i sicrhau ei fod wedi dal yn berthnasol. Mae'r IIA terfynol wedi cael ei ailgyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU

*Ymgynghoriad ffurfiol ar reoliadau drafft a chanllawiau statudol*

5.9 Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach (y cyfeirir ato wedi hyn fel yr 'ail ymgynghoriad') am wyth wythnos rhwng 12 Chwefror ac 8 Ebrill 2024 ac yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf y cyfeirir ato uchod. Cyflwynodd yr ail ymgynghoriad hwn y drafftiau terfynol o'r Rheoliadau i'w gwneud o dan Ran 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi. Roedd yr ail ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys y Canllawiau Statudol drafft ar gyfer yr awdurdodau lleol ar sut y dylent benderfynu ar 'addasrwydd person i gyflawni triniaeth arbennig' (pan fo'i addasrwydd wedi'i gwestiynu) at y diben o gael trwydded newydd, adnewyddu trwydded, amrywio trwydded neu at ddiben dirymu trwydded.

5.10 Gan fod ymgynghoriad wedi bod eisoes ar y cynigion polisi ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol, bernid mai ymgynghoriad technegol oedd yr ail ymgynghoriad hwn a hynny yn benodol ar eiriad y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau Statudol drafft, er bod y Rheoliadau drafft yn rhoi manylion pellach am y cynllun newydd, gan gynnwys y pynciau hynny lle'r oedd y ddyletswydd statudol i ymgynghori o dan adran 64 o'r Ddeddf yn gymwys. I'r perwyl hwn, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei chydsyniad i'r ymgynghoriad redeg am wyth wythnos yn lle'r cyfnod safonol o 12 wythnos.

5.11 Daeth 93 o ymatebion ar wahân i law oddi wrth ystod o randdeiliaid, er mai copïau dyblyg oedd rhai o'r rhain. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion i law oddi wrth awdurdodau lleol, cyrff rheoleiddio proffesiynol ac ymarferwyr unigol neu weithredwyr busnes. Fel crynodeb eang, daeth sylwadau i law ar eiriad y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau Statudol, ond cododd y mwyafrif o'r ymatebion i'r holl gwestiynau faterion ymarferol na fyddent yn cael eu cynnwys mewn Rheoliadau ond y dylid mynd i'r afael â hwy mewn canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau trwyddedu ac ymarferwyr a busnesau triniaethau arbennig.

5.12 Cyhoeddwyd dadansoddiad ac ymateb llawn Llywodraeth Cymru i'r ail ymgynghoriad hwn ar y dudalen ymgyngoriadau sydd wedi dod i ben berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

*Dyletswydd i ymgynghori*

5.13 Cyn gwneud Rheoliadau o dan adran 62 neu 63 o'r Ddeddf (mewn perthynas â meini prawf trwyddedu a'r amodau trwyddedu mandadol sy'n rhan o un o'r setiau o Reoliadau) o dan adran 64 o'r Ddeddf rhaid i Weinidogion Cymru:

(a) ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ("personau cynrychiadol"), a

(b) cynnal ymgynghoriad ag unrhyw bersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

5.14 Mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol hon drwy ymgysylltu a chynnal yr ymarfer ymgynghori cyntaf a'r ail.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

6.1 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.2 Cyflwynwyd RIA[11] (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel ‘RIA 2017’) gyda'r Ddeddf pan gafodd ei chyflwyno i'r Senedd, a chafodd ei ddiweddaru ar ôl cwblhau gwaith craffu Cyfnod 2 yn 2017. Mae'r opsiynau a ffefrir a ddaeth yn gyfraith wedi'u nodi isod ac maent wedi'u diweddaru lle bo'n berthnasol i gynrychioli triniaethau a chostau presennol.

6.3 Paratowyd yr RIA hwn ar gyfer y broses o wneud rheoliadau, ac fe'i cyhoeddwyd ar ffurf ddrafft fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ar egwyddorion polisi a gynhaliwyd rhwng 25 Ionawr ac 19 Ebrill 2023. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r effaith y bydd cyflwyno'r cynllun gorfodol yn ei chael ar y system gyfiawnder.

6.4 Mae'r RIA hwn wedi'i ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori honno i gynnwys costau ychwanegol a nodwyd gan awdurdodau lleol; i adlewyrchu newidiadau yn y broses a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad, ac i gynnwys y Memorandwm Esboniadol.

6.5 Ystyriwyd tri opsiwn o sylwedd yn wreiddiol, gyda'r trydydd wedi'i rannu'n ddau is-opsiwn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Datblygu a chyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag arfer orau ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis, a chynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth;
- Opsiwn 3A – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig. Hwn oedd yr opsiwn a ffafriwyd;
- Opsiwn 3B – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig gyda chofrestr ganolog ychwanegol o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd neu gerbydau cymeradwy sy'n darparu triniaethau arbennig yng Nghymru.

### Costau a manteision a gyfrifwyd ar gyfer y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gwreiddiol

6.6 Cynhyrchwyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd. Paratowyd yr wybodaeth drwy drafod gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys

[11] https://senedd.cymru/laid%20documents/pri-ld10796-em-r/pri-ld10796-em-r-w.pdf

awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau eraill. Aseswyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn yn wreiddiol dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2017-18 a 2021-22, gyda chyfnod hwy yn cael ei ddefnyddio mewn rhai achosion. Pan ddisgwyliwyd i'r costau ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd (h.y. costau cylchol), nodwyd y rhain yn y testun.

6.7 Opsiwn 3A yw'r opsiwn a ffafriwyd ac a ddilynwyd, ac fe'i hymgorfforwyd yn y Ddeddf, gyda darpariaeth yn cael ei gwneud yn adran 75 o'r Ddeddf i fynd ar drywydd elfen cofrestr ganolog opsiwn 3B yn ddiweddarach pe bai awdurdodau lleol yn cytuno i greu un gofrestr Cymru gyfan.

6.8 Ers i'r Ddeddf gael ei phasio, mae awdurdodau lleol wedi cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn i adran 75 gael ei chychwyn gan eu bod yn dymuno cael cofrestr ganolog er mwyn cyflawni eu dyletswyddau unigol i gadw cofrestr. Nid oedd modd cychwyn adran 75 cyn cychwyn Rhan 4 ac Atodlen 3, ond nodwyd y cais ac fe'i hystyrir yn yr RIA hwn mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu ac ariannu cofrestr ganolog.

**Opsiynau sydd bellach yn cael eu hystyried yn yr RIA hwn**

6.9 Gan fod y Ddeddf wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017 a bod darpariaeth wedi'i gwneud o dan Ran 4 ar gyfer system drwyddedu, y mae'r fframwaith ar ei chyfer wedi'i nodi ar wyneb y Ddeddf, mae'r opsiynau i'w hystyried yn yr RIA hwn yn gyfyngedig. Dyma'r opsiynau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd:

**Opsiwn 1** – gwneud dim: h.y. peidio â chychwyn unrhyw un o ddarpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf a pheidio â gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n ofynnol o dan Ran 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi;

**Opsiwn 2** – cychwyn pob adran o Ran 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi a gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n ofynnol, i gynnwys creu cofrestr ganolog (yr hen Opsiwn 3B).

6.10 Ystyriwyd hefyd a oes opsiwn canolraddol i gychwyn rhai rhannau o Ran 4 ac nid eraill. Gan fod Rhan 4 o'r Ddeddf yn nodi cynllun trwyddedu unedig, byddai'n anodd cychwyn rhai o'r darpariaethau ac nid eraill. Felly, ystyrir nad oes opsiwn canolraddol h.y. cychwyn rhai rhannau o Ran 4 yn unig a gwneud is-ddeddfwriaeth gyfyngedig gan fod Rhan 4 wedi'i dylunio i weithio fel cyfanwaith.

6.11 Mae'r costau a roddwyd ar gyfer yr hen Opsiynau 1, 3A a 3B (Opsiwn 2 bellach) yn cael eu hadolygu yma fel y'u cyflwynwyd yn wreiddiol ond wedi'u diweddaru gyda chostau ychwanegol a nodwyd gan awdurdodau lleol, y ffioedd ar gyfer y cynllun a bennwyd gan

awdurdodau lleol a chostau presennol lle bynnag y bo'n bosibl. Mae cyfran sylweddol o'r gwaith paratoi sydd ei angen i gyflwyno'r cynllun trwyddedu gorfodol bellach wedi'i gwblhau, felly nid yw'r gweithgareddau a'r costau hynny bellach yn rhan o'r costau, ond maent wedi'u crynhoi ar gyfer gwybodaeth yn yr adran berthnasol fel costau suddedig. Gwnaed rhywfaint o addasu hefyd i ystyried triniaethau wedi'u diweddaru, er enghraifft, llai o ddibyniaeth ar ddogfennau copi caled ar gyfer cyfathrebu. Mae'r RIA hwn hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn prosesau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyntaf mewn perthynas â chlywed apelau yn y llysoedd ac i gywiro mân wallau.

6.12 Mae nifer yr ymarferwyr a mangreoedd a roddir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ffigurau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn 2019, 2022 a 2024. Gan nad yw awdurdodau lleol wedi gorfod cadw gwybodaeth gyfredol am unigolion neu fangreoedd y maent wedi'u cofrestru'n flaenorol, yn 2018 gofynnwyd iddynt gysylltu â phobl i ddechrau mireinio'r wybodaeth oedd ganddynt. Yn ogystal, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu ffigurau wedi'u diweddaru yn 2022 a 2024. Nid ydym wedi defnyddio ffigurau 2019, gan mai dyma ddechrau'r broses mireinio data, felly defnyddiwyd ffigurau 2022 a 2024 fel ffigurau mwy dibynadwy, er eu bod yn dal i gael eu nodi fel amcangyfrifon. Mae nifer y cofrestriadau newydd wedi bod yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y niferoedd a roddwyd ar gyfer 2022 a 2024, wedi'i rhannu â 2. Yn seiliedig ar ffigurau dwy flynedd, nid oes modd dweud gydag unrhyw ddibynadwyedd a yw'r ffigurau ar gyfer cofrestriadau newydd yn nodweddiadol ar gyfer unrhyw flwyddyn, ac nid yw unrhyw ffigurau wedi'u ceisio na'u cyflwyno'n flaenorol ar faint sy'n rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn. Rydym wedi gorfod tybio at ddibenion y ddogfen hon bod y rhain yn niferoedd cyfartal.

Mae'r ffigurau sylfaenol ar gyfer pobl a mangreoedd sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol ar hyn o bryd ar gyfer Cymru gyfan wedi'u hamcangyfrif fel a ganlyn:

| | 2022 | 2024 | gwahaniaeth | ÷2 |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestriadau personol/ymarferydd | 3,516 | 4,419 | +903 | 452 |
| Cofrestriadau mangre | 1,868 | 2,036 | +168 | 84 |

## 7. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Disgrifiad

7.1 Nodir manylion y cynllun cofrestru presennol yn y Memorandwm Esboniadol ym mharagraffau 4.6-4.10. Ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Darperir prif bwerau awdurdodau lleol ar gyfer rheoleiddio busnesau sy'n cyflawni triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis yn eu hardal gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ('Deddf 1982').[12] Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys y pŵer i gyhoeddi is-ddeddfau at ddiben sicrhau glendid mangreoedd a ffitiadau cofrestredig, glendid pobl sydd wedi'u cofrestru (a'r rhai sy'n eu cynorthwyo) a glanhau a sterileiddio offer. Cynhyrchodd Gweinidogion Cymru is-ddeddfau enghreifftiol cynhwysfawr, a oedd yn adlewyrchu canllawiau rheoli heintiau cymwysedig ac arferion gorau'r diwydiant[13]. Mae'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf 1982 yn fabwysiadol, felly mae awdurdodau lleol wedi gallu dewis pa driniaethau sy'n ddarostyngedig i'w rheolaeth ac a ddylid cyhoeddi is-ddeddfau ai peidio.

7.2 Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1982 ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod saith wedi dewis mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Mae gan awdurdodau lleol eraill is-ddeddfau ar waith; ond mae'r rhain yn amrywio o ran cwmpas a chynnwys. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol is-ddeddfau sy'n ymwneud â thriniaethau penodol, megis tatŵio, tra bod gan eraill is-ddeddfau sy'n berthnasol i'r holl driniaethau a nodir ym mharagraff 12.

7.3 Mae gan awdurdodau lleol y gallu i godi ffi gofrestru untro ar fusnesau sy'n cyflawni unrhyw un o'r triniaethau o dan Ddeddf 1982. Mae'r strwythurau ffioedd yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Mae pob awdurdod lleol yn codi ffi gofrestru mewn perthynas â mangreoedd lle mae'r triniaethau'n cael eu cyflawni, tra bod rhai yn codi ffioedd cofrestru mewn perthynas â mangreoedd i gynnwys un neu ragor o ymarferwyr unigol, ac mae rhai yn codi ffioedd cofrestru 'mangre' a 'personol' ar wahân. Gan fod cymaint o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran pwy/beth sydd wedi'i gofrestru, rydym wedi gwahanu'r cyfrifiadau i 'mangre' a 'personol', ar y ddealltwriaeth bod pob un yn cynnwys elfennau penodol o'r llall pan edrychir arnynt ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.

---

[12] *Adrannau 14 ac 15, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982* https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1982/30

[13] *Is-ddeddfau enghreifftiol Cymru ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis.* https://www.llyw.cymru/ddeddfau-ar-aciwbigo-tatwio-lliwio-croen-tyllu-ac-electrolysis

7.4 Mae swm y ffi hefyd yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol ac nid ydynt i gyd yn eu cyhoeddi. Ar gyfer mangreoedd, mae ystod y ffioedd cofrestru rhwng £55 a £293 a, lle codir ffi bersonol ar wahân, mae'n amrywio rhwng £49 a £293[14]. At ddibenion y costau hyn, cyfrifwyd cyfartaledd yr ystod o ffioedd o'r holl wahanol symiau cyhoeddedig a oedd ar gael, a'r symiau a ddefnyddir yma felly yw £154 ar gyfer cofrestriad mangre a £110 ar gyfer cofrestriad personol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn codi ffioedd ychwanegol am amrywio cofrestriad presennol[15]. Mae'r ffioedd cofrestru hyn, yn ogystal â'r cyllid craidd a ddarperir i'r awdurdod lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol i dalu costau gorfodi yn y sector hwn. Mae awdurdodau lleol wedi nodi bod tua 4,419 o gofrestriadau ymarferwyr personol a 2,036 o gofrestriadau mangre ledled Cymru yn 2024.

7.5 Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974[16] yn gymwys ledled Cymru ac yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bawb sy'n ymgymryd â thriniaethau arbennig, gan gynnwys gweithwyr peripatetig sy'n ymgymryd â thriniaethau yng nghartref y cleient.

7.6 Gan mai dyma'r opsiwn sylfaenol, nid oes unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r adran ganlynol yn rhoi amcangyfrif o'r costau a ysgwyddir ar hyn o bryd gan y gwahanol bartïon.

### Llywodraeth Cymru

7.7 Nid oes unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chefnogi awdurdodau lleol mewn perthynas â'u pwerau o dan Ddeddf 1982.

7.8 Yn ogystal â Deddf 1982, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 '(Deddf 1984') i wneud cais i Ynad Heddwch wneud gorchymyn Rhan 2A at ddiben atal, amddiffyn rhag neu reoli digwyddedd neu ledaeniad haint neu halogiad neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i ddigwyddedd neu ledaeniad haint neu halogiad. Gall y gorchymyn ymwneud â phobl, pethau neu fangreoedd. Ers i'r pwerau ddod i rym yn 2010, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu defnyddio i wneud cais am orchymyn os ydynt yn credu bod risg o haint neu halogiad lle mae triniaethau, megis tatŵio a thyllu'r corff, yn cael eu cyflawni o dan amodau aflan. Yn RIA 2017, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r defnydd o'r pwerau hyn, gan ddefnyddio cyngor gan awdurdodau lleol a gweithwyr meddygol proffesiynol. Amcangyfrifwyd bod yr adolygiad blynyddol hwn yn costio £2,500 mewn amser staff bob blwyddyn (yn seiliedig ar gost o £1,700 i Lywodraeth Cymru, £400 i

---

[14] Yn seiliedig ar wybodaeth o wefannau awdurdodau lleol, lle rhestrwyd ffioedd, Gorffennaf 2024, mae rhai awdurdodau'n codi ffi sefydlog sy'n cwmpasu'r fangre ac un ymarferydd
[15] Gwybodaeth wedi'i darparu gan awdurdodau lleol.
[16] Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/37/introduction

awdurdodau lleol a £400 i Iechyd Cyhoeddus Cymru). Ers i RIA 2017 gael ei gyhoeddi ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhesymoli sut mae'n craffu ar y gorchmynion Rhan 2A hyn ac mae wedi symud i fonitro gorchmynion a ddaw i law gan awdurdodau lleol dros flwyddyn galendr a chyhoeddi rhestr o orchmynion a geir yn flynyddol, sy'n costio ychydig iawn drwy ddefnyddio adnoddau presennol. Mae'r rhestr lawn o'r holl orchmynion Rhan 2A a adroddir i'r Prif Swyddog Meddygol yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru[17].

**Awdurdodau lleol**

7.9 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli busnesau sy'n ymgymryd â'r triniaethau mewn lleoliadau masnachol ac maent yn cynnal archwiliadau a gwaith cydymffurfio gyda'r busnesau hyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n hylan ac o fewn eu rhwymedigaethau statudol (gan gynnwys eu rhwymedigaethau iechyd a diogelwch).

7.10 Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod saith awdurdod lleol wedi mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru erbyn mis Awst 2016. Amcangyfrifwyd mai cost mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol hyn i bob awdurdod lleol oedd oddeutu £5,000[18]. Fodd bynnag, mae wedi dod i'r amlwg nad oes unrhyw awdurdodau lleol ychwanegol wedi mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol mewn perthynas ag aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio ers 2017. Mae hyn oherwydd eu bod wedi rhagweld ar y pryd y byddai Rhan 4 3 o'r Ddeddf ac Atodlen iddi, a'r rheoliadau dan sylw yn yr RIA hwn, wedi cael eu rhoi ar waith yn weddol fuan ar ôl pasio'r Ddeddf. Nid yw'r awdurdodau lleol sy'n weddill yn debygol o fabwysiadu'r is-ddeddfau yn 2024, felly'r gost iddynt am hyn yw sero.

7.11 Mae'r gyfundrefn arolygu yn amrywio yn ôl y driniaeth a gyflawnir a lefel y risg. Bydd awdurdod lleol yn cynnal arolygiad cychwynnol wrth dderbyn cais i gofrestru mangre, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y ffi gofrestru a delir gan y busnes sy'n gwneud y cais. Rhwng 2022 a 2024, cofrestrwyd 168 o fangreoedd newydd, sy'n gyfystyr ag 84 y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn ogystal, yn 2024, mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif bod tua 4,419 o gofrestriadau personol ledled Cymru gyfan, sef cynnydd o 903 ers 2022, felly mae hyn yn gyfystyr â 452 y flwyddyn ar gyfartaledd. Fel y nodwyd uchod, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cofrestru pobl ar wahân i fangreoedd, ond mae rhai yn codi ffi sefydlog ar gyfer y fangre ac un ymarferydd.

7.12 Fel sy'n wir ar gyfer mangreoedd, mae'r ffi am gofrestriad personol yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol, yn amrywio rhwng £49 a £293, gyda'r rhai ar y pen uchaf yn cynrychioli'r ffi sefydlog y cyfeirir ati uchod. Rydym wedi cyfrifo cyfartaledd yr holl ffioedd at ddibenion y

---

[17] Gorchmynion Rhan 2A diogelu iechyd 2010 i 2021 | LLYW.CYMRU

[18] *Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol*

cyfrifiadau hyn, i roi swm cynrychiadol o £110 fesul cais am gofrestriad personol.

7.13 Dywedwyd wrthym fod awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn pennu ffioedd eu cynllun yn seiliedig ar dalu eu costau hanfodol wrth brosesu'r cais, sy’n cynnwys arolygiad ar gyfer mangreoedd, sef y rheswm dros y ffi uwch ar gyfer mangreoedd. Gan ddefnyddio'r ffioedd cyfartalog, cyfanswm y derbyniadau dangosol fyddai £12,936 ar gyfer mangreoedd a £49,720 ar gyfer cofrestriadau personol, sy'n gwneud cyfanswm o £62,656 y flwyddyn, a gellir cymryd y swm hwn fel dangosydd bras o gostau prosesu ceisiadau i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gan nad cynllun adennill costau yw hwn, nid yw'r derbyniadau o ffioedd ymgeisio yn talu holl gostau'r awdurdodau lleol mewn perthynas â rhedeg y cynllun ac unrhyw weithgareddau gorfodi.

7.14 Mae'n debygol mai rhoi cofrestriad fydd diwedd y cyswllt ffurfiol ag awdurdodau lleol ar gyfer y mwyafrif o fusnesau, oni bai bod problemau. Mae awdurdodau lleol yn gwneud ymweliadau cydymffurfio blynyddol, sef hapwiriadau i weld a yw'r busnes yn cydymffurfio â thelerau ei gofrestriad, ond mae'r rhain fel arfer yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a gwybodaeth a dderbynnir, felly ni ymwelir â phob mangre bob blwyddyn, ac mae'r ymweliadau hyn ar wahân i'r rhai a gynhelir fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae'n anodd rhoi ffigur ar sawl mangre fyddai'n derbyn ymweliad ledled Cymru, ac mae'n anochel y byddai nifer o fusnesau'n rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn. Mae awdurdodau lleol yn amcangyfrif bod tua 2,036 o fangreoedd cofrestredig yn 2024. Nid oes modd mesur faint, gan nad oes gofyniad ar hyn o bryd i naill ai'r awdurdod lleol na’r fangre gymryd unrhyw gamau dilynol ar ôl i'r cofrestriad gael ei roi. At ddibenion y cyfrifiadau hyn, rydym wedi tybio bod y nifer sy'n rhoi'r gorau i fasnachu yn hafal i'r nifer sy'n cychwyn bob blwyddyn (42), gan roi nifer sefydlog o 2,036. Ar gyfer yr RIA, rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd tua hanner yr holl fangreoedd sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw adeg (ac eithrio cofrestriadau newydd) yn derbyn ymweliad bob blwyddyn, sef 1,018 o fangreoedd. Ar gyfer costau uned yr RIA hwn, mae awdurdodau lleol wedi hysbysu yr amcangyfrifir bod un ymweliad cydymffurfio ar ben uchaf arolygu ac asesu yn costio £115. Ar draws pob awdurdod lleol, amcangyfrifir bod ymweliadau cydymffurfio fangreoedd yn costio tua £117,070 y flwyddyn.

7.15 Mae gwybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn nodi bod cwynion yn cael eu derbyn yn bennaf mewn perthynas â busnesau sy'n darparu triniaethau tatŵio a thyllu'r corff. Amcangyfrifir bod tua 200 o gwynion mewn perthynas â busnesau ac ymarferwyr yn cyflawni'r triniaethau hyn bob blwyddyn ar gyfer Cymru gyfan[19]. Mae costau ymchwilio a gwaith dilynol mewn perthynas â chŵyn yn amrywio, yn dibynnu ar gymhlethdod pob achos. Amcangyfrifir bod ymchwilio i gŵyn

[19] Yn seiliedig ar ddata awdurdodau lleol sy'n nodi cwynion mewn perthynas â 10% o'r holl fusnesau cofrestredig, yn seiliedig ar 2,036 o fangreoedd

yn costio £1,000[20] i awdurdod lleol, sy'n cyfateb i gyfanswm o tua £200,000 bob blwyddyn ledled Cymru. O ran erlyniadau llwyddiannus, mae gan awdurdodau lleol yr opsiwn o geisio adennill costau. Mae'r tabl canlynol yn nodi amcangyfrif o gostau cynlluniau a chydymffurfio i awdurdodau lleol dros bum mlynedd.

**Tabl 1 - Costau arolygu a chydymffurfio awdurdodau lleol (Cymru gyfan) Cynllun Cofrestru Presennol**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Cost prosesu cofrestriadau newydd - mangreoedd, n = 84 @ £154 yr un | £12,936 | £12,936 | £12,936 | £12,936 |
| Cost prosesu cofrestriadau newydd - personol, n = 452 @ £110 yr un | £49,720 | £49,720 | £49,720 | £49,720 |
| **Is-gyfanswm y cofrestriadau newydd** | **£62,656** | **£62,656** | **£62,656** | **£62,656** |
| Costau ymweliadau cydymffurfio – 50% o gyfanswm y mangreoedd (2,036) @ £115 yr un | £117,070 | £117,070 | £117,070 | £117,070 |
| Costau ymchwilio i gwynion – 200 @ £1,000 yr un | £200,000 | £200,000 | £200,000 | £200,000 |
| **Is-gyfanswm cydymffurfio** | £317,070 | £317,070 | £317,070 | £317,070 |
| **Cyfanswm** | **£379,726** | **£379,726** | **£379,726** | **£379,726** |

7.16 Ar hyn o bryd, pwerau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol i atal unigolion sy'n cyflawni triniaethau heb fod wedi cofrestru, yn enwedig os oes risg i iechyd y cyhoedd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio pwerau yn Neddf 1984[21] i wneud cais am orchmynion Rhan 2A i atal person rhag ymarfer, er enghraifft tatŵio, oherwydd y risgiau i iechyd y cyhoedd. Hyd at fis Gorffennaf 2024, mae 37 o orchmynion Rhan 2A wedi'u gwneud mewn perthynas â thatŵio neu dyllu'r corff ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2010 (gan gynnwys dau adnewyddiad o'r gorchmynion cychwynnol a wnaed). Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o dri y flwyddyn, ond byddai defnyddio cyfartaledd yn rhoi ffigur camarweiniol o faint o orchmynion rhan 2A sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer triniaethau arbennig. Mae awdurdodau lleol wedi bod o'r farn ei bod yn fwy tebygol y byddai dau gais ym mhob tair blynedd, ond nid oes gorchmynion wedi'u gwneud ers 2019 ar gyfer materion mewn perthynas â thatŵio neu dyllu'r corff. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, gyda llawer o awdurdodau lleol yn dewis ymdrin â gweithgarwch anghyfreithlon yn anffurfiol heb droi at y llysoedd ac eithrio yn yr achosion mwyaf eithafol, gan fod y broses i'w dilyn i gael gorchymyn yn feichus ac yn ddrud o ran amser staff a chostau llys, a hefyd gan fod toriadau cyllidebol o fewn adrannau iechyd cyhoeddus awdurdodau lleol wedi golygu bod swyddogion wedi cael eu gorfodi i

[20] Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol
[21] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/14/part/3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010. Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: Deddfwriaeth diogelu iechyd: gorchmynion Rhan 2A 2010 i 2022 | LLYW.CYMRU

ganolbwyntio eu hadnoddau ar gyflawni eu swyddogaethau statudol ar gyfer y boblogaeth ehangach (megis arolygiadau o fusnesau bwyd) yn hytrach na mynd ar drywydd unigolion sy'n darparu triniaethau arbennig yn anghyfreithlon. Felly, ystyrir mai dim ond pan fetho popeth arall y gwneir cais am orchymyn Rhan 2A, a phan fo risg bresennol o niwed i iechyd a phan fo ffyrdd eraill o sicrhau rhwymedi wedi bod yn aflwyddiannus.

7.17 Os na fydd y ddeddfwriaeth sy'n destun yr RIA hwn yn cael ei chychwyn byth, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol barhau i ddibynnu ar orchmynion Rhan 2A i ymdrin ag ymarferwyr triniaethau arbennig yn gweithredu'n anghyfreithlon, ac mae'n debygol, felly, y byddai mwy na dau orchymyn mewn tair blynedd yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, gan ei bod yn anodd rhagweld ffigur gwahanol, at ddibenion y costau hyn, defnyddiwyd dau achos mewn tair blynedd ar gyfer Cymru gyfan. Amcangyfrifir y bydd ceisio a gweithredu gorchymyn Rhan 2A yn costio rhwng £800 a £3,000 i awdurdod lleol, er y gallai fod yn llawer mwy o dan rai amgylchiadau yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos. Mae hyn yn cynnwys ffi o £210 y mae rhai llysoedd ynadon wedi'i chodi ar awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am orchymyn. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gorchmynion Rhan 2A a ragwelir bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf a'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r rhain.

**Tabl 2 - Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 - Gorchmynion Rhan 2a ar gyfer tatŵio a thyllu'r corff (Cymru gyfan)**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr achosion a ragwelir | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Costau cysylltiedig | £1,600-£6,000 | 0 | 0 | £1,600-£6,000 |

7.18 Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario rhwng £379,726 a £385,726 y flwyddyn, yn dibynnu ar a oes angen unrhyw orchmynion Rhan 2A mewn unrhyw flwyddyn ac os yw'r gost ar ben uchaf yr amrediad. Mae'r gwariant blynyddol cyfartalog yn dod i rhwng £17,260 a £17,533 fesul awdurdod lleol. Fodd bynnag, gellir adennill tua £62,656 o'r cyfanswm o gofrestru ymarferwyr a busnesau newydd yn ystod y flwyddyn drwy eu ffioedd cofrestru, fel y nodir o dan 'gostau i ymarferwyr a busnesau'. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm gwariant blynyddol net wedi'i addasu awdurdodau lleol rhwng £317,070 a £323,070.

## Costau i'r GIG

7.19 Mae costau i GIG Cymru o ganlyniad i drin cymhlethdodau sy'n deillio o'r triniaethau[22][23], megis heintiau croen bacteriol, adweithiau alergaidd a'r afiechydon systemig mwy cyffredin sy'n deillio o'r effeithiau niweidiol hyn ar iechyd, sef sepsis a sioc anaffylactig. Mae'r rhan fwyaf o'r costau'n codi o driniaethau tatŵio a thyllu'r corff. Mae'r paragraffau canlynol yn darparu asesiad o rai o'r costau ar gyfer y triniaethau hyn at ddibenion enghreifftiol ond, gan nad oes asesiad cywir o'r holl gostau ar gael, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl crynodeb (Tabl 5) ar ddiwedd yr opsiwn hwn. Er bod costau i'r GIG sy'n gysylltiedig â thrin cymhlethdodau yn dilyn aciwbigo, lliwio croen lled-barhaol ac electrolysis[24], ystyrir bod y rhain yn fach iawn ac nid ydynt wedi'u hasesu.

7.20 Mae'n hysbys y gall tyllu'r corff arwain at gymhlethdodau, megis chwyddo, haint, gwaedu, alergedd a rhwygo neu anaf arall[25]. Gall niwed i'r nerfau a chreithio ddigwydd hefyd os yw'r triniaethau'n cael eu cyflawni'n wael. Er eu bod yn brin, gall cymhlethdodau yn sgil tyllu'r corff arwain at orfod mynd i'r ysbyty a gallant fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd isorweddol.

7.21 Cynhaliodd yr astudiaeth y cyfeirir ati yn nhroednodyn 25 ddadansoddiad manylach o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thyllu'r corff ymhlith pobl ifanc 16 i 24 oed ac amcangyfrifodd fod 5.1% o'r holl driniaethau tyllu'r corff wedi arwain at geisio cymorth gan fferyllydd, 3% gan feddyg teulu, 0.6% wedi gorfod mynd i adran damweiniau ac achosion brys a 0.9% wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Tybir bod y rhai nad ydynt yn ceisio cymorth pellach gan wasanaethau'r GIG yn ailymweld â'r ymarferydd a gyflawnodd y driniaeth. Gan dybio bod y patrwm hwn o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn cael ei ailadrodd ar draws pob grŵp oedran, defnyddiwyd y data hyn fel sail i amcangyfrif nifer yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru a'r costau cysylltiedig (Tabl 3 isod).

7.22 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata am nifer y bobl sydd wedi cael triniaeth tyllu'r corff yng Nghymru, ac nid oes unrhyw dystiolaeth benodol chwaith am gyfradd cymhlethdodau iechyd sy'n deillio o dyllu'r corff, neu o datŵio. Gan mai prin yw'r data o wledydd eraill hefyd, mae amcangyfrif o'r costau iechyd wedi'i seilio ar y data mwyaf perthnasol sydd ar gael. Defnyddiodd RIA 2017 astudiaeth o UDA o 2006 i gyfrifo faint o'r boblogaeth sydd â thatŵs, yna defnyddiodd y ffigurau o astudiaeth Bone[26] i gyfrifo faint o bobl â chymhlethdodau a aeth i bob math o safle iechyd i gael triniaeth.

---

[22] Sindoni, A et al, Health risks for body pierced community: a systematic review https://doi.org/10.1016/j.puhe.2022.01.035
[23] Sindoni A, et al. [Adverse effects related to tattoos in the community setting: a systematic review - PubMed (nih.gov)]
[24] BMJ 2001;323:486
[25] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ 336 1426
[26] Fel troednodyn 25

7.23 Tatŵio yw'r brif ffynhonnell arall o gostau i'r GIG o'r triniaethau arbennig hyn. Mae data a gyhoeddwyd yn 2015 am gyffredinrwydd tatŵio yn y DU yn awgrymu bod gan 18.7% o bobl datŵs (312 o 1,669), er bod maint sampl yr arolwg hwn yn fach[27].

7.24 Cynhaliodd Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH) arolwg[28] o unigolion a oedd wedi profi o leiaf un driniaeth arbennig (tatŵio, microlafnu/microbigmentiad, tyllu'r corff, aciwbigo ac electrolysis) yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

7.25 Er nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn wedi cael unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'w triniaeth (82%), roedd lleiafrif sylweddol (18%) wedi cael effeithiau negyddol. O'r rhai a gafodd sgil-effaith negyddol, roedd angen triniaeth feddygol ar 10%. Roedd gan yr arolwg hwn faint sampl bach iawn o 886, ac nid yw llawer o'r manylion wedi'u cofnodi, ond gellir dod i rai casgliadau defnyddiol i lywio'r costau hyn. Awgrymir bod yr ystod oedran dros 18 oed (yr oedran cyfreithiol ar gyfer tatŵio), a chafwyd ymatebion gan ddynion a menywod.

7.26 Mae'r ystadegau poblogaeth diweddaraf sydd ar gael o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod poblogaeth Cymru yn 3,107,500 yn 2021[29]. Mae data'r Cyfrifiad [30] yn awgrymu bod cyfanswm o 2,559,400 o bobl dros 16 oed yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y gall plant o dan 18 oed gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig heblaw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff neu datŵio, ond nid oes ystadegau ar gael i nodi faint ohonynt a allai fod wedi cael un neu fwy o driniaethau tyllu'r corff, aciwbigo neu electrolysis.

7.27 Gan ragamcanu canran arolwg YouGov y cyfeiriwyd ato uchod sef 18.7%, pe bai'r ganran hon yn cael ei chymhwyso i'r boblogaeth dros 16 oed, gellid dod i'r casgliad bod o leiaf 478,608 wedi cael o leiaf un o'r triniaethau arbennig a restrir. Gan gymhwyso'r canrannau o arolwg RSPH, gellir dod i'r casgliad bod 86,149 (18%) o'r nifer hwnnw wedi cael cymhlethdodau a bod 8,615 o'r rheini (10%) wedi gorfod cael triniaeth feddygol. Yna, gan gymhwyso'r canrannau o astudiaeth Bone ynghylch pwy a gyflwynodd mewn unrhyw safle iechyd penodol i'r nifer hwn o 8,615, gellir cyfrifo costau bras fel y'u cyflwynir yn Nhabl 3 isod, er y dylid cofio mai dim ond ffigurau enghreifftiol yw'r rhain.

7.28 Fodd bynnag, nid oes modd priodoli costau cywir ar gyfer triniaeth oherwydd yr amrywiadau yng nghyflog gweithwyr iechyd proffesiynol yn dibynnu ar bwyntiau ar raddfeydd cyflog, telerau contract y GIG ac ati. Mae Cynllun Taliad y GIG ar gyfer Lloegr[31] yn nodi costau uned ar gyfer ystod eang o ymyriadau meddygol. Mae'r uned a ddefnyddir ar

---

27 YouGov Survey Report (d25d2506sfb94s.cloudfront.net) ]
28 RSPH | Skins and Needles
29 Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
30 TS007 - Age by single year - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
31 NHS England » 2023-25 NHS Payment Scheme, 2024-25 tablau https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2023/03/23-25NHSPS_Annex-A_2024-25.xlsx

gyfer "triniaeth croen ganolradd, person dros 19 oed”. Mae'r uned hon yn cynnwys costau presenoldeb dim ond fel claf allanol, neu glaf mewnol y dydd hyd at uchafswm o bum niwrnod. Nid yw cost uned yn cynnwys ymyriadau eraill megis profion, presgripsiynau neu ddeunyddiau tafladwy megis gorchuddion.

Rhagdybiaethau a wnaed: Ystod cyflog fferyllydd[32] £35,392-£114,949, gros, 37.5 awr yr wythnos; cyflog meddygon teulu Cymru yn seiliedig ar gyfartaledd cyfunol (contract/cyflogedig)[33] o £104,100, gros, 37.5 awr yr wythnos[34]. Mae'r safon ansawdd o 10 munud fesul ymgynghoriad meddyg teulu [35] wedi'i chymhwyso ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad fferyllydd hefyd.

**Tabl 3 - Costau mynediad at wasanaethau'r GIG yn dilyn triniaethau arbennig**

| Disgrifiad o'r cymorth a geisir yn dilyn triniaeth | Nifer y rhai sy'n 16 oed a hŷn sy'n ceisio cymorth bob blwyddyn n = 8,615 | Cost uned | Cost flynyddol (£) |
|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad â fferyllydd 5.1% | 439 | £ 605.82 – £1979.01 (Ymgynghoriad 4.6 munud) £1,317.00 - £4,302.20 (Ymgynghoriad 10 munud) | £605.82 – £4,302.20 |
| Ymgynghoriad â meddyg teulu a thriniaeth wrthfiotig 3% | 258 | £8.90 yr ymgynghoriad a £2.29 am gwrs saith diwrnod o wrthfiotigau drwy'r geg) | £2,887.02 |
| Mynd i adran damweiniau ac achosion brys 0.6% | 52 | Cost anhysbys. Defnyddiwyd yr ymyrraeth berthnasol agosaf ar Gynllun Talu'r GIG (triniaeth croen ganolraddol, person dros 19 oed, claf allanol) o £283 fesul ymgynghoriad. | £14,716 |
| Derbyn i'r ysbyty 0.9% | 77 | Arhosiad byr claf mewnol annewisol 1-5 diwrnod ar gost o £1,105 y dydd (yn seiliedig ar Gynllun Talu'r GIG ar gyfer triniaeth croen ganolraddol, person dros 19 oed, y dydd hyd at uchafswm o 5 diwrnod). | £85,085 - £425,425 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **Isafswm £103,294 – uchafswm £447,330** |

7.29 Gall nifer o gyflyrau difrifol eraill ddigwydd o ganlyniad i'r triniaethau hyn, fel y trafodir isod. Oherwydd prinder cymharol cyflyrau o'r fath yng Nghymru, nid yw'r costau wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau.

[32] Pharmacist | Health Careers; Agenda for change - pay rates | Health Careers
[33] GP Earnings and Expenses Estimates, 2021/22 - NHS Digital
[34] Gweithlu practis cyffredinol: ar 31 Rhagfyr 2021 | LLYW.CYMRU
[35] International variations in primary care physician consultation time: a systematic review of 67 countries | BMJ Open

7.30 Gall unrhyw driniaethau sy'n ymwneud â threiddio i'r croen arwain at drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed megis hepatitis B, hepatitis C a HIV[36]. Mae cost triniaeth ar gyfer yr heintiau hyn yn amrywio'n sylweddol, ond mae cwrs triniaeth ar gyfer hepatitis C[37] yn amrywio rhwng £25,987 a £38,980.

7.31 Mae cymhlethdodau difrifol hefyd a all godi o heintiau a geir yn ystod triniaeth, megis haint pseudomonas sy'n gysylltiedig â thyllu cartilag, a gall achosion difrifol o hwn arwain at yr angen am lawdriniaeth adluniol.

7.32 Mewn achosion anarferol, lle nodwyd diffygion sylweddol yn arferion rheoli haint busnes, efallai y bydd angen cynnal ymarfer hysbysu cleientiaid ("edrych yn ôl"). Cynhelir ymarfer edrych yn ôl o'r fath i nodi unrhyw gleientiaid a allai fod wedi'u heintio â feirws a gludir yn y gwaed ac mae'n cynnwys nodi cleientiaid drwy gofnodion cwsmeriaid i gysylltu â nhw a chynnig profion perthnasol iddynt. Cyhoeddwyd ymarfer edrych yn ôl Seren ar 6 Mai 2015 ac roedd yn cynnwys dros 800 o bobl, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn bobl ifanc. Fe'i cynhaliwyd mewn ymateb i ddiffygion difrifol o ran rheoli heintiau mewn stiwdio tyllu'r corff a thatŵio yng Nghasnewydd. O ganlyniad i'r rhain, cafodd nifer o gwsmeriaid heintiau croen difrifol a oedd angen gofal claf mewnol a llawdriniaeth adluniol yn dilyn tyllu'r corff yn y stiwdio. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm cost yr ymarfer edrych yn ôl oedd £240,159[38]. Mae costau ymarferion o'r fath yn debygol o amrywio'n fawr o achos i achos, a byddent yn cael eu talu gan y GIG yn bennaf. Fodd bynnag, oherwydd natur ysbeidiol ac anrhagweladwy ymarferion edrych yn ôl, nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghostau blynyddol y GIG nac awdurdodau lleol. Er y byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo'n anaml, mae'n debygol y bydd pob achos yn arwain at gost sylweddol.

7.33 Mae cymhlethdodau eraill - poen, anghysur a gorbryder - yn arwain at gostau i unigolion yn ogystal ag i'r GIG. Er nad oes modd meintioli lefel cymhlethdodau o'r fath, byddai unrhyw ostyngiad ynddynt o fudd i'r GIG. Gall cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd isorweddol ac mae achosion o unigolion sydd wedi marw yn dilyn tyllu'r corff wedi cael eu cofnodi[39].

7.34 Yn ogystal â'r costau triniaeth a ysgwyddir gan y GIG, gall unrhyw gymhlethdodau iechyd sy'n deillio o'r triniaethau hefyd arwain at gostau i gyflogwyr yng Nghymru os ydynt yn arwain at absenoldeb salwch neu lai o gynhyrchiant. Ni fu modd meintioli'r gost economaidd hon.

---

[36] Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-274

[37] Yn seiliedig ar brisiau rhestredig NICE a BNF. Iedipasvir-sofosbuvir (Harvoni) ar gyfer trin hepatitis C cronig (Gorffennaf 2024)

[38] The Technical Report of a Blood-Borne Virus Look Back Exercise related to a body piercing and tattooing studio in Newport, South Wales. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 26 Gorffennaf 2016

[39] BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm ; BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757

**Ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis**

7.35 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i fusnesau sy'n darparu'r triniaethau hyn dalu ffi gofrestru untro. Fel y nodir yn yr adran 'awdurdodau lleol' uchod, mae'r ffioedd cofrestru'n amrywio rhwng awdurdodau lleol. Amcangyfrifir bod 84 o gofrestriadau mangre a 452 o gofrestriadau ymarferydd unigol bob blwyddyn ar gyfartaledd. Gan ddefnyddio'r ffioedd cyfartalog o £154 ar gyfer cofrestriad mangre a £110 ar gyfer cofrestriad unigolyn, byddai hyn yn cyfateb i amcangyfrifon o £12,936 ar gyfer cofrestru mangreoedd newydd a £49,720 ar gyfer cofrestru ymarferwyr newydd bob blwyddyn. Felly, amcangyfrifir bod ffioedd ymgeisio yn costio tua £62,656 y flwyddyn i fusnesau. Oherwydd y mecanweithiau codi tâl amrywiol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, megis codi ffi sefydlog i gynnwys mangre ac un ymarferydd neu'r disgresiwn ynghylch p'un ai i godi tâl am gofrestriadau personol, mae'r rhifau hyn yn rhai enghreifftiol yn unig.

7.36 Mae cost hefyd i ymarferwyr a busnesau newydd o ran yr amser a gymerir i gwblhau cais. Er bod systemau ymgeisio awdurdodau lleol yn amrywio, amcangyfrifir bod cais yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau. Gan dybio cyfradd gros yr awr ar gyfer ymarferwyr o £21.20 (£16.31 yr awr FTE ar gyfer Cymru gyda 30% yn cael ei ychwanegu ar gyfer argostau)[40], a chan ddefnyddio'r un nifer cyfartalog o gofrestriadau, sef 452 o geisiadau ar gyfer unigolion ac 84 o geisiadau ar gyfer mangreoedd, amcangyfrifir bod y costau a ysgwyddir yn dod i oddeutu £5,682 y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai yn gwneud cais am gofrestriad ymarferydd a mangre ar yr un pryd, ac nid oes modd meintoli hyn. Nid oes gofyniad i adnewyddu ceisiadau o dan Ddeddf 1982, felly taliad untro yw hwn.

7.37 Felly, amcangyfrifir bod cofrestriadau newydd yn costio £68,338 y flwyddyn i fusnesau. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau sy'n darparu'r triniaethau hyn o dan yr opsiwn hwn.

[40] ASHE 2023 provisional edition Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime, Wales; (mean hourly rate for artistic, literary and media code 341 Wales) Earnings and hours worked, region by occupation by four-digit SOC: ASHE Table 15 – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk). Mae 247 o gyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i £21.20 i ymgorffori argostau.

## Tabl 4 – Costau i Ymarferwyr a Busnesau

| Costau (£) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | £62,656 | £62,656 | £62,656 | £62,656 |
| Cost amser ymgeisio | £5,682 | £5,682 | £5,682 | £5,682 |
| **Cyfanswm** | **£68,338** | **£68,338** | **£68,338** | **£68,338** |

## Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 – Gwneud dim

Noder: Nid yw costau'r GIG wedi'u cynnwys yn y tabl, gan mai dim ond yn rhannol y gellid eu hamcangyfrif.

## Tabl 5 - Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 – Gwneud dim

| Costau (£) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Adolygiad blynyddol o Orchmynion Rhan 2A | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **A - Cyfanswm costau Llywodraeth Cymru** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Awdurdodau lleol – Tabl 1** | | | | |
| Cost prosesu cofrestriadau newydd - mangre | £12,936 | £12,936 | £12,936 | £12,936 |
| Costau prosesu cofrestriadau newydd - personol | £49,720 | £49,720 | £49,720 | £49,720 |
| Costau ymweliadau cydymffurfio | £117,070 | £117,070 | £117,070 | £117,070 |
| Costau ymchwilio i gwynion | £200,000 | £200,000 | £200,000 | £200,000 |
| Gorchmynion Rhan 2A (Tabl 2) | £1,600 – £6,000 | 0 | 0 | £1,600 – £6,000 |
| Mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau awdurdodau lleol** | **£381,326 – £385,726** | **£379,726** | **£379,726** | **£379,726 - £385,726** |
| **Namyn gwerth ffioedd cofrestru** | -£62,656 | -£62,656 | -£62,656 | -£62,656 |
| **B - Costau net awdurdodau lleol** | **£318,670 – £323,070** | **£317,070** | **£317,070** | **£318,670 – £323,070** |
| **Costau i ymarferwyr a busnesau – Tabl 4** | | | | |
| Ffioedd cofrestru untro | £62,656 | £62,656 | £62,656 | £62,656 |
| Amser ymgeisio | £5,682 | £5,682 | £5,682 | £5,682 |
| **C - Cyfanswm costau busnesau** | **£68,338** | **£68,338** | **£68,338** | **£68,338** |
| **Cyfanswm y gost net A+B+C** | **£387,008 – £391,408** | **£385,408** | **£385,408** | **£387,008 – £391,408** |

## Manteision

7.38 Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bolisi bresennol, felly ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol. Byddai'r strwythur ffioedd yn aros yr un fath.

## Anfanteision

7.39 Prif anfantais yr opsiwn hwn yw y byddai'n caniatáu i gynllun nad yw'n addas i'r diben mwyach barhau. Unwaith y mae ymarferwyr neu fangreoedd wedi'u cofrestru, nid oes angen unrhyw gyswllt dilynol rhwng yr ymarferwyr/mangereoedd cofrestredig a'r awdurdod lleol i sicrhau bod safonau hylendid yn cael eu cynnal ar ôl cofrestru. Mae hon yn sefyllfa anfoddhaol a allai ganiatáu i arferion anniogel ac aflan ddatblygu a pharhau heb eu canfod, gan nad oes cymhelliant i ymarferydd/mangre sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal. Pan fo angen camau cyfreithiol i fynd i'r afael ag unrhyw sefyllfa o'r fath, mae'r rhwymedi'n feichus ac yn gostus i awdurdod lleol fynd ar ei drywydd yn y llys. Os yw ymarferydd yn dymuno gweithio mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol, mae'n ofynnol iddo dalu ffi a chofrestru ym mhob ardal a gall fod yn ddarostyngedig i ofynion gwahanol ym mhob un ar gyfer yr un gwaith. Gan fod pob awdurdod lleol wedi datblygu ei fersiwn ei hun o'r cynllun, gyda ffioedd ar wahân, nid oes cysondeb o ran dull gweithredu rhwng gwahanol awdurdodau lleol ledled Cymru.

## Opsiwn 2 – Cyflwyno cynllun trwyddedu triniaethau arbennig, gyda chofrestr ganolog

## Disgrifiad

7.40 Yn yr opsiwn hwn, mae Rhan 4 o'r Ddeddf pan y'i cychwynnir yn diddymu Deddf 1982 fel y'i cymhwysir i Gymru i greu cynllun trwyddedu cenedlaethol, gorfodol ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig yng Nghymru. Diffinnir y triniaethau arbennig hyn yn y Ddeddf fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (sy'n cynnwys lliwio croen lled-barhaol). Er mwyn cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig hyn, byddai angen i unigolyn gael ei drwyddedu a bydd angen i'r fangre (gan gynnwys cerbydau) y mae'n ymarfer ynddi gael ei chymeradwyo. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu ymarferwyr ac arolygu mangreoedd i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf penodedig cyn y gellid caniatáu trwydded neu gymeradwyo mangre/cerbyd. Rhagwelir mai'r cynharaf y byddai'r cynllun trwyddedu yn dod yn weithredol yw tua diwedd 2024 - tan y pwynt hwn, bydd y cynllun cofrestru presennol o dan Ddeddf 1982 yn parhau.

7.41 Bydd y cynllun trwyddedu a gynigir o dan yr opsiwn hwn yn disodli'r cynllun cofrestru a amlinellir o dan opsiwn un (h.y. o dan Ddeddf 1982). Bydd y costau a amlinellir isod yn cael eu hysgwyddo yn lle'r costau o dan Opsiwn 1.

## Costau suddedig camau gweithredu a gwblhawyd

7.42 Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoi i gyrraedd y pwynt o allu pennu dyddiad dod i rym ar

gyfer y cynllun trwyddedu gorfodol. Mae hyn wedi cynnwys cynnal dau ymgynghoriad cyhoeddus; darparu hyfforddiant am ddim i awdurdodau lleol; sesiynau ymwybyddiaeth am ddim i ymarferwyr; datblygu pum set o reoliadau a dogfen ganllawiau statudol; datblygu dogfennau canllawiau anstatudol ar gyfer pob un o'r triniaethau arbennig a deunyddiau eraill ar gyfer ymarferwyr a gwaith TG. Cafodd y gweithgareddau hyn eu costio a'u cynnwys yn yr RIA drafft pan gafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol ym mis Ionawr 2023.

7.43 Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, felly mae bellach yn cael ei drin fel costau suddedig. Felly, nid yw'r costau yn yr adran hon bellach wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n crynhoi'r costau cyffredinol. Fe'u cyflwynir felly at ddibenion gwybodaeth ac ni ddylid eu hystyried fel costau hollgynhwysol, gan nad oes modd eitemeiddio a chostio pob gweithgarwch a gyflawnwyd. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, dosrennir y costau suddedig hyn o ddechrau'r flwyddyn ariannol hyd at ddiwedd mis Awst, yn gynhwysol, sef y pwynt cyn i'r RIA gael ei osod gerbron y Senedd. Mae costau'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol gerbron y Senedd o 1 Medi 2024 yn cael eu trin fel costau yn y dyfodol yn yr adran berthnasol.

## Llywodraeth Cymru

7.44 Dechreuodd yr is-adran polisi a oedd yn gweithio ar Ran 4 (triniaethau arbennig) a Rhan 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) waith ar y gwaith datblygu ar gyfer y rheoliadau angenrheidiol i weithredu'r rhannau hynny bron yn syth ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017. Rhoddwyd sylw i Ran 5 yn gyntaf ac mae y tu allan i gwmpas yr RIA hwn, gan y cwblhawyd y gwaith yn 2019. Roedd yr un staff hefyd yn datblygu'r gwaith polisi ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer Rhan 4 ac Atodlen 3 yn ystod diwedd 2019, ond ataliwyd hyn oherwydd yr angen i roi'r holl staff ar waith i reoli'r ymateb i'r pandemig yn gynnar yn 2020. Mae'n anodd rhoi gwerth ar adnodd staff a oedd yn gweithio ar Ran 4 ac Atodlen 3 nes blwyddyn ariannol 2022-23, pan ailddechreuodd y gwaith, felly defnyddiwyd y flwyddyn ariannol hon yn fan cychwyn ar gyfer costau.

7.45 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw swyddog iechyd yr amgylchedd arbenigol llawn amser ar secondiad i gynghori ar agweddau technegol ar bolisi triniaethau arbennig wrth ddatblygu'r cynllun statudol hwn ac i fwrw ymlaen ag agweddau amrywiol ar y gwaith triniaethau arbennig. Cost y secondiad hwn yn 2022-23 oedd £80,000 ac yn 2023-24 a 2024-25 Ch1 roedd yn £84,000 ac £21,000 yn y drefn honno.

7.46 Mae Swyddog Gweithredol Uwch ac Uwch-swyddog Gweithredol FTE o fewn Is-adran Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y gwaith triniaethau arbennig, yn 2022-23, amcangyfrifir bod hyn yn 0.75 ar gyfer y Swyddog Gweithredol Uwch ac yn 0.25 ar gyfer yr Uwch-swyddog Gweithredol, ac yn llawn amser o flwyddyn ariannol

2023-24 ymlaen. Roedd costau staff cyfartalog Llywodraeth Cymru (sy’n cynnwys cyflogau a chostau ychwanegol fel cyfraniadau pensiwn ac Yswiriant Gwladol y cyflogwr) yn 2022-23 pro-rata yn £39,581 ar gyfer y Swyddog Gweithredol Uwch ac yn £16,591 ar gyfer yr Uwch-swyddog Gweithredol, yn 2023-24 yn £5,948 ar gyfer Uwch-swyddog Gweithredol ac yn £4,755 ar gyfer Swyddog Gweithredol Uwch. Mae'r gwaith hwn yn parhau hyd at 2024-25 yn llawn amser.

7.47 Mae'r costau band cyfartalog hyn yn cwmpasu'r holl weithgareddau i ddatblygu a chynnal y ddau ymgynghoriad, gan gynnwys ysgrifennu, fformatio a chyhoeddi'r holl ddogfennau a gynhyrchir at y diben, dilyn prosesau deddfwriaethol mewnol, cynghori Gweinidogion, dadansoddi gwybodaeth a datblygu polisi, yn fewnol a chyda rhanddeiliaid. Ar gyfer 2024-25, cyfrifwyd y costau suddedig hyn am bum mis hyd at ddiwedd mis Awst, cyn i'r RIA hwn gael ei osod gerbron y Senedd. Mae'r gwaith yn ymwneud â’r broses ddeddfwriaethol o gyhoeddi'r RIA hwn i'r dyddiad dod i rym arfaethedig ddiwedd mis Tachwedd yn cael ei gostio ar wahân fel costau yn y dyfodol yn yr adran berthnasol.

7.48 Yn ogystal, mae'r gwaith deddfwriaethol wedi gofyn am neilltuo un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru ar sail 0.8 FTE, a fyddai'n cyfateb i swyddog polisi Gradd 7 ar £6,190 y mis. Amcangyfrifir bod tua 60% o amser y cyfreithiwr hwnnw yn 2022-23 gan gynyddu i 80% yn y blynyddoedd dilynol wedi'i neilltuo i'r gwaith triniaethau arbennig, sydd wedi cynnwys darparu cyngor cyfreithiol ar amcanion polisi; drafftio deddfwriaeth; ystyried a darparu cliriad cyfreithiol ar gyfer yr holl ddogfennau cyhoeddedig a phrosesau mewnol eraill sy'n gysylltiedig â datblygu deddfwriaeth newydd. Amcangyfrifir mai'r costau cyfreithiwr ar gyfer 2024-25 Ebrill-Awst fyddai £24,760.

**Tabl 6 – Costau staff Llywodraeth Cymru – costau suddedig**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | £16,591 | £71,380 | £29,740 Ebrill-Awst (cynhwysol) |
| Swyddog Gweithredol Uwch | £39,581 | £57,059 | £23,775 Ebrill-Awst (cynhwysol) |
| Cyfreithiwr Gradd 7 | £41,631 | £74,280 | £24,760 Ebrill-Awst (cynhwysol) |
| Secondai arbenigol | £80,000 | £84,000 | £21,000* |
| | | | |
| **cyfanswm** | **£177,803** | **£286,719** | **£99,275** |
| | * Mae hyn yn cwmpasu Ebrill-Mehefin gan gynnwys y misoedd hynny, sef diwedd y secondiad. | | |

7.49 Mae llawer o bobl eraill o fewn Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at ddarparu'r deunyddiau ar gyfer y cynllun trwyddedu hwn. Mae'r rhain wedi cynnwys Gwasanaethau Cyfieithu; Tîm Dylunio; y Tîm Gwe Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac eraill sydd wedi gweithio ar y dogfennau ymgynghori, dogfennau canllaw a deunyddiau eraill a oedd eu hangen i ledaenu gwybodaeth am y cynllun. Byddai hyn wedi'i wneud fel rhan o'u gwaith arferol, felly byddai'n anodd iawn dosrannu

amser/cost i brosesu pob dogfen. Yn ogystal, yn 2022-23 talwyd ychydig dros £3,400 i sicrhau cyfieithydd allanol i gyfieithu'r fersiwn ddrafft o'r RIA hwn a dogfennau eraill yn ymwneud â'r ymgynghoriad cyntaf.

*Cofrestr ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy sy'n darparu triniaethau arbennig*

7.50 Yn ogystal â chyflwyno'r cynllun trwyddedu cenedlaethol, mae Opsiwn 2 bellach yn cynnwys yr Opsiwn 3B blaenorol o RIA 2017, a oedd yn cynnig datblygu cofrestr genedlaethol ar-lein o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy sy'n darparu'r pedair triniaeth arbennig a enwir yng Nghymru. Ers cyhoeddi RIA 2017, mae awdurdodau lleol Cymru wedi cytuno y byddai'n well creu un gofrestr ganolog, ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ei data a'r gwaith o'i chynnal a chadw. Bydd y gofrestr ganolog yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol arweiniol a bydd ar gael i bob awdurdod lleol at ddibenion gorfodi a bydd ar gael i'w gweld gan aelodau'r cyhoedd.

7.51 Roedd yr awdurdod lleol arweiniol sy'n gweithredu ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi tendro am y gwasanaethau TG angenrheidiol i adeiladu a phrofi'r gofrestr yn unol â gofynion y Ddeddf. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ariannu'r gwaith TG angenrheidiol i adeiladu'r gronfa ddata a'r porth ar-lein gofynnol. Cytunwyd ar hyn fel grant o £89,950 i ariannu'r gost ddatblygu gychwynnol. Rhannwyd y cyllid hwn yn gyfartal rhwng 2022-23 a 2023-24. Roedd y swm cyffredinol hwn yn cynnwys swm yn ôl disgresiwn o £2,000 i dalu am brofion ychwanegol os oedd angen ond, yn y pen draw, nid oedd angen y swm hwn.

**Tabl 7 – Cost grant ar gyfer gwaith TG - Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| 2022-23 | £43,975 |
| 2023-24 | £43,974 |
| **cyfanswm** | **£87,949** |
| Swm yn ôl disgresiwn ar gyfer profion ychwanegol (heb ei hawlio) | Dim mwy na £2,000 |

7.52 Cymerodd gryn amser i staff benderfynu ar y cais am gyllid, cael y cliriadau angenrheidiol ar gyfer y grant gan dimau llywodraethu mewnol a chael cydsyniad i'r cyllid gan Weinidogion Cymru. Digwyddodd hyn drwy gydol 2022 ac mae'n anodd ei feintoli. Roedd angen amser staff i reoli'r cyllid ar gyfer datblygu'r gofrestr yn ystod 2023-24, a bydd hyn wedi cael ei amsugno o fewn y costau staff a roddwyd yn flaenorol. Mae'r elfen hon o'r gwaith wedi'i chwblhau.

*Canllawiau*

7.53 Rhoddodd RIA 2017 gostau manwl ar gyfer datblygu a chyhoeddi tair set o ganllawiau:

- Canllawiau statudol sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol ar y diffiniad o 'berson addas a phriodol' o dan adran 66(11);
- Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth;
- Canllawiau anstatudol ar gyfer ymarferwyr a busnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd a gweithrediad y cynllun.

7.54 Datblygwyd y canllawiau statudol ar gyfer yr ail ymgynghoriad a gynhaliwyd ar yr offerynnau statudol drafft a chawsant eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw.

7.55 Mae'r canllawiau ar gyfer ymarferwyr yn dal i gael eu datblygu ym mis Awst 2024, ond maent yn debygol o gael eu cwblhau cyn i'r RIA hwn gael ei gyhoeddi. Byddant yn cael eu cyhoeddi mewn nifer o fersiynau sy'n benodol i'r pedair triniaeth wahanol, ynghyd ag un ychwanegol ar gyfer ymarferwyr lliwio croen lled-barhaol, gan fod hwn yn fath gwahanol ac ar wahân o datŵio. Bydd yr wybodaeth am y cynllun yn gyson drwy'r holl fersiynau, ond bydd senarios, enghreifftiau a darluniau yn benodol i'r driniaeth dan sylw.

7.56 Mae datblygu'r dogfennau canllaw hyn wedi cynnwys gweithio gydag ymarferwyr a busnesau o'r sector, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill â buddiant. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau (ym mis Awst 2024), a bydd y dogfennau ar gael ar-lein. Yn ogystal, bydd y dolenni'n cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol a busnesau ac ymarferwyr sy'n darparu triniaethau arbennig.

7.57 Mae'r secondai arbenigol a'r Uwch-swyddog Gweithredol parhaol y cyfeiriwyd atynt eisoes wedi cyfrannu'n sylweddol at ddrafftio'r tair dogfen hyn, felly mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau staff hynny a roddir yn Nhabl 6.

*Hyfforddiant*

7.58 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch cynnwys y ddeddfwriaeth a gorfodi'r ddeddfwriaeth drwy gydol blwyddyn galendr 2024, felly mae'r costau a nodwyd wedi'u rhannu rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae'r sesiynau hyfforddi wedi'u darparu gan mwyaf i swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol neu staff perthnasol eraill awdurdodau lleol i'w cefnogi wrth orfodi'r ddeddfwriaeth, ond cynhaliwyd digwyddiadau ymwybyddiaeth hefyd ar gyfer ymarferwyr ac eraill â buddiant ym mhob un o'r pedair triniaeth arbennig. Mae'r sesiynau hyn wedi bod am ddim i'r cyfranogwyr.

7.59 Roedd y costau a nodwyd yn RIA 2017 mewn perthynas â'r hyfforddiant hwn yn seiliedig ar roi'r gwaith o ddarparu'r cyrsiau ar gontractio i gyflenwr hyfforddiant, a'u darparu yn y cnawd mewn gwahanol leoliadau, gyda chopïau papur o ddeunyddiau'r cyrsiau yn

cael eu cynhyrchu. Cyfrifwyd mai cost wreiddiol datblygu deunyddiau a thaflenni'r cyrsiau oedd tua £1,600, a chost rhedeg y pedair sesiwn gyda 35 o bobl ym mhob un oedd tua £3,200, gan roi cyfanswm cost o £4,800. Fodd bynnag, mae'r cyrsiau wedi'u darparu i raddau helaeth ar-lein gan y secondai arbenigol gyda deunyddiau y gellir eu lawrlwytho, ond mae digwyddiadau yn y cnawd hefyd wedi'u cynnal, a reolwyd gan gyrff eraill megis Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Felly, mae'r gost i Lywodraeth Cymru wedi'i hamsugno yng nghost y secondai.

**Costau suddedig - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

7.60 Mae staff perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno deunyddiau a gweithdai hyfforddi, yn ogystal â chyfrannu at ddyluniad y canllawiau anstatudol a dogfennau canllaw perthnasol eraill, gan gynnwys canllawiau atal a rheoli heintiau. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ICC yn uniongyrchol fel corff, ac mae atal a rheoli heintiau yn rhan o gylch gwaith ICC. Felly, ni chodwyd tâl penodol ar Lywodraeth Cymru am y gwaith hwn. Fodd bynnag, byddai'n briodol rhoi cost amser tybiedig ar gyfer y gwaith hwn fel cost fewnol i ICC am ddefnyddio ei staff.

7.61 Mae ICC wedi darparu mewnbwn proffesiynol ar elfennau atal a rheoli heintiau gweminarau, canllawiau a deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Ers diwedd mis Mawrth 2023, mae tua 22.5 awr yr wythnos am 20 wythnos o amser nyrs arwain arbenigol wedi'i ymrwymo i'r gwaith hwn. Y gyfradd fesul awr yw £30.60, felly byddai hyn yn rhoi cyfanswm o £13,770 am yr amser hwn. Mae hyn wedi'i ddosrannu fel wythnos yn 2023-2024 ac 19 wythnos yn 2024-2025.

7.62 Yn ogystal, mae ICC wedi darparu cymorth gweinyddol wrth drefnu a rheoli'r gweminarau a darparu cymorth gweinyddol arall a gymerodd tua 37.5 awr o amser gweinyddwr Band 4 ar £13.05 yr awr rhwng mis Mawrth 2023 a diwedd mis Awst 2024. Mae hyn wedi'i ddosrannu fel chwarter yn 2023-24, tri chwarter yn 2024-25. Darparwyd mewnbwn ychwanegol gan ddau swyddog hyfforddi i ddatblygu a chyflwyno'r gweminarau a thri modiwl e-ddysgu rhwng mis Hydref 2023 a 22 Gorffennaf 2024 fel a ganlyn, gan roi cyfanswm o £30,197:

- Gweinyddu (tua 640 awr): £20,941
- Cyfarfodydd (tua 12 awr): £393
- Diwrnodau Astudio: £1,942
- Golygu Fideo: £1,036
- Modiwlau e-ddysgu: £5,885

7.63 Gan nad yw ICC wedi nodi sut y dosrannwyd y symiau hyn rhwng y ddwy flynedd ariannol, rydym wedi eu rhannu i chwarter yn 2023-23 a thri chwarter yn 2024-25.

**Tabl 8 – Costau staff suddedig ICC am fewnbwn i elfennau'r cynllun**

| | **2023-24** | **2024-25 (hyd at ddiwedd mis Awst)** |
|---|---|---|
| Nyrs arwain arbenigol | £689 | £13,081 |
| Gweinyddwr Band 4 | £122 | £367 |
| Datblygu a darparu hyfforddiant | £7,549 | £22,648 |
| **cyfanswm** | **£8,360** | **£36,096** |

## Costau suddedig - Awdurdodau Lleol

7.64 Mae awdurdodau lleol wedi gwneud cryn dipyn o waith i lywio gwaith llunio polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun hwn. Ar gyfer y fersiwn ddrafft o'r RIA hwn, roedd awdurdodau lleol wedi rhoi'r cyfraddau fesul awr canlynol fel rhai sy'n nodweddiadol o'u staff a gyflogir yn y maes gwaith hwn, felly mae'r costau yn yr adran hon wedi'u seilio ar y ffigurau hynny:

:

- Rheolwr trwyddedu £61.23
- Swyddog iechyd yr amgylchedd (EHO) £56.67
- Swyddog trwyddedu £39.96

*Mewnbwn datblygu polisi*

7.65 Sefydlodd y secondai arbenigol grŵp gorchwyl a gorffen gyda nifer gyfyngedig o gynrychiolwyr awdurdodau lleol (10 i gyd), i drafod materion datblygu polisi mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu gorfodol, ac i gael eu mewnbwn proffesiynol. Sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen hwn ym mis Mai 2022, a chyfarfu bum gwaith hyd at fis Gorffennaf 2022, gyda phob cyfarfod yn para tua dwy awr. Byddai cost staff/amser wedi bod i'r awdurdodau lleol hynny fynychu'r cyfarfodydd a gwneud unrhyw waith dilynol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai'n bresennol yn perthyn i'r band uwch-swyddogion, felly gellir dweud eu bod wedi tua £6,123 yn fras.

7.66 Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig gan awdurdodau lleol fel is-grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cymru (cymuned ymarfer arbenigwyr awdurdodau lleol), ac roedd yr aelodaeth ar agor i bob un o'r 22 awdurdod lleol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2024 ac mae wedi parhau bob mis hyd at ddiwedd mis Mehefin ac ar sail ad hoc hyd at ddiwedd mis Awst. Mae'r aelodau wedi dod o amrywiaeth o fandiau swyddogion, gan fod gan rai awdurdodau lleol fwy nag un person yn bresennol. O ran staff Llywodraeth Cymru, cyfrifwyd y costau suddedig ar gyfer y chwe chyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd hyd at ddiwedd mis Awst 2024, gyda'r rhan fwyaf oddeutu dwy awr o hyd, felly mae'r amser hwn wedi'i ddefnyddio. Gan y gallai gwahanol bobl fod wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod, at ddibenion y cyfrifiadau hyn, rhagdybiwyd bod pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyflwyno un uwch-swyddog, ac mae'r costau'n seiliedig ar 30

o fynychwyr o awdurdodau lleol, gyda'r wyth arall wedi'u costio ar lefel Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd.

*Hyfforddiant*

7.67 Roedd staff awdurdodau lleol i fynychu hyfforddiant ar-lein ar y ddeddfwriaeth newydd a'i gorfodi ac un digwyddiad yn y cnawd. Roedd y rhain yn sesiynau ar y ddeddfwriaeth newydd a'i gorfodi a gynhaliwyd gan drydydd partïon (Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd) ond a gyflwynwyd gan y secondai arbenigol yn bennaf. Cynigiwyd pedwar o'r sesiynau hyn rhwng mis Ionawr a mis Mai 2024. Byddai cost amser wedi bod i staff awdurdodau lleol fynychu'r sesiynau a ddarparwyd, ond nid oes rhestrau manwl o fynychwyr ar gael i nodi pa staff a fynychodd. Roedd 97 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad yn y cnawd a barodd tua chwe awr a 45 munud a, gan ei fod wedi'i ddarparu gan drydydd parti, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol dalu £99 yr un i fynychu. Pe bai o leiaf un person o bob un o'r tri band swyddogion yn bresennol ar gyfer pob awdurdod lleol, er enghraifft, gallai fod wedi costio £1,065.55 fesul awdurdod lleol mewn costau amser/staff a £297 mewn costau mynychwyr; ac i bob un o'r 22 awdurdod lleol, £23,442 mewn costau amser/staff a £6,534 mewn ffioedd mynychwyr. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw dreuliau achlysurol eraill, megis costau teithio. Fodd bynnag, roedd hon yn gynhadledd ddydd yn y cnawd, felly y drutaf i'w mynychu, tra bod y sesiynau eraill wedi'u cyflwyno'n gyfan gwbl ar-lein ac wedi para tua dwy awr (18 Ionawr), tair awr (22 Mai) a phum awr (28 Chwefror), yn dibynnu ar y pwnc. O ran costau staff/amser, felly, byddai wedi costio £1,579 i'r un staff awdurdod lleol fynychu'r holl ddigwyddiadau ar-lein mewn costau amser/staff ar gyfer un awdurdod lleol, £34,729 ar gyfer pob un o'r 22, gan ddisgyn mewn blynyddoedd ariannol gwahanol.

7.68 Yn ogystal, darparwyd 17 gweithdy byr ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol sy'n aelodau'r pwyllgorau trwyddedu. Roedd presenoldeb yn y gweithdai hyn yn rhan o'u dyletswyddau pwyllgor, felly ni chawsant eu costio.

**Tabl 9 – Costau suddedig, cyfarfodydd a hyfforddiant awdurdodau lleol**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 (hyd at ddiwedd mis Awst) |
|---|---|---|---|
| Grŵp gorchwyl a gorffen 5 cyfarfod x 10 swyddog @ £61.23 yr awr x 2 awr yr un | £6,123 | | |
| Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig 6 chyfarfod @ 2 awr yr un<br>22 rheolwyr trwyddedu @ £61.23 yr awr<br>8 swyddog iechyd yr amgylchedd @ £56.67 yr awr | | £5,388<br><br><br>£1,813 | £10,776<br><br><br>£3,627 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynhadledd CIEH x 3 swyddog x 22 | | | £29,976 |
| Hyfforddiant ar-lein 3 sesiwn, 10 awr x 3 swyddog x 22 | | £24,310 | £10,419 |
| **cyfanswm** | **£6,123** | **£31,511** | **£54,798** |

*Costau mewnol systemau rheoli*

7.69 Yn dilyn cyhoeddi'r RIA drafft fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf, nododd awdurdodau lleol wrth Lywodraeth Cymru eu bod yn debygol o wynebu costau mewnol i sefydlu eu systemau TG cyn i'r cynllun ddod i rym, ac nad oedd y costau hyn wedi'u cynnwys o'r blaen. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth gan awdurdodau lleol i'w chynnwys yn y fersiwn derfynol hon o'r RIA, ac maent bellach yn cael eu hystyried yn gostau suddedig. Rhoddwyd y costau mewnol ar gyfer un awdurdod lleol sy'n ychwanegol at y rhai a nodwyd uchod fel a ganlyn, gan ddefnyddio'r cyfraddau fesul awr ar gyfer staff awdurdodau lleol a roddir yn yr RIA drafft cyhoeddedig:

**Tabl 10 - costau mewnol cyn cyflwyno ychwanegol a nodwyd gan awdurdodau lleol**

| | |
|---|---|
| **Hyfforddi rheolwr trwyddedu** ar brosesau'r cynllun: 6 awr @£61.23 yr awr | £367.38 |
| **Hyfforddi staff trwyddedu sy'n ychwanegol at** yr hyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru | |
| Rheolwr iechyd y cyhoedd 1 awr @£61.23 yr awr | £61.23 |
| Rheolwr trwyddedu 2 awr @£61.23 yr awr | £122.46 |
| Dau swyddog trwyddedu yn mynychu 2 awr yr un @£39.96 yr awr | £159.84 |
| **Briffio pwyllgor trwyddedu sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru** | |
| Rheolwr iechyd y cyhoedd 3 awr @£61.23 yr awr | £183.69 |
| Rheolwr trwyddedu 3 awr @£61.23 yr awr | £183.69 |
| **Adolygu a datblygu systemau gweinyddol mewnol:** | |
| Rheolwr trwyddedu 8 awr @ £61.23 yr awr | £489.84 |
| Rheolwr iechyd y cyhoedd 4 awr @ £61.23 yr awr | £244.92 |
| **Hyfforddi staff iechyd yr amgylchedd ar fynychu'r pwyllgor trwyddedu:** | |
| Rheolwr iechyd y cyhoedd 2 awr @ £61.23 yr awr | £122.46 |
| Rheolwr trwyddedu 2 awr @ £61.23 yr awr | £122.46 |
| Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd – 4 x 2 awr @£56.67 yr awr | £453.36 |
| **Adeiladu systemau TG newydd a hyfforddi staff perthnasol a diweddaru templedi:** | |
| Rheolwr trwyddedu 3 awr @ £61.23 yr awr | £183.69 |
| Rheolwr iechyd y cyhoedd 3 awr @ £61.23 yr awr | £183.69 |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd 3 awr @ £56.67 yr awr | £170.01 |
| Cymorth TG (wedi'i gostio ar lefel swyddog trwyddedu) 12 awr @£39.96 yr awr | £479.52 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer 1 awdurdod lleol** | £3,528.24 |
| **x 22 awdurdod lleol** | **£77,621.28** |

7.70 Tybiwyd bod y paratoadau a'r hyfforddiant hyn o fewn awdurdodau lleol wedi digwydd o ddiwedd blwyddyn galendr 2023 drwy 2024, felly byddai'r costau a nodwyd uchod wedi'u rhannu rhwng dwy flynedd ariannol.

*Costau suddedig awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Gofrestr Genedlaethol*

7.71 Cymerodd yr awdurdod lleol arweiniol gryn amser staff wrth gynnal y broses dendro ar gyfer y contract i sicrhau cwmni TG i adeiladu'r gofrestr yn unol â'r manylebau a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol, dewis y cwmni llwyddiannus a chysylltu â'r cwmni hwnnw, cyflwyno'r cais am gyllid a chael y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Digwyddodd hyn dros nifer o flynyddoedd gan i'r broses gael ei tharfu gan y pandemig ac ailddechrau drwy gydol 2022.

7.72 Yn ogystal, roedd yr awdurdod arweiniol angen amser staff i reoli'r contract ar gyfer y gwaith TG gyda'r cwmni a ddewiswyd drwy dendro ac i reoli'r prosiect i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf ac yn unol â therfynau amser. Gofynnwyd i'r awdurdod arweiniol feintoli cost amser a staff y gwaith hwn iddo, ac fe wnaethant ddarparu'r canlynol ar gyfer camau gweithredu wedi'u cwblhau.

**Tabl 11 – costau'r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer caffael a rheoli contract TG ar gyfer y gofrestr genedlaethol**

| Gweithgarwch | Amser (oriau) | Cost |
|---|---|---|
| **Caffael 2019 (Gwerthwch i Gymru):**<br><br>• Sefydlu ardal y prosiect (1 awr)<br>• Paratoi manyleb (3 awr)<br>• Gwerthuso (3 awr)<br>• Amser cyfarfod (4 awr)<br><br>Ymholiadau e-bost a gweinyddiaeth gyffredinol (2 awr) | 13 awr | £377 |
| **Caffael 2022:**<br>• Sefydlu ardal prosiect newydd (1 awr)<br>• Diwygio'r fanyleb (1 awr)<br>• Cyfuno ymholiadau a godwyd gan Dîm y Prosiect mewn log ar gyfer tystiolaeth/eglurhad (2 awr)<br>• Dogfennaeth dyfarnu uniongyrchol fframwaith cyflenwr (4 awr x 2)<br>• Amser cyfarfod ar gyfer cynorthwyo gyda chydlynu camau gweithredu cysylltiedig eraill, gan gynnwys sefydlu ardal y prosiect a thempledi (4 awr x 2). | 24 awr | £626 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymholiadau e-bost a gweinyddiaeth gyffredinol (2 awr x 2) | | |
| Cymorth ymgyngoreion ar gyfer y cyfnod gweithredu yn seiliedig ar y cymorth cyfredol a ddarparwyd hyd yma – gall hyn gynyddu. **5/9/23** 6.5 awr x 2 | 13 (2 x 6.5) | £286 |
| **CYFANSWM – Tîm y Rhaglen Ddigidol (DPO)** | **50** | **£1289** |
| Caffael gyda'r DPO (cyfarfodydd a gwaith dilynol) Sefydlu, manyleb, adolygu, GDPR, DPIA, ymholiadau gan ALlau. | 40 | £1600 |
| Datblygu gyda (darparwr meddalwedd) Datblygu ymddangosiad a chwmpas y gronfa ddata, ynghyd â meysydd chwilio ac opsiynau chwilio. | 20 | £800 |
| Ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Cydymffurfiaeth. Amodau drafft ar gyfer trwyddedau. Gofynion hyfforddiant. | 20 | £800 |
| Ymgynghori â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Gweithredu'r cynllun cofrestru. Ateb ymholiadau gan swyddogion ALl | 20 | £800 |
| **CYFANSWM – 2 x Swyddog Iechyd yr Amgylchedd** | **100** | **£4000** |
| Caffael 2019 –<br>Mynychu cyfarfodydd, mewnol ac allanol<br>Manyleb ac ati.<br>Cysylltu â'r cyflenwr, Llywodraeth Cymru, cydweithwyr mewnol amrywiol | 25 | £1375 |
| Caffael 2022<br>Mynychu cyfarfodydd, mewnol ac allanol<br>Manyleb ac ati.<br>Cysylltu â'r cyflenwr, Llywodraeth Cymru, cydweithwyr mewnol amrywiol | 15 | £825 |
| **CYFANSWM – Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd** | | **£2,200** |
| **CYFANSWM TERFYNOL** | | **£7,489** |

## Tabl 12 - Crynodeb o gostau suddedig cynrychioliadol hyd at ddiwedd mis Awst 2024

| | 2019 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Costau staff (hyd at ddiwedd mis Awst 2024) – tabl 6 | Heb eu costio | £191,680 | £286,719 | £99,275 |
| Cyfieithydd allanol | | £3,400 | | |
| Grant ar gyfer gwaith TG – Tabl 7 | | | £43,975 | £43,974 |
| | | | | |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru** - Tabl 8 | | | £8,360 | £36,096 |
| | | | | |
| **Awdurdodau Lleol** – Tabl 9 | | | | |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen - presenoldeb | | £6,123 | | |
| Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig - presenoldeb | | | £7,201 | £14,403 |
| Cynhadledd CIEH x 3 swyddog x 22 | | | | £29,976 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant ar-lein 3 sesiwn, 10 awr x 3 swyddog x 22 | | | £24,310 | £10,419 |
| Gwaith paratoi mewnol – Tabl 10 | | | £38,811 | £38,811 |
| Cost i'r awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r gofrestr – Tabl 11 | £1,752 | £5,451 | £286 | |
| **cyfanswm** | **£1,752** | **£206,654** | **£409,662** | **£272,954** |

### Costau cyflenwi Opsiwn 2 yn y dyfodol

7.73 Gall costau cyflawni'r cynllun trwyddedu gorfodol yn y dyfodol gael eu mesur o'r dyddiad dod i rym, sef 29 Tachwedd 2024 i fod. Dyma'r pwynt pan fydd awdurdodau lleol yn gallu derbyn ceisiadau, a bydd yn ofynnol i bob ymarferydd a gweithredwr mangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd wneud cais. Bydd y cynllun hefyd ar agor o'r un dyddiad i ymgeiswyr newydd. Fodd bynnag, darperir rhai costau ar gyfer tri mis y broses ddeddfwriaethol ffurfiol sy'n dechrau ym mis Medi 2024.

### Llywodraeth Cymru

7.74 Dechreuwyd y broses ddeddfwriaethol ffurfiol i wneud y rheoliadau terfynol pan osodwyd y rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Y dyddiad dod i rym arfaethedig ar gyfer y rheoliadau yw 29 Tachwedd 2024. Felly, mae cyfnod o dri mis llawn pan fydd staff Llywodraeth Cymru y cyfeirir atynt yn yr adran costau suddedig yn gweithio ar weithredu a'r broses ddeddfwriaethol.

7.75 Y bwriad yw ailgyflogi'r secondai arbenigol o ddiwedd mis Medi ar gontract, heb fod yn fwy na chyfanswm o 31 diwrnod, at ddiben cefnogi awdurdodau lleol i gyflwyno'r cynllun trwyddedu. Cafodd ymestyn y secondiad ei gostio'n wreiddiol yn oddeutu £7,000 am fis, a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Gorffennaf 2024.

7.76 Mae costau staff Llywodraeth Cymru am y tri mis o weithredu a'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol fel a ganlyn:

**Tabl 13 – Costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu a'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol**

| | Medi-Tachwedd 2024-25 |
|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol - Medi-Tachwedd | £17,844 |
| Swyddog Gweithredol Uwch – Medi-Tachwedd | £14,265 |
| Cyfreithiwr Gradd 7 | £14,855 |
| Cynghorwr arbenigol | £7,000 |
| | |
| **cyfanswm** | **£53,964** |

7.77 Unwaith y cyrhaeddir y dyddiad dod i rym, y bwriad yw y bydd y gwaith o reoli'r cynllun trwyddedu gorfodol yn dod yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig fel rheoleiddwyr a gorfodwyr y cynllun. Bydd unrhyw waith sy'n ofynnol i gefnogi awdurdodau lleol, ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd neu ymarferwyr, neu ohebiaeth Weinidogol mewn perthynas â'r cynllun yn cael ei amsugno i fusnes safonol y gangen Polisïau Diogelu Iechyd Rhaglenni Blaenoriaeth. Bydd staff yn monitro'r niferoedd sy'n ymuno â'r cynllun a chydymffurfiaeth gyffredinol drwy archwilio ystadegau a ddarperir gan awdurdodau lleol o'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Gan y bydd hyn wedi dod yn rhan o fusnes Is-adrannol, mae'n anodd meintoli faint o amser fydd ei angen ar gyfer unrhyw waith parhaus mewn perthynas â'r cynllun hwn.

*Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Trwyddedu*

7.78 Nododd RIA 2017 gynlluniau a chostau ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth helaeth, i ganolbwyntio ar hysbysu ymarferwyr a busnesau, yn ogystal â'r cyhoedd, am y cynllun trwyddedu pan fydd yn cychwyn. Gan fod y ddeddfwriaeth yn cynnwys troseddau newydd mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â'r cynllun, rhagwelwyd y byddai angen pecyn cyfathrebu helaeth, i'w reoli i raddau helaeth mewn fformatau electronig, er yr ystyriwyd rhai deunyddiau print megis posteri.

7.79 Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi newid i raddau sut y mae'n cyfathrebu gan ddefnyddio cyfryngau torfol, yn anad dim oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Er mwyn cyfathrebu ag ymarferwyr a busnesau sy'n darparu triniaethau arbennig, byddai Llywodraeth Cymru bellach yn gwneud hyn yn bennaf drwy awdurdodau lleol. Mae hyn oherwydd bod cyfyngiadau GDPR y DU wedi'u cyflwyno ers i RIA 2017 gael ei ddatblygu, felly ni all Llywodraeth Cymru ofyn am restrau ymarferwyr awdurdodau lleol er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r gynulleidfa darged fel y gallai fod wedi digwydd yn y gorffennol.

7.80 Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad at grwpiau rhanddeiliaid ar gyfer awdurdodau lleol a'r diwydiant triniaethau arbennig, ac mae wedi bod yn defnyddio'r grwpiau hyn i ledaenu gwybodaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny. Gan y bydd hyn yn cael ei wneud gan rai o'r staff a gostiwyd yn Nhabl 13 fel rhan o'u gwaith parhaus, nid yw hyn wedi'i gostio ar wahân.

7.81 Gofynnwyd i Is-adran Gyfathrebu Llywodraeth Cymru baratoi cynllun cyfathrebu ar gyfer lledaenu negeseuon i ymarferwyr a phobl sy'n gyfrifol am fangreoedd/cerbydau yn y lle cyntaf, ond hefyd i aelodau'r cyhoedd. Gofynnwyd iddynt ddatblygu'r cynllun hwn ar sail defnyddio sianeli cyhoeddus presennol na fyddai'n cyflwyno cost i'r is-adran polisi. Mae pecyn o ddeunyddiau ar-lein i'w ddefnyddio gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru at ei defnydd ei

hun ac i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r rhai a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth pan ddaw i rym. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu datblygu'n bennaf gan yr Uwch-swyddog Gweithredol a'r secondai arbenigol a gostiwyd uchod.

7.82 Byddai straeon newyddion yn cael eu darparu i gyfnodolion diwydiant a rhwydweithiau rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhanddeiliaid dethol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y diwydiant. Efallai y bydd angen gwaith cyfathrebu ehangach ar ôl y dyddiad dod i rym a fyddai'n canolbwyntio ar hysbysu'r cyhoedd am y problemau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig a phwysigrwydd sicrhau bod yr ymarferwyr a ddefnyddir ar gyfer triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datŵio wedi'u trwyddedu a bod y mangreoedd/cerbydau y maent yn gweithredu ohonynt wedi'u cymeradwyo.

7.83 Bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd hefyd i elfen cofrestr gyhoeddus ar-lein y cynllun gorfodol ar ôl i'r trwyddedau a'r cymeradwyaethau cyntaf gael eu cyhoeddi, i roi gwybod i'r cyhoedd am yr adnodd hwn y gallant droi ato. Gall hyn gynnwys cysylltiadau cyhoeddus, a byddwn yn defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol penodol i'r diwydiant. Yn flaenorol roeddem wedi nodi amcangyfrif o hyd at £10,000 ar gyfer y gwaith hwn, fel cost untro tuag at ddiwedd 2023, ond nid yw'r swm hwn o gyllideb ar gael mwyach. Mae’r cynllun cyfathrebu yn ystyried yr amser mwyaf priodol i roi cyhoeddusrwydd i'r gofrestr ar-lein, gan y bydd yn cymryd ychydig fisoedd i fanylion y trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo cyntaf ymddangos ar y gofrestr. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei wneud tua naw mis ar ôl y dyddiad dod i rym.

7.84 Mae cyfanswm o £1,000 yn cael ei gadw wrth gefn ym mlwyddyn ariannol 2024-25 ar gyfer unrhyw wariant achlysurol mewn perthynas â chyhoeddusrwydd yn y cyfnod cyn i'r cynllun trwyddedu gorfodol ddod i rym.

7.85 Pan gyhoeddwyd yr RIA ar gyfer y Ddeddf yn 2017, roedd dosbarthu yn dal i ddibynnu i raddau helaeth ar argraffu a phostio copïau caled o ddogfennau. Byddai dosbarthu'r dogfennau canllaw bellach yn golygu anfon copi electronig drwy e-bost lle bynnag y bo modd at unrhyw un sydd â buddiant yn y triniaethau arbennig hyn yng Nghymru, drwy awdurdodau lleol, neu drwy ddosbarthu'r ddolen we ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn casglu rhestrau postio gan awdurdodau lleol i'w hailddefnyddio, fel y byddai wedi'i wneud yn y gorffennol, oherwydd cyfyngiadau GDPR y DU ar ailddefnyddio manylion cyswllt. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar awdurdodau lleol i raddau helaeth i ddosbarthu'r wybodaeth i'r ymarferwyr a'r bobl sy'n gyfrifol am fangreoedd/cerbydau sydd wedi cofrestru gyda nhw.

7.86 Bydd yr holl ddogfennau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Felly, mae'n annhebygol y bydd angen i gopïau print o'r dogfennau canllaw gael eu cynhyrchu neu eu postio mewn swmp fel yn y gorffennol. Dim ond ar gais y bydd copïau caled ar fael a byddant yn cael eu hargraffu a'u postio fesul archeb drwy brosesau argraffu a phostio safonol Llywodraeth Cymru. Rhagwelir mai ychydig iawn o gopïau caled y gofynnir amdanynt, os o gwbl, a byddai'r gost yn cael ei hamsugno mewn costau rhedeg safonol.

7.87 Yn RIA 2017, ystyriwyd y byddai tair set o ganllawiau, ac y byddent yn cael eu diweddaru bob tair blynedd. Costiwyd hyn fel tua phythefnos o amser swyddog gweithredol uwch FTE, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £2,146, gyda chostau dylunio a chyfieithu yn dod i hanner y costau gwreiddiol, gan ddod i gyfanswm o £4,999. Felly, cyfrifwyd y byddai pob adolygiad yn costio cyfanswm o oddeutu £7,145, a delir bob tair blynedd, a chafodd hyn ei gynnwys yn y tablau costau.

7.88 Ar ôl adolygu'r RIA, rydym bellach o'r farn na fydd y canllawiau'n cael eu hadolygu oni bai y daw'n amlwg bod angen gwneud hynny, er enghraifft, pe bai'r Ddeddf neu'r rheoliadau'n cael eu diwygio, neu os cawsom ein cynghori gan ddefnyddwyr y canllawiau bod gwybodaeth yn anghywir neu'n anghyfredol. Byddai cost staff/amser yn gysylltiedig â diweddaru'r canllawiau. Ni fydd modd rhagweld ar hyn o bryd a fydd angen adolygu'r canllawiau na phryd, felly nid yw'r gweithgarwch hwn wedi'i gostio ac mae wedi'i dynnu o'r tablau.

7.89 Byddai diwygio'r canllawiau statudol yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ac ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw welliannau a wnaed, felly byddai angen ystyried hyn mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch yn y dyfodol yn hyn o beth.

7.90 Er y rhagwelir y byddai'r gweithgarwch cyfathrebu yn cael ei gyflawni tua diwedd 2024, rhoddir ystyriaeth i'r angen i ailadrodd gwaith cyfathrebu yn ddiweddarach, ar ôl naw mis o bosibl. Erbyn hynny, bydd ymarferwyr a mangreoedd a gofrestrwyd yn flaenorol wedi trosglwyddo i'r cynllun trwyddedu. Bydd ailadrodd negeseuon cyfathrebu bryd hynny yn gwella ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd ymhellach. Byddai'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r cynllun, felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

7.91 Mae ICC wedi nodi y bydd y nyrs arweiniol a nodwyd yn flaenorol yn yr adran 'costau suddedig' yn darparu cymorth pellach mewn perthynas ag elfen atal a rheoli heintiau y cynllun rhwng mis Medi a diwedd mis Tachwedd 2024. Mae hyn yn cyfateb i 13 wythnos, sydd, o ddefnyddio'r un gyfradd o 22.5 awr yr wythnos @ £30.60 yr awr, yn rhoi cyfanswm cost o £8,951.

**Awdurdodau lleol**

7.92 Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weinyddu gofynion y cynllun trwyddedu. Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol drwyddedu'r unigolion hynny y maent yn ystyried eu bod yn bodloni'r meini prawf diffiniedig a monitro eu cydymffurfiaeth â'r amodau trwyddedu, yn ogystal â chymeradwyo mangreoedd/cerbydau y gellir cyflawni triniaethau arbennig ynddynt. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol orfodi'r ddeddfwriaeth pan fo angen, gan gynnwys cymryd camau i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cyflawni gan ymarferwyr heb drwydded ac mewn mangreoedd/cerbydau heb eu cymeradwyo. Fel y nodir yn Opsiwn 1, mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau cyfyngedig i reoli busnesau sy'n darparu aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis, ac maent eisoes yn ymgymryd â gweithgarwch gorfodi mewn perthynas â'r busnesau hyn. Fodd bynnag, bydd y cynllun trwyddedu newydd yn cyflwyno gofynion llymach i ddiogelu iechyd y cyhoedd a phwerau gorfodi mwy cadarn i awdurdodau lleol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth. Felly, bydd awdurdodau lleol yn cael eu galluogi i gymryd camau gorfodi effeithiol yn gyflym, felly gall y gweithgareddau hyn mewn perthynas â'r triniaethau hyn gynyddu.

7.93 Bwriad y cynllun trwyddedu gorfodol yw sicrhau bod costau prosesu ceisiadau a diweddaru'r gofrestr gyhoeddus yn unol â hynny yn cael eu talu gan y ffioedd ymgeisio a godir ar gyfer y cynllun. Yn ogystal, oherwydd dyfarniad Hemmings v Westminster Supreme Court, codir ffi ar wahân i ariannu'r gwaith cyffredinol o redeg y cynllun (y cyfeirir ati fel y 'ffi cydymffurfio') ar ymarferwyr sydd wedi'u trwyddedu a phobl sy'n gyfrifol am fangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo. Bydd y ffioedd hyn yn cynnwys ymweliadau a chyngor i ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy, gweithgareddau cydymffurfio mewn perthynas â dyroddi hysbysiadau ac unrhyw waith dilynol a chymryd camau yn erbyn ymarferwyr heb drwydded a mangreoedd heb eu cymeradwyo.

7.94 Ers cyhoeddi'r drafft o'r RIA presennol hwn i ymgynghori arno ym mis Ionawr 2023, mae awdurdodau lleol wedi gwneud gwaith sylweddol ar gostio'r gweithgareddau y bydd angen iddynt eu cwblhau i brosesu cais a rheoli'r gwaith o redeg y cynllun. Mae Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru wedi cytuno ar y tariffau ffioedd ar gyfer 2024-28 ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol fel y symiau rhesymol i'w codi i dalu eu costau. Mae'r rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan bob awdurdod lleol. Cytunwyd ar y ffioedd hyn dros dro ar gyfer tair blynedd gyntaf y cynllun i gynnwys yr adnewyddiad cyntaf, ond mae'r symiau hyn yn cael eu hadolygu, a gallant newid cyn pen tair blynedd. Mae Tabl 14 isod yn dangos y tariff ffioedd y cytunwyd arno dros dro.

7.95 Ni chaniateir i awdurdodau lleol wneud elw o gynllun o'r fath. Gan fod hwn yn gynllun adennill costau, gellir defnyddio cyfanswm y gost i'r ymgeisydd/person trwyddedig/mangre/cerbyd fel dirprwy ar gyfer y costau i'r awdurdod lleol. Mae'r costau ar gyfer awdurdodau lleol ac ymgeiswyr yn yr adran hon yn seiliedig ar y ffigurau hyn, felly dylai cyfanswm costau rhedeg y cynllun a ddangosir gael eu talu gan gyfanswm y derbyniadau cyfunol o'r ffioedd ymgeisio a chydymffurfio a ddangosir. Bydd ffioedd eraill yn daladwy gan ddeiliaid trwydded/tystysgrif gymeradwyo am wneud amrywiadau i'w trwydded/cymeradwyaeth a cheisiadau achlysurol megis darparu tystysgrifau newydd. Nid oes modd rhagweld y galw am y mathau hyn o geisiadau gweinyddol yn y dyfodol, felly ni ellir eu costio. Fodd bynnag, bwriedir i'r ffioedd sy'n daladwy gydbwyso'r gost weinyddol.

**Tabl 14 – Ffigurau a ddefnyddiwyd yng nghostau awdurdodau lleol**

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o nifer yr ymarferwyr yng Nghymru 2024 | 4,419 |
| Amcangyfrif o nifer y mangreoedd yng Nghymru 2024 | 2,036 |
| Nifer gyfartalog y cofrestriadau ymarferydd newydd bob blwyddyn | 452 |
| Nifer cyfartalog y cofrestriadau mangre newydd bob blwyddyn | 84 |
| | |
| Cost trwydded ymarferydd orfodol | £159 |
| Cost y ffi cydymffurfio – ymarferydd | £44 |
| Cost tystysgrif mangre/cerbyd orfodol | £244 |
| Cost y ffi cydymffurfio – mangre/cerbyd | £141 |
| | |
| Cost adnewyddu trwydded ymarferydd | £147 |
| Cost y ffi cydymffurfio adeg adnewyddu – ymarferydd | £41 |
| Cost adnewyddu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd | £204 |
| Cost y ffi cydymffurfio adeg adnewyddu – mangreoedd/cerbydau | £141 |

7.96 Mae'r amcangyfrifon o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau a roddir uchod wedi'u darparu gan awdurdodau lleol yn seiliedig ar nifer yr ymarferwyr a mangreoedd cofrestredig sydd ganddynt ar gofnod o dan y cynllun cofrestru presennol ar gyfer 2024. Yn flaenorol, roeddent wedi darparu ffigurau ar gyfer 2022, felly mae nifer gyfartalog y cofrestriadau newydd bob blwyddyn wedi bod yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng ffigurau 2022 (3516 o ymarferwyr, 1868 o fangreoedd) a ffigurau 2024 a roddwyd yn y tabl uchod wedi'u rhannu â 2 i roi 452 o ymarferwyr ac 84 o fangreoedd/cerbydau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol o'r farn na fydd tua 5% o'r niferoedd hyn yn gwneud cais am y cynllun gorfodol am amryw resymau. Ni fyddai angen i rai ymarferwyr wneud cais am drwydded o dan y cynllun newydd gan y byddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eithriadau fel aelodau o broffesiynau a reoleiddir, felly byddant y tu allan i'r cynllun yn llwyr. Bydd eraill na fyddant yn

gwneud cais am drwydded neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd am nad ydynt yn masnachu mwyach, am eu bod yn bwriadu ymddeol neu am y byddant yn rhoi'r gorau i gyflawni triniaethau arbennig os ydynt o'r farn nad yw'n gosteffeithiol parhau i’w cynnig.

*Trwyddedu ymarferwyr*

7.97 O ran trwyddedu ymarferwyr unigol, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried a phrosesu cais, cynnal ymweliad asesu â phob ymarferydd i gynnal cyfweliad gan gynnwys arddangosiad ymarferol o arferion sy'n gysylltiedig â thriniaethau ac, os cytunir i drwydded, cynhyrchu a chyhoeddi trwydded. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded gynnwys ffotograff o ddeiliad y drwydded; mae cost cynhyrchu trwydded ffotograffig wedi'i chynnwys yn y ffi ymgeisio, yn ogystal â chost ymweld â'r ymarferydd fel rhan o'r broses ymgeisio. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol drafod cais gyda'r ymgeisydd cyn yr ymweliad asesu, ond byddai hyn yn cael ei benderfynu fesul achos. Yn unol â hynny, ni chynhwyswyd unrhyw amcan gost ar gyfer trafodaethau o'r fath.

7.98 Bydd rhaid i bob ymarferydd sydd wedi cofrestru gyda'u hawdurdodau lleol ar hyn o bryd wneud cais am drwydded o dan y cynllun newydd gan nad oes hawliau trosglwyddadwy rhwng yr hen gynllun a'r cynllun newydd. Amcangyfrifir bod 4,419 (3516 gynt) o unigolion yn cyflawni triniaethau arbennig yng Nghymru ar hyn o bryd[41]. Pe na bai tua 5% o ymarferwyr cofrestredig presennol yn bwrw ymlaen â’r broses trwyddedu ymarferwyr, byddai hyn yn golygu y gallai 4,198 o ymarferwyr presennol benderfynu gwneud cais, gan ddechrau tua chwarter olaf blwyddyn ariannol 2024-25.

7.99 Nid oes modd amcangyfrif faint yn union o'r niferoedd hyn fydd yn cael eu trwyddedu ar ddiwedd y broses a faint fydd yn cael eu gwrthod. Mae awdurdodau lleol wedi nodi canrannau ar gyfer faint o ymgeiswyr y credant fydd yn cyflwyno sylwadau neu apelau ar bob cam o'r broses sy'n rhan o'r cynllun, a rhoddir y ffigurau hyn yn yr adran berthnasol isod. Fodd bynnag, ni all yr amcangyfrif bras hwn ragweld faint o unigolion fydd yn llwyddiannus yn eu hapelau ac yn mynd ymlaen i gael trwyddedau. Felly, mae'r costau i awdurdodau lleol yn yr adran hon yn seiliedig ar senario lle mae pob un o'r 4,198 o ymarferwyr yn pasio'r broses drwyddedu ac yn gorfod talu'r ffi cydymffurfio, sydd felly'n debygol o fod yn oramcangyfrif. Byddai'r gost hon yn cael ei thalu ar ôl i'r cynllun trwyddedu ddod yn weithredol tua diwedd blwyddyn galendr 2024. Bydd hyn yn parhau i mewn i 2025-26 gan y bydd ymarferwyr sydd wedi cofrestru o dan ddeddfwriaeth bresennol o'r blaen yn ddarostyngedig i gyfnod pontio o naw mis pan mae'n rhaid iddynt wneud eu cais ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol brosesu'r ceisiadau hynny.

[41] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

7.100 Yn ogystal, rhagdybiwyd y bydd 452 o geisiadau ar gyfartaledd gan ymarferwyr newydd bob blwyddyn ar gyfer Cymru gyfan, gan ddechrau o ddiwedd blwyddyn galendr 2024 ymlaen. Am y 452 o gofrestriadau newydd bob blwyddyn, tybir hefyd y byddai nifer debyg o'r garfan wreiddiol o ymarferwyr presennol yn rhoi'r gorau i fasnachu. Felly, o'r garfan wreiddiol o ymarferwyr a gafodd drwyddedau yn 2024-25, byddai 2,842 yn dal i fod mewn busnes ac yn gwneud cais i adnewyddu eu trwyddedau yn 2027-28.

7.101 Gan y byddai pob trwydded ymarferydd yn ddilys am dair blynedd, bydd gofyn i bob ymarferydd adnewyddu ei drwydded bob tair blynedd, o ddyddiad cyhoeddi ei drwydded. Felly, bydd awdurdodau lleol yn gorfod talu costau wrth brosesu ceisiadau adnewyddu, yn ogystal â'r gost barhaus o weithredu'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Gan fod y ffioedd adnewyddu cyntaf wedi'u nodi, defnyddiwyd y rhain i ddangos y costau hyn i awdurdodau lleol ar gyfer y drydedd flwyddyn o weithredu. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi nodi y byddant yn adolygu'r ffioedd ar ôl blwyddyn, felly ffigurau adnewyddu dangosol yn unig yw’r rhain, ac maent yn debygol o newid ar ôl yr amser hwnnw.

*Cymeradwyo fangreoedd a cherbydau*

7.102 Bydd proses ymgeisio a chymeradwyo fangreoedd a cherbydau yn dilyn yr un broses â thrwyddedau ymarferwyr, ond mae'r ffioedd yn wahanol gan fod y gwaith sy'n gysylltiedig ag arolygu mangre/cerbyd i benderfynu ar gais yn fwy cymhleth. Er mwyn cymeradwyo fangreoedd/cerbydau y mae triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni ynddynt, disgwylir y byddai'r awdurdod lleol yn prosesu'r cais ac yn cynnal arolygiad o'r fangre/cerbyd. Mae'r costau hyn yn cael eu talu gan y ffi ymgeisio, fel ar gyfer ymarferwyr. Os yw'r mangreoedd/cerbydau yn bodloni'r amodau gofynnol, byddent yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol a byddai tystysgrif gymeradwyo yn cael ei rhoi i'w harddangos. Fel yn achos ymarferwyr, bydd disgwyl i unrhyw fangre/cerbyd a gymeradwyir dalu ffi cydymffurfio i dalu cost rhedeg y cynllun cyfan.

7.103 Gellir cyfrifo'r gost i'r awdurdod lleol gan ddefnyddio'r ffioedd ymgeisio a'r ffioedd cydymffurfio fesul cymeradwyaeth mangre/cerbyd, gyda'r ffioedd yn talu costau prosesu'r cais, gwneud arolygiad a darparu cymorth parhaus i'r cynllun[42]. Amcangyfrifir bod 2,036 o fangreoedd/cerbydau ar hyn o bryd y mae'r triniaethau arbennig diffiniedig yn cael eu cyflawni ynddynt yng Nghymru ar hyn o bryd[43]. Yn yr un modd â'r ymarferwyr presennol, mae awdurdodau lleol o'r farn na fydd tua 5% o'r mangreoedd/cerbydau cofrestredig presennol yn gwneud cais am gymeradwyaeth mangre/cerbyd o dan y cynllun newydd am amryw resymau. Mae hyn yn golygu y bydd tua 1,934 yn gwneud cais yn 2024-25. Rydym wedi tybio bod yr holl garfan hon yn

[42] Ffigur a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.
[43] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

cael ei chymeradwyo at ddibenion costio, ond mae'n debygol bod hyn yn oramcangyfrif, gan ei bod yn annhebygol y bydd pob mangre/cerbyd yn cael eu cymeradwyo yn y pen draw.

7.104 Fel y nodir ym mharagraff 7.96, rydym yn amcangyfrif y bydd 84 o fangreoedd/cerbydau newydd yn dod i mewn i'r cynllun bob blwyddyn, yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y niferoedd amcangyfrifedig o fangreoedd/cerbydau ar gyfer 2022 a 2024, wedi'u rhannu â 2.

7.105 Gan y byddai cymeradwyaeth mangre/cerbyd hefyd yn ddilys am dair blynedd, byddai'r costau i awdurdodau lleol yn ailadrodd bob tair blynedd gan y bydd yn ofynnol i bob person sy'n gyfrifol am fangre/cerbyd cymeradwy adnewyddu ei gymeradwyaeth. Fodd bynnag, at ddibenion cyfrifo costau, disgwylir i nifer gyffredinol y mangreoedd/cerbydau presennol sydd angen eu hadnewyddu yn y drydedd flwyddyn ostwng 84 bob blwyddyn gan y tybiwyd y bydd nifer debyg o fusnesau yn rhoi'r gorau i fasnachu ag y bydd yn cychwyn bob blwyddyn. Felly, yn y costau hyn, o'r 1,934 o fangreoedd/cerbydau gwreiddiol a wnaeth gais yn 2024-25, tybir y byddai 1,682 yn dal i fod mewn busnes yn 2027-28 i wneud cais am adnewyddiad.

**Tabl 15 - Costau gweinyddu ceisiadau i'r cynllun trwyddedu a chydymffurfiaeth – awdurdodau lleol**

| Ffigurau cyfeirio | **Ni fydd 5% yn gwneud cais** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymarferwyr presennol 2024 - 4,419 | minws 221 | 4,198 | 3,746 | 3,294 | 2,842 |
| Nifer y mangreoedd/cerbydau presennol 2024 – 2,036 | minws 102 | 1,934 | 1,850 | 1,766 | 1,682 |
| Nifer yr ymarferwyr newydd y flwyddyn - 452 | --- | 452 | 452 | 452 | 452 |
| Nifer y cerbydau/mangreoedd newydd y flwyddyn - 84 | --- | 84 | 84 | 84 | 84 |
| Ymarferwyr presennol – cais 4,198 @ £159 yr un | | £667,482 | -- | -- | -- |
| Ymarferwyr presennol – adnewyddu – 2,842 @ £147 yr un | | -- | -- | -- | £417,774 |
| Ceisiadau ymarferwyr newydd – 452 y flwyddyn @ £159 yr un | | £71,868 | £71,868 | £71,868 | £71,868 |
| Mangreoedd/cerbydau presennol – cais 1,934 @ £244 yr un | | £471,896 | -- | -- | -- |
| Mangreoedd/cerbydau presennol – adnewyddu 1,682 @ £204 yr un | | -- | -- | -- | £343,128 |
| Ceisiadau mangre/cerbyd newydd – 84 y flwyddyn @ £244 yr un | | £20,496 | £20,496 | £20,496 | £20,496 |
| **Is-gyfanswm costau yn seiliedig ar ffioedd ymgeisio (a)** | | **£1,231,742** | **£92,364** | **£92,364** | **£853,266** |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffi cydymffurfio ymarferwyr presennol - 4,198 @ £44 yr un | | £184,712 | --- | --- | |
| Ffi cydymffurfio – ymarferwyr presennol yn adnewyddu 2842 @ £41 yr un | | -- | -- | -- | £116,522 |
| Ffi cydymffurfio ymarferwyr newydd – 452 y flwyddyn @ £44 | | £19,888 | £19,888 | £19,888 | £19,888 |
| Ffi cydymffurfio – mangreoedd/cerbydau presennol 1,934 @ £141 | | £272,694 | -- | -- | -- |
| Ffi cydymffurfio – adnewyddu mangreoedd/cerbydau presennol 1,682 @ £141 yr un | | -- | -- | -- | £237,162 |
| Ffi cydymffurfio mangreoedd/cerbydau newydd 84 @ £141 | | £11,844 | £11,844 | £11,844 | £11,844 |
| **(b) Is-gyfanswm costau yn seiliedig ar ffioedd cydymffurfio** | | **£489,138** | **£31,732** | **£31,732** | **£385,416** |
| | | | | | |
| **(c) cyfanswm costau** | | **£1,720,880** | **£124,096** | **£124,096** | **£1,238,682** |
| | | | | | |
| **(d) Cyfanswm derbyniadau ffioedd (= c)** | | **-£1,720,880** | **-£124,096** | **-£124,096** | **-£1,238,682** |
| | | | | | |
| **Costau net awdurdodau lleol (c llai d)** | | **0** | **0** | **0** | **0** |

*Cydymffurfiaeth ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau*

7.106 Byddai awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn ystod cyfnod tair blynedd y drwydded neu'r gymeradwyaeth mangre/cerbyd. Byddai hyn yn golygu gweithio gyda deiliaid trwydded a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau cymeradwy i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel sy'n digwydd o dan y cynllun cofrestru presennol, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn cynnal ymweliadau cydymffurfio ar sail risg. Felly, ni fydd pob ymarferydd, mangre neu gerbyd yn derbyn ail ymweliad yn ystod cyfnod tair blynedd eu trwydded/cymeradwyaeth, ac mae awdurdodau lleol o'r farn bod tua 17% o'r holl ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau (yn ymgeiswyr presennol a newydd) yn debygol o fod angen ail ymweliad ar ryw adeg mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol. Tybir y bydd niferoedd y garfan wreiddiol o ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn, er y bydd newydd-ddyfodiaid yn eu disodli. Gan fod costau ymgymryd â'r gweithgareddau cydymffurfio hyn i awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y costau 'ffi cydymffurfio' cyffredinol yn Nhabl 15, rhoddir y ffigurau yn Nhabl 16 sy'n dangos costau tybiannol ymweliadau cydymffurfio at ddibenion enghreifftiol yn unig er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Mae'r gost o £115 fesul ymweliad yn seiliedig ar y ffigur a nodwyd yn flaenorol gan awdurdodau lleol yn Opsiwn 1.

### Tabl 16 – costau cynnal ymweliadau cydymffurfio i awdurdodau lleol

| Ymweliadau cydymffurfio | | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymarferwyr presennol – ymweliad cydymffurfio – 17% @ £115 yr un | | n=714 £82,110 | n=637 £73,255 | n=560 £64,400 | n=483 £55,545 |
| Ymweliad cydymffurfio ymarferwyr newydd – 17% n=77 @ £115 yr un | | £8,855 | £8,855 | £8,855 | £8,855 |
| Mangreoedd/cerbydau presennol – ymweliad cydymffurfio – 17% @ £115 yr un | | n=329 £37,835 | n=315 £36,225 | n=300 £34,500 | n=286 £32,890 |
| Ymweliad cydymffurfio fangreoedd/cerbydau newydd -17%, n=14 @ £115 yr un | | £1,610 | £1,610 | £1,610 | £1,610 |
| **cyfanswm ymweliadau cydymffurfio** | | **£130,410** | **£119,945** | **£109,365** | **£98,900** |

7.107 Mae'n debygol y bydd y costau cyffredinol i awdurdodau lleol ar gyfer prosesu ceisiadau mangre/cerbyd yn oramcangyfrifon, oherwydd y rhagdybiaeth y bydd pob cais yn cael ei gymeradwyo, sydd wedyn yn dylanwadu ar gyfrifo'r niferoedd a fydd angen ymweliadau cydymffurfio. Mae'n annhebygol y bydd cais pob mangre/cerbyd yn cael ei gymeradwyo ac, yn yr un modd, nid oes modd dweud gydag unrhyw sicrwydd faint o fangreoedd/cerbydau newydd fydd yn cychwyn neu faint o'r rhai presennol fydd yn rhoi'r gorau i fasnachu.

### Proses apelio ar gyfer yr holl ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau

7.108 Pe bai awdurdod lleol yn ystyried y dylid gwrthod cais i roi, adnewyddu neu amrywio trwydded ymarferydd neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, yn gyntaf byddai'n rhaid iddo roi hysbysiad i'r ymgeisydd i'w hysbysu o'r ffaith. Yn achos trwydded ymarferydd, gallai'r ymgeisydd wedyn wneud sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol ynghylch pam y dylid cymeradwyo ei gais ac, phe bai'r pwyllgor o'r farn y dylid gwrthod y cais, gallai'r ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i lys ynadon ac, yn y pen draw, Llys y Goron.

7.109 Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i sylwadau gael eu cyflwyno i'r pwyllgor trwyddedu os gwrthodir cais sy'n ymwneud â thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Byddai gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio'n uniongyrchol i'r llys ynadon ac, os caiff ei wrthod, i Lys y Goron. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyntaf ar egwyddorion polisi, nododd yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld rheoliadau'n cael eu gwneud i fynnu bod proses debyg yn cael ei rhoi ar waith fel ar gyfer y trwyddedau ymarferydd. Ni ellir defnyddio'r pwyllgorau trwyddedu yn yr un ffordd oherwydd telerau'r Ddeddf, ond bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol adolygu a phenderfynu ar sylwadau yn ymwneud â gwrthod ceisiadau i gymeradwyo mangre/cerbyd. Mater i bob awdurdod lleol fydd penderfynu sut y maent yn gwneud hyn ond, ar gyfer y costau hyn, rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd cam 'pwyllgor trwyddedu'

tebyg ar gyfer ceisiadau mangre/cerbyd cyn y camau apelio ffurfiol i'r llys ynadon ac, yn y pen draw, i Lys y Goron, ac rydym wedi cyfeirio atynt fel 'gwrandawiad tebyg' er hwylustod.

7.110 Mae awdurdodau lleol o'r farn y bydd angen penderfynu ar oddeutu 5% o'r holl geisiadau ymarferydd a 5% o'r holl geisiadau mangre/cerbyd drwy'r pwyllgorau trwyddedu neu wrandawiad tebyg, er nad oes modd dweud gydag unrhyw sicrwydd faint fydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r canrannau y maent wedi'u hamcangyfrif yn awgrymu eu bod yn rhagweld y bydd y niferoedd ar bob cam yn fach iawn. Gan ddefnyddio cyfeirnodau ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau a nodir yn y blychau llwyd yn Nhabl 15, gellir cyfrifo niferoedd pob un a allai gyflwyno sylwadau i'r pwyllgorau trwyddedu neu wrandawiadau tebyg fel hyn.

7.111 Mae awdurdodau lleol hefyd wedi amcangyfrif faint y byddai'n ei gostio iddynt mewn costau amser a staff i ymdrin ag un achos ar bob cam apelio. Maent wedi darparu'r amcangyfrifon o £212 ar gyfer cais ymarferydd a £298 ar gyfer cais mangre/cerbyd a gyflwynir i'r pwyllgor trwyddedu neu wrandawiad tebyg. Felly, rydym wedi defnyddio swm hanner ffordd o £250 fesul pwyllgor trwyddedu neu wrandawiad tebyg at ddibenion yr RIA hwn. Yna, pe bai ymgeisydd yn cael ei wrthod gan y pwyllgor trwyddedu/gwrandawiad tebyg a'i fod yn dewis gwneud apêl i'r llys ynadon, byddai'n costio tua £670 mewn costau amser/staff i'r awdurdod lleol ar gyfer pob achos i baratoi'r dogfennau angenrheidiol a mynychu'r llys. Pe bai unrhyw achos yn methu ar y cam hwnnw, a bod yr ymgeisydd yn dewis gwneud apêl i Lys y Goron, byddai'n costio swm tebyg i'r awdurdod lleol eto ar gyfer y cam hwn o'r achos.

7.112 Ni wyddys faint o ymarferwyr neu bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau fyddai'n cyflwyno apelau i'r llysoedd ynadon pe baent yn aflwyddiannus yn y pwyllgorau trwyddedu/gwrandawiadau tebyg. Mae ymholiadau a wnaed i fwrdeistrefi Llundain mewn perthynas â chynllun trwyddedu Llundain ar gyfer triniaethau arbennig yn awgrymu bod llai na 2% angen camau gweithredu gan y bwrdeistrefi ac yn mynd gerbron y llysoedd.

7.113 Rhoddir tabl crynodeb (Tabl 17) o nifer yr ymgeiswyr yr amcangyfrifir eu bod yn cyflwyno sylwadau i'r pwyllgorau trwyddedu/gwrandawiadau tebyg ac yn apelio yn y llysoedd, ynghyd ag amcangyfrif o gostau staff/amser isod. Noder fod y ganran ar gyfer y cam Llys y Goron terfynol yn llai nag un. Gan fod y ffigurau'n cynrychioli ymgeiswyr, rhaid cyfrif y rhain fel un person at ddibenion costio, ond efallai na fyddant yn digwydd mewn gwirionedd. Felly, rhoddir y gwerthoedd cost ar gyfer y rhain mewn cromfachau, ond maent wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.

7.114 Yn yr un modd â'r costau i awdurdodau lleol sy'n cynnal gweithgareddau cydymffurfio, y bwriad yw y bydd costau unrhyw weithgarwch gorfodi yn cael eu talu drwy dderbyniadau cyffredinol y cynllun.

**Tabl 17 – amcangyfrif o nifer y ceisiadau ar y tri cham apelio yn erbyn gwrthod trwydded/tystysgrif gymeradwyo a chostau cysylltiedig awdurdodau lleol**

| Ffigurau cyfeirio | **Ni fydd 5% yn gwneud cais** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymarferwyr presennol 2024 - 4,419 | minws 221 | 4,198 | 3,746 | 3,294 | 2,842 |
| Nifer y mangreoedd/cerbydau presennol 2024 – 2,036 | minws 102 | 1,934 | 1,850 | 1,766 | 1,682 |
| Nifer yr ymarferwyr newydd y flwyddyn - 452 | --- | 452 | 452 | 452 | 452 |
| Nifer y cerbydau/mangreoedd newydd y flwyddyn - 84 | --- | 84 | 84 | 84 | 84 |
| 5% o ymarferwyr yn gwneud sylwadau cam cyntaf i bwyllgorau trwyddedu | presennol | 210 | -- | -- | 142 |
| | newydd | 23 | 23 | 23 | 23 |
| 5% o fangreoedd/cerbydau yn gwneud sylwadau cam cyntaf i awdurdod lleol | presennol | 97 | -- | -- | 84 |
| | newydd | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **cyfanswm** | | **334** | **27** | **27** | **253** |
| | | | | | |
| Cost i awdurdodau lleol fesul achos @£250 yr un | | £83,500 | £6,750 | £6,750 | £63,250 |
| Bydd 2% o'r 5% yn cyflwyno apêl i'r llysoedd ynadon | | 7 | 1 | 1 | 5 |
| | | | | | |
| Cost i awdurdodau lleol fesul achos @ £670 yr un | | £4,690 | £670 | £670 | £3,350 |
| Bydd 2% o'r 2% hynny yn cyflwyno apêl i Lysoedd y Goron | | Llai nag 1 | Llai nag 1 | Llai nag 1 | Llai nag 1 |
| | | | | | |
| Cost i awdurdodau lleol fesul achos @ £670 yr un | | (£670) | (£670) | (£670) | (£670) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm costau i awdurdodau lleol** | | **£88,860** | **£8,090** | **£8,090** | **£67,270** |

7.115 Trafodir y gost i Lysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron o ymdrin ag apelau a chlywed erlyniadau yn adran y Llysoedd sy'n dechrau o baragraff 7.111 ymlaen o'r RIA hwn.

**Costau gorfodi - hysbysiadau gorfodi**

7.116 Os oedd gan awdurdod lleol bryderon (a godwyd, er enghraifft, yn ystod ymweliad cydymffurfio neu drwy gŵyn) bod deiliad trwydded neu berson sy'n rheoli mangre/cerbyd cymeradwy yn gweithredu'n groes i amodau ei drwydded/cymeradwyaeth orfodol, gallai roi hysbysiad atal neu hysbysiad camau unioni (RAN) i ddeiliad y drwydded neu'r person sy'n dal tystysgrif gymeradwyo'r fangre/cerbyd i fynnu eu bod yn cymryd camau penodol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risg i iechyd y cyhoedd.

7.117 Byddai gan awdurdodau lleol y pŵer hefyd i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cyflawni gan bobl heb drwydded neu mewn mangreoedd/cerbydau heb eu cymeradwyo. Byddai angen i awdurdodau lleol nodi unigolion heb drwydded a dyroddi hysbysiad atal, a fyddai'n arwain at wahardd cyflawni triniaeth arbennig. Gan ddefnyddio profiad bwrdeistrefi Llundain, rydym o'r farn y bydd tua 2% o'r holl ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau (presennol a newydd) yn cael RAN neu hysbysiad atal wedi'i ddyroddi iddynt bob blwyddyn, cyfanswm o 133 ar gyfer 2024-25, gan ostwng i 101 yn 2027-28. Mae awdurdodau lleol Cymru wedi dweud ei fod yn costio £142 i ddyroddi hysbysiad gorfodi o unrhyw fath ac, os oes angen achos llys ar ôl hynny (os yw'r person yn apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi neu os nad yw'n cydymffurfio fel bod angen gwrandawiad llys i roi cosb), y gost i'r awdurdod lleol yw £670 fesul ymddangosiad llys fel y nodwyd yn flaenorol. Mae'r nifer gostyngedig yr ymarferwyr presennol a'r mangreoedd/cerbydau flwyddyn ar ôl blwyddyn a roddwyd mewn tablau blaenorol, wedi'i ychwanegu at nifer yr ymgeiswyr newydd bob blwyddyn, yn darparu'r costau blynyddol a gyflwynir yn Nhabl 18. Fel o'r blaen, y bwriad yw y bydd costau cyffredinol mynd ar drywydd camau gorfodi ffurfiol i awdurdodau lleol yn cael eu talu gan ffioedd y cynllun.

**Tabl 18 – nifer a chost dyroddi hysbysiadau gorfodi i awdurdodau lleol**

| | presennol | ni fydd 5% yn gwneud cais | 2024-25 Dechrau | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 Adnewyddu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o nifer yr ymarferwyr yng Nghymru 2024 | 4,419 | minws 221 | 4,198 | 3,746 | 3,294 | 2,842 |
| Amcangyfrif o nifer y mangreoedd/cerbydau yng Nghymru 2024 | 2,036 | minws 102 | 1,934 | 1,850 | 1,766 | 1,682 |
| Amcangyfrif o nifer yr ymarferwyr newydd y flwyddyn | | -- | 452 | 452 | 452 | 452 |
| Amcangyfrif o nifer y mangreoedd/cerbydau newydd y flwyddyn | | -- | 84 | 84 | 84 | 84 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymarferwyr, mangreoedd, cerbydau** | | | **6,668** | **6,132** | **5,596** | **5,060** |
| Bydd 2% yn cael hysbysiadau gorfodi wedi'u cyflwyno (pob math, bob blwyddyn) | | | 133 | 123 | 112 | 101 |
| Cost cyflwyno hysbysiadau gorfodi i ALlau @ £142 yr un | | | £18,886 | £17,466 | £15,904 | £14,342 |
| | | | | | | |
| Bydd 2% o'r 2% hynny yn apelio yn erbyn hysbysiadau | | | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Cost apelau i ALlau @ £670 yr un | | | £2,010 | £1,340 | £1,340 | £1,340 |
| | | | | | | |
| Bydd 2% arall angen achos llys | | | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Cost achos llys i ALlau @ £670 yr un | | | £2,010 | £1,340 | £1,340 | £1,340 |
| | | | | | | |
| Bydd 2% o'r rheini yn apelio yn erbyn yr achos llys | | | Llai nag 1 | Llai nag 1 | Llai nag 1 | Llai nag 1 |
| Cost yr apelau hynny i ALlau @ £670 yr un | | | (£670) | (£670) | (£670) | (£670) |
| **Cyfanswm y gost i ALlau** | | | **£23,576** | **£20,816** | **£19,254** | **£17,692** |

7.118 Bydd gan ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau y gallu i apelio yn erbyn unrhyw hysbysiad gorfodi a gyflwynir iddynt, a byddai unrhyw apêl o'r fath yn cael ei chlywed gan y llys ynadon. Profiad awdurdodau lleol drwy'r cynlluniau trwyddedu mwyaf tebyg yw mai ychydig iawn o unigolion sy'n apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath. Felly, rydym wedi cymhwyso canran o 2% i gyfrifo nifer yr holl ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau sydd angen hysbysiadau gorfodi a allai apelio yn erbyn yr hysbysiadau hynny ar gost o £670 yr un i'r awdurdod lleol fel y nodwyd o'r blaen.

7.119 Yn ogystal, mae awdurdodau lleol wedi bod o'r farn y bydd angen dwyn achos llys yn erbyn tua 2% o gyfanswm yr ymarferwyr a'r bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau ar ôl cyflwyno hysbysiad gorfodi iddynt, i geisio cosb gan y llys ynadon megis dirwy. Os rhoddir cosb, mae modd apelio. Fel y gwelir o'r tabl, mae canran y bobl a allai apelio yn lleihau ar bob cam. Gan fod nifer y bobl a allai apelio yn erbyn unrhyw gosb a osodir gan y llys yn llai nag un y flwyddyn, rhoddir y gost i'r awdurdod lleol yn y cyfanswm cyffredinol, ond fe'i dangosir mewn cromfachau. Ym mhob achos, bydd y costau a nodwyd i awdurdodau lleol yn cael eu talu gan ffioedd y cynllun.

**Atal gweithgarwch didrwydded**

7.120 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf 1984 i wneud cais am orchymyn Rhan 2A i atal person rhag cyflawni gweithgareddau tatŵio neu dyllu'r corff heb gofrestru. Amcangyfrifwyd yn Opsiwn 1 bod dau gais am orchymyn Rhan 2A yn cael eu gwneud mewn cyfnod o dair blynedd mewn perthynas â'r arferion hyn yn yr amrediad cost o £1,600– £6,000.

7.121 Bydd cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru yn rhoi pwerau mwy cynhwysfawr i ymdrin â gweithgarwch gwaharddedig, drwy broses symlach. Mae Tabl 18 yn cynnwys nifer yr ymarferwyr a'r mangreoedd/cerbydau y mae awdurdodau lleol yn ystyried y gallai fod angen cyflwyno hysbysiadau gorfodi iddynt, a chostau prosesu. Nid oes modd rhagweld faint o ymarferwyr y gellid eu nodi fel rhai sy'n gweithredu heb drwydded neu fangreoedd neu gerbydau nad ydynt wedi'u cymeradwyo. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno hysbysiadau atal a/neu hysbysiadau dynodi sy'n gorfodi'r bobl hynny i gael trwydded a byddant yn gallu mynd ar drywydd yr un rhwymedïau cyfreithiol ag ar gyfer ymarferwyr trwyddedig/mangreoedd/cerbydau cymeradwy. Gan nad oes modd rhagweld faint o unigolion y gellid eu nodi, a gan y gallai'r niferoedd a roddir yn Nhabl 18 fod yn oramcangyfrif, mae'n rhesymol ystyried bod unrhyw gamau gorfodi yn erbyn unigolion didrwydded a mangreoedd/cerbydau heb eu cymeradwyo yn cael eu cynrychioli o fewn y tabl hwnnw.

7.122 Wrth i fusnesau a'r cyhoedd ddod yn fwy cyfarwydd â'r ddeddfwriaeth dros amser, rhagdybir y byddai hyn yn codi safonau, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr hysbysiadau atal ac RANs a ddyroddir flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at 2027-28, gyda'r nifer a ddyroddir yn gwastatáu ar ôl hynny.

7.123 Gellid talu rhai o'r costau hyn pe bai llys ynadon yn dyfarnu cyfraniad tuag at gostau'r erlyniad i'r awdurdod lleol pe bai'r achos yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gallai'r llys hefyd orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu unigolyn am golli incwm. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys gan eu bod yn anodd eu hamcangyfrif oherwydd eu hamrywioldeb.

**Cofrestr Gyhoeddus – costau awdurdodau lleol**

7.124 Rhoddodd RIA 2017 opsiwn i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw cofrestr gyhoeddus gael ei chyflawni drwy greu un gofrestr ganolog y mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu ati, a chafodd yr opsiwn hwn ei gynnwys yn y Ddeddf. Nododd awdurdodau lleol eu bod yn dymuno arfer yr opsiwn hwn, ac mae'r gofrestr wedi'i hadeiladu ac mae'n barod i dderbyn data trwyddedu. Bydd y rhan fwyaf o'r data'n cael ei lanlwytho yn 2024-25 a rhan o 2025-26 wrth i bob ymarferydd a pherson sy'n

rheoli mangreoedd/cerbydau wneud eu ceisiadau a chael penderfyniadau. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd trwyddedau/cymeradwyaethau newydd ac amrywiadau i drwyddedau/cymeradwyaethau presennol yn cael eu hychwanegu wrth iddynt gael eu prosesu.

7.125 Byddai ceisiadau adnewyddu yn cael eu derbyn bob tair blynedd, a byddai angen diwygio cofnodion presennol. Byddai cost i gofnodi'r wybodaeth gychwynnol a sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae'r gost weinyddol i awdurdodau lleol o gynnal cywirdeb eu data wedi cael ei gostio fel £30 fesul cofrestriad ganddynt yn flaenorol. Gan y bydd pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal ei ddata ei hun, mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghostau rhedeg awdurdodau lleol.

7.126 Bydd costau rheoli TGCh parhaus i dalu am faterion cynnal a chadw, megis copïau wrth gefn er mwyn osgoi colli data, costau gweinydd a chostau i ddatrys problemau technegol. Felly, bydd ffi flynyddol reolaidd o £33,000 am drwydded TG, cymorth technegol parhaus a chost barhaus y gweinydd data lletya, sydd wedi'i gostio ar sail Cymru gyfan, sy'n cyfateb i £1,500 fesul awdurdod lleol. Y bwriad yw y byddai'r costau parhaus hyn yn cael eu gwrthbwyso gan dderbyniadau o ffioedd trwydded y cynllun, ac y bydd pob awdurdod lleol yn talu ei gyfraniad i'r awdurdod lleol arweiniol. Byddai'r rhain yn cael eu hysgwyddo'n flynyddol o ddiwedd 2024-25, wrth i'r awdurdodau lleol ddechrau trwyddedu ymarferwyr a chymeradwyo mangreoedd/cerbydau.

7.127 Byddai costau staff llywodraeth leol eraill hefyd yn gysylltiedig â'r canllawiau, codi ymwybyddiaeth gyffredinol ac ymdrin ag ymholiadau ad hoc am y ddeddfwriaeth newydd. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith hwn yn fwy yn y cyfnod cyn ac yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, ac ni fyddai'r cyfanswm yn fwy na mis o Swyddog Iechyd yr Amgylchedd FTE fesul awdurdod lleol bob blwyddyn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gan leihau i hanner hyn ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Yn seiliedig ar y gyfradd fesul awr o £56.67 yr awr ac wythnos waith o 37.5 awr, byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £202,595 (£9,209 fesul awdurdod lleol) yn 2024-25 a 2025-26, gyda'r gost yn gostwng i oddeutu £101,298 (£4,604 fesul awdurdod lleol) wedi hynny.

7.128 Mae awdurdodau lleol wedi sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer triniaethau arbennig, y Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig (SPIG). Sefydlwyd hwn fel grŵp ffurfiol yn 2024 ac mae wedi cyfarfod yn fisol, gyda'r cyfarfodydd yn para tua dwy awr. Rhoddwyd y costau suddedig mewn perthynas â chyfarfodydd y grŵp hwn hyd at ddiwedd mis Awst yn Nhabl 9 yn yr adran berthnasol.

7.129 Y bwriad oedd y byddai'r grŵp hwn yn parhau i gyfarfod o fis Medi ymlaen o leiaf yn fisol ar ôl y dyddiad dod i rym. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol na fydd y patrwm hwn yn parhau ar ôl y dyddiad dod i rym ym mis Tachwedd ac mae'n debygol y bydd yn cael

ei amsugno gan waith cymunedau ymarfer eraill awdurdodau lleol. Felly, dim ond am dri mis y rhoddir costau ar y cyfraddau a roddir ar gyfer Tabl 9.

**Tabl 19 - Costau parhaus awdurdodau lleol**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedu TG a chymorth technegol | £33,000 | £33,000 | £33,000 | £33,000 |
| Costau cyffredinol eraill | £202,595 | £202,595 | £101,298 | £101,298 |
| Cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig @ 2 awr yr un 3 chyfarfod Medi-Tachwedd 2024-Mawrth 2025 | | | | |
| 22 rheolwr trwyddedu @ £61.23 yr awr | £8,082 | -- | -- | -- |
| 8 swyddog iechyd yr amgylchedd @ £56.67 yr awr | £2,720 | -- | -- | -- |
| **Cyfanswm costau** | **£246,397** | **£235,595** | **£134,298** | **£134,298** |

7.130 Mae'r opsiwn hwn yn galluogi awdurdodau lleol i bennu ffioedd rhesymol i dalu costau gweinyddu ceisiadau yn unol â dyfarniad Hemmings v Westminster Supreme Court [44], ac i godi ffi ar wahân ar gyfer deiliaid trwydded/tystysgrif am y gost sy'n gysylltiedig â rhedeg a gorfodi'r cynllun trwyddedu gorfodol. Felly, byddai modd i awdurdodau lleol adennill cryn dipyn o gostau wrth weinyddu'r cynllun. Byddai ffioedd trwyddedu/cymeradwyo, yn ogystal â'r cyllid craidd a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r RSG, yn talu cost rhedeg y cynllun trwyddedu.

## Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder a Chostau i'r Gwasanaeth Llysoedd

7.131 Gellid gwneud apelau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth - megis apêl yn erbyn gwrthod rhoi trwydded ymarferydd sydd eisoes wedi bod gerbron y pwyllgor trwyddedu neu yn erbyn gwrthod cais i gymeradwyo mangre/cerbyd sydd wedi'i adolygu gan yr awdurdod lleol neu yn erbyn hysbysiadau gorfodi - i'r llys ynadon. Fodd bynnag, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn cynorthwyo ymarferwyr a busnesau ac yn rhoi cyfle iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

[44] R (on the application of Hemming (t/a Simply Pleasure Ltd) and others) (Respondents) v Westminster City Council (Appellant) - The Supreme Court

7.132 Gwnaed yr ymgynghoriad hwnnw ar yr un pryd â’r ymgynghoriad cyntaf a chafwyd costau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

*Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder*

7.133 Gan fod y cynllun gorfodol a ddisgrifir yn adran RIA y ddogfen hon yn defnyddio'r Llys Ynadon a Llys y Goron ar gyfer clywed apelau o dan y cynllun, yn ogystal â phrosesu gorchmynion llys ar gyfer gweithgareddau gorfodi, cafwyd caniatâd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i ymgynghori â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gwasanaeth Llysoedd, i bennu pa effaith y gallai cyflwyno'r cynllun trwyddedu ei chael ar fusnes llysoedd.

7.134 Mae'r Ddeddf yn nodi, os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod trwydded triniaeth arbennig i unigolyn, gall y person hwnnw gyflwyno sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol. Os bydd hynny'n methu, gall yr unigolyn ddwyn apêl gerbron y llys ynadon ac, yn y pen draw, Llys y Goron. Ni wnaeth y Ddeddf unrhyw ddarpariaeth debyg mewn perthynas â gwrthod tystysgrif gymeradwyo mangre/cerbyd. Mae'r rheoliadau perthnasol yn gwneud y broses ar gyfer apelau yn erbyn gwrthod cais mangre/cerbyd yr un fath â'r broses ar gyfer trwyddedau, cyn belled ag y bo modd, er na ellir defnyddio'r pwyllgorau trwyddedu yn union yr un ffordd.

7.135 Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn yr RIA gwreiddiol yn 2017 ar gyfer costau llys ac ni ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder bryd hynny. Mae gweinyddu'r system gyfiawnder yn fater a gadwyd yn ôl; felly, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod disgwyl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gorfodi deddfwriaeth Cymru. Fodd bynnag, pan fo gan benderfyniadau a wneir gan unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig neu'r cyrff o dan eu hawdurdodaeth oblygiadau ariannol i adrannau neu asiantaethau llywodraeth y DU, pan nad oes trefniadau eraill yn bodoli'n awtomatig i addasu ar gyfer costau ychwanegol o'r fath (e.e. os nad yw fformiwla Barnett yn gymwys), bydd y corff y mae ei benderfyniad yn arwain at y gost ychwanegol yn talu'r gost honno, fel y nodir yn y Datganiad o Bolisi Ariannu.

7.136 Nid oes dewis arall heblaw defnyddio'r gwasanaeth llysoedd i glywed apelau pan fo pwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol wedi cadarnhau penderfyniad i wrthod, gan fod telerau'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd glywed apelau.

7.137 Cwblhawyd ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder (JSII) ar gyfer y cynllun trwyddedu gorfodol yn ei gyfanrwydd i nodi effaith bosibl clywed apelau ar y Gwasanaeth Llysoedd a'r system gyfiawnder yn ei

chyfanrwydd. Anfonwyd y ffurflen JSII wedi'i chwblhau at y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gofynnwyd iddynt roi eu barn am effaith y cynigion yn seiliedig ar ein hamcangyfrifon gorau o nifer yr apelau posibl y gellid eu dwyn gerbron y llysoedd. Gwnaed yr ymgynghoriad hwn ar yr un pryd â'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf a gwnaethant ymateb ym mis Mehefin 2023 gyda'u hasesiad a'u costau.

7.138 Nododd yr ymgynghoriad cyntaf fod y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn y dylai'r broses apelio ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd efelychu proses apelio trwyddedau i ymarferwyr, ac y dylai fod hawl gwneud sylwadau i'r pwyllgor trwyddedu. Roedd awdurdodau lleol o'r farn y byddai creu cam pwyllgor trwyddedu ar gyfer gwrthod cymeradwyaeth mangre/cerbyd yn ymdrin â'r mwyafrif o achosion o'r fath, felly byddai llai yn cyrraedd y llysoedd. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer is-ddirprwyo'r pŵer hwn i bwyllgorau trwyddedu, felly mae darpariaeth wedi'i gwneud i bob awdurdod lleol adolygu penderfyniad i wrthod tystysgrif gymeradwyo yn annibynnol. Bydd sut y gwneir hyn yn fater i bob awdurdod lleol ei benderfynu ond, yn ymarferol, mae hyn yn debygol o olygu y bydd panel tebyg i bwyllgor trwyddedu yn cael ei gynnull.

7.139 Arweiniodd yr addasiad hwn i'r cynigion at yr angen i ddiwygio'r ffurflen JSII a'i hailgyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gofynnwyd iddynt adolygu'r newidiadau i'r amcangyfrifon a diwygio eu costau yn seiliedig ar ein ffigurau newydd. Ymatebodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel a ganlyn:

*Yn dilyn adolygiad o JSII- 1001 Llywodraeth Cymru - Triniaethau Arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gweler isod yr ymatebion unigol gan bob un o'n Grwpiau Busnes yn cadarnhau hyn:*

| Maes Busnes | Cyfrifoldeb | Ymateb |
|---|---|---|
| NOMS (HMPPS) | Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf | Dim / Braidd Dim Effaith |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi | Llysoedd - Gweithrediadau Trosedd | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Llysoedd - Gorfodi troseddol | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Llysoedd - Sifil a theulu | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Tribiwnlysoedd | Dim / Braidd Dim Effaith |
| Cymorth Cyfreithiol | Cymorth Cyfreithiol Troseddol (yn ymdrin â pholisi) | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | LAA - Troseddol | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | LAA - Sifil | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Cymorth Cyfreithiol Sifil (yn ymdrin â pholisi) | Dim / Braidd Dim Effaith |

| | Llysoedd Troseddol | * Effaith Ariannol |
|---|---|---|
| Cyfraith droseddol | Incwm troseddol | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Polisi Troseddwyr/Carchardai | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Dedfrydu - polisi | Dim / Braidd Dim Effaith |
| Cyfraith sifil | Gwasanaethau dadansoddol | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Cyfiawnder gweinyddol | Dim / Braidd Dim Effaith |
| | Polisi cyfiawnder sifil | Dim / Braidd Dim Effaith |

*Nodir costau Llysoedd Troseddol isod o 2024-25 i 2027-28 ac wedi hynny*:

| Blwyddyn ariannol | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost ychwanegol i'r Llysoedd Troseddol** | **£5,827** | **£3,626** | **£3,370** | **£3,614** |

7.140 Ers yr ail drafodaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae awdurdodau lleol wedi diwygio eu hamcangyfrifon o faint o ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau y maent yn ystyried sydd ar waith ar hyn o bryd, a'r canrannau yr oeddent o'r farn y byddent yn gwneud apelau ar bob cam, i gynnwys y cynigion diwygiedig a drafodwyd uchod. Y ffigurau a'r canrannau hyn yw'r rhai a ddefnyddir yn yr RIA hwn. Er bod eu ffigurau diwygiedig wedi nodi bod mwy o geisiadau yn mynd i mewn i'r broses yn gyffredinol, yn sgil cynnwys cam adolygu awdurdod lleol ar gyfer yr holl sylwadau cam cyntaf a'r niferoedd llai sy'n gwneud apelau i ddwy haen y llysoedd o ganlyniad, mae'r tablau wedi'u diwygio ymhellach, a rhagwelwyd y byddai'r costau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu lleihau'n sylweddol.

7.141 Roedd yr addasiadau hyn i'r cynigion yn golygu bod rhaid ymgynghori eto â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ofyn iddynt adolygu a diwygio eu ffigurau yn seiliedig ar ein ffigurau diwygiedig yn Nhabl 17 o'r RIA hwn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi nodi bod y niferoedd a allai gyflwyno apelau i'r llysoedd neu a fydd angen achos llys yn dilyn cyflwyno hysbysiadau gorfodi yn golygu y gallant amsugno unrhyw waith ychwanegol yn eu costau rhedeg arferol.

7.142 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y bobl sy'n gwneud apelau neu sydd angen achos llys yn ofalus unwaith y bydd y cynllun ar waith. Os bydd nifer yr achosion yn codi i lefel lle mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn y dylid codi tâl ar Lywodraeth Cymru am y gwaith ychwanegol y mae'r cynllun wedi'i greu ar gyfer y Gwasanaeth Llysoedd, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â nhw yn unol â hynny. Mae darpariaeth wedi'i gwneud o fewn cyllidebau

Llywodraeth Cymru yn y symiau a nodir uchod lle mae mwy o achosion yn cael eu dwyn na'r disgwyl a lle mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gofyn am daliad. Gan fod elfen o ansicrwydd ynghylch a fydd y costau hyn yn cael eu gwireddu, nid yw'r symiau wrth gefn wedi'u cynnwys fel costau i'r Gwasanaeth Llysoedd na Llywodraeth Cymru yn y tabl crynodeb ar gyfer Opsiwn 2 (Tabl 24).

**Ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio)**

7.143 Byddai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn debygol o fynd i gostau yn sgil yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a'r canllawiau cysylltiedig i ymgeiswyr. Bydd y canllawiau'n benodol ar gyfer pob triniaeth, gydag elfennau cyffredin ar draws pob triniaeth, ac amcangyfrifir eu bod oddeutu 25,000 o eiriau o hyd, gan amlinellu'r arferion a argymhellir ar gyfer pob triniaeth arbennig yn fanwl. Rhagdybir mai dim ond y canllawiau sy'n berthnasol i'r driniaeth/triniaethau y maent yn eu cyflawni y byddai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn eu darllen. Gallai methu â chydymffurfio'n llwyr â'r ddeddfwriaeth newydd arwain at erlyniad, felly rhagwelir y byddai angen cyfnod hwy ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwn (tair awr).

7.144 Rydym wedi amcangyfrif yn flaenorol bod cyfanswm o tua 4,419 o ymarferwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd (2,086 gynt) a 2,036 o fangreoedd/cerbydau presennol yn 2024-25. Yn ogystal, fel y nodwyd yn flaenorol, amcangyfrifir y byddai 452 o ymarferwyr newydd ac 84 o fangreoedd/cerbydau newydd bob blwyddyn. Mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif efallai na fydd tua 5% o'r holl rai sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn gwneud cais o dan y cynllun newydd, ond rydym wedi tybio y bydd yr holl niferoedd uchod yn darllen y canllawiau cyn gwneud y penderfyniad hwnnw. Gan ddefnyddio'r gyfradd fesul awr ynghyd ag argostau o £21.20 a roddwyd yn flaenorol o dan Opsiwn 1, gellir cyfrifo'r gost i bob ymarferydd a phob person sy'n rheoli mangre/cerbyd fel £63.60. Mae cynyddu’r swm hwn yn ôl y cyfanswm a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer pobl a allai wneud cais yn 2024-25 yn dod i gyfanswm o £410,538 ar gyfer ymgeiswyr presennol, £34,090 ar gyfer ymgeiswyr newydd. Byddai costau blynyddol parhaus o £34,090 i ymarferwyr newydd a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau ar gyfer ymgyfarwyddo â gofynion y cynllun newydd.

7.145 Tybiodd RIA 2017 y byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd, pan allai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau sydd wedi aros mewn busnes ysgwyddo rhai costau yn sgil ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig ac wrth weithredu unrhyw newidiadau gofynnol. Fodd bynnag, rydym bellach yn ystyried na fydd y canllawiau ond yn cael eu diweddaru pan fydd newid yn y Ddeddf neu'r rheoliadau, neu os yw rhanddeiliaid yn nodi unrhyw beth sy'n anghywir neu'n anghyfredol. Mae'n anodd rhagweld pryd y gallai fod angen

diwygiadau o'r fath, felly, am y rheswm hwn, nid yw diwygiadau yn y dyfodol wedi'u costio, ond y costau hyn fyddai cost amser darllen y canllawiau diweddaraf ar beth bynnag fyddai'r gyfradd fesul awr o'r tablau ASHE ar y pryd.

7.146 Dylid nodi y bydd elfen o gyfrif dwbl yn yr holl ffigurau hyn, gan y bydd cyfran o'r ymarferwyr yn berson sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau hefyd, felly byddant yn gwneud cais am drwydded ymarferydd a chymeradwyaeth mangre/cerbyd. Mae yna hefyd fodel busnes lle nad yw'r person sy'n rheoli mangre/cerbyd yn cyflawni triniaethau arbennig ei hun mewn gwirionedd ond yn cyflogi eraill neu'n rhentu lle i eraill. Ar hyn o bryd, nid oes modd nodi pa gyfran o ymgeiswyr fydd â'r statws deuol hwn.

**Tabl 20 – cost ymgyfarwyddo ymarferwyr**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Costau ymgyfarwyddo – yr holl ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol | £410,538 | 0 | 0 | 0 |
| Costau ymgyfarwyddo – ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau newydd | £34,090 | £34,090 | £34,090 | £34,090 |
| **Cyfanswm cost** | **£444,628** | **£34,090** | **£34,090** | **£34,090** |

7.147 Byddai'n ofynnol i ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded ymarferydd neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd. Disgwylir i'r broses ymgeisio hon fod yn syml ac, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n cael ei chynnal ar-lein. Er mai'r bwriad fyddai cadw'r broses ymgeisio mor syml â phosibl, byddai'n cymryd rhywfaint o amser i gwblhau cais.

7.148 Roedd yr RIA blaenorol yn tybio y byddai'r ffurflen gais am drwydded ymarferydd yn cymryd tua 30 munud i'w chwblhau a chais am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn cymryd 1.5 awr. Fodd bynnag, mae gwaith a wnaed wedi hynny yn awgrymu bod cwblhau pob ffurflen a chasglu tystiolaeth ddogfennol ategol angenrheidiol yn debygol o gymryd 1.5 awr fesul ffurflen gais ar gost o £31.80 fesul ymgeisydd. Er bod gwybodaeth gyffredin a fyddai'n cael ei chynnwys yn y ddau fath o ffurflen, mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddogfennol yn wahanol ar gyfer ymarferwyr ag ydyw ar gyfer mangreoedd/cerbydau, felly gall person sy'n gwneud cais am y ddau fath o drwydded gymryd yr un faint o amser ar bob cais

7.149 Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oes modd meintoli faint o bobl a fydd yn gwneud cais am y ddau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i drwydded triniaethau arbennig ymarferydd gynnwys ffotograff o ddeiliad y drwydded, a gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cais. Efallai y bydd cost fach i gael lluniau neu gopïo dogfennau, ond rhagwelir y bydd y rhan fwyaf yn gallu cyflenwi copïau electronig heb unrhyw gost iddynt eu hunain. Gan ddefnyddio

nifer yr ymarferwyr, mangreoedd/cerbydau a chyfraddau fesul awr o'r tabl blaenorol, gellir cyfrifo cost cwblhau'r ffurflenni. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr RIA hwn, mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif y bydd tua 5% o'r holl ymarferwyr a phobl sy'n gyfrifol am fangreoedd sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn penderfynu peidio â gwneud cais o dan y cynllun. Felly, mae nifer yr ymgeiswyr posibl sy'n bodoli eisoes yn gostwng i 4,198 o ymarferwyr a 1,934 o bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn llenwi'r ffurflenni.

7.150 Bydd angen i ymgeiswyr am drwydded ymarferydd gael a darparu Tystysgrif Sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel rhan o'r broses ymgeisio. Cost gwneud cais am dystysgrif o'r fath yw £18, sydd wedi gostwng o'r £25 a ddyfynnwyd yn yr RIA blaenorol[45]. Bydd y gost hon yn gymwys i bob cais newydd neu i adnewyddu cais. Felly, bydd y gost hon yn gymwys i'r cais cychwynnol ac yna bob tair blynedd wrth adnewyddu cais. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn unig ddarparu tystysgrif DBS, gan mai addasrwydd y mangre/cerbyd sydd dan sylw yn y cais.

7.151 Yn ogystal, rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer y cynllun, p'un ai fel ymarferydd neu fel person sy'n rheoli mangre/cerbyd, ddangos ei fod wedi cwblhau a phasio cwrs Lefel 2 a reoleiddir mewn atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i driniaethau arbennig. Mae tystysgrif pasio yn ddogfen ofynnol ar gyfer pob cais. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u hachredu gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd ac fe'u cyflwynir gan nifer o ddarparwyr gwahanol ledled Cymru, yn ogystal ag ar-lein, felly mae'r ffioedd yn amrywio rhwng darparwyr, rhwng £139 a £179, yn dibynnu ar a ydynt yn codi'r ffi arholiad ar wahân, er bod y rhan fwyaf yn codi tua £150 i gynnwys pob dim.  Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr i adnewyddu trwydded/cymeradwyaeth ailsefyll y cwrs, ond bydd disgwyl iddynt ddangos eu bod wedi bod yn diweddaru eu gwybodaeth. Yn yr un modd â'r costau eraill i ymgeiswyr yn yr adran hon, bydd y ffigurau a roddir yn oramcangyfrif oherwydd, gan nad oes modd meintoli faint o ymgeiswyr fydd yn gwneud cais drostynt eu hunain a'u mangre/cerbyd, bu'n rhaid i gost y cwrs fod yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymarferwyr a'r bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau a allai wneud cais.

7.152 Amcangyfrifir y byddai'r costau a ysgwyddir drwy wneud ceisiadau yn 2024-25 gan ymarferwyr presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn dod i gyfanswm o £1,190,362. Amcangyfrifir y byddai'r costau blynyddol ar gyfer cwblhau ceisiadau newydd yn dod i £105,581. Byddai trwyddedau'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, er y tybir y byddai cost cwblhau ceisiadau i fusnesau yn cael ei haneru gan y byddai'r broses yn fwy syml, gan fod yn seiliedig ar ddiweddaru gwybodaeth. Yn ogystal â hyn, rydym wedi rhagdybio y bydd y nifer o'r garfan gychwynnol hon sy'n dal i fasnachu yn lleihau dros amser fel y nodwyd yn Nhabl 15. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen i ymarferwyr ddarparu tystysgrif DBS newydd gyda phob cais

[45] Gofyn am wiriad sylfaenol y DBS - GOV.UK www.gov.uk

adnewyddu, felly mae'r gost hon wedi'i chynnwys. Gan ystyried hyn i gyd, amcangyfrifir mai cost gwneud ceisiadau adnewyddu i'r garfan sy'n weddill yw £123,088.

**Tabl 21 – Cost cyfle a ffioedd ehangach y broses ymgeisio**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Llenwi ffurflenni: Ceisiadau ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol @ £31.80 yr un (n=6,132) | £194,998 | -- | -- | -- |
| Adnewyddu trwydded ymarferydd/cymeradwyaeth mangre/cerbyd @ £31.80 yr un (n=4,524) | -- | -- | -- | £71,932 |
| Tystysgrif Sylfaenol y DBS – ymarferwyr presennol @ £18 yr un (n=4,198, 2,842) | £75,564 | -- | -- | £51,156 |
| Cost cwrs IPC 6,132 x £150 | £919,800 | -- | -- | -- |
| **Is-gyfanswm** | **£1,190,362** | **--** | **--** | **£123,088** |
| Ceisiadau ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau newydd @ £31.80 yr un (n=536) | £17,045 | £17,045 | £17,045 | £17,045 |
| Tystysgrif Sylfaenol y DBS – ymarferwyr newydd @ £18 yr un (n=452) | £8,136 | £8,136 | £8,136 | £8,136 |
| Cost y cwrs IPC – 536 x £150 | £80,400 | £80,400 | £80,400 | £80,400 |
| **Is-gyfanswm** | **£105,581** | **£105,581** | **£105,581** | **£105,581** |
| **Cyfanswm costau** | **£1,295,943** | **£105,581** | **£105,581** | **£228,669** |

7.153 Yn ogystal â'r amser staff sy'n gysylltiedig â dilyn y broses ymgeisio, byddai ffi ymgeisio i gael trwydded ymarferydd neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd. Mae'r strwythur ffioedd wedi cael ei drafod yn yr adran 'awdurdodau lleol' ar gyfer yr opsiwn hwn yn flaenorol ac mae awdurdodau lleol wedi cytuno arno a'i bennu ar gyfer Cymru gyfan yn unol â dyfarniad Hemming. Y gost o wneud cais am drwydded ymarferydd fydd £159 a'r gost o wneud cais am gymeradwyaeth mangre/cerbyd fydd £244.

7.154 Oherwydd dyfarniad Hemming v Westminster, rhaid i gostau rhedeg y cynllun yn eu cyfanrwydd gael eu codi ar wahân ar yr ymarferwyr a'r mangreoedd/cerbydau hynny sydd wedi'u trwyddedu/cymeradwyo, ar ffurf 'ffi cydymffurfio'. Mae'r ffioedd hyn hefyd wedi'u pennu ar £44 ar gyfer ymarferwr a £141 ar gyfer mangre/cerbyd. Bydd angen i bob ymarferydd presennol a pherson sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau ar hyn o bryd wneud cais o dan y cynllun newydd, ond dim ond y rhai sy'n cael trwyddedau neu dystysgrifau cymeradwyo fydd yn gorfod talu'r ffi cydymffurfio. Gan ddefnyddio'r ffigurau ymarferydd/mangre/cerbyd o

Dabl 15, byddai cost cychwynnol ffi ymgeisio o £667,482 ar gyfer 4,198 o ymarferwyr presennol a £471,896 ar gyfer 1,934 o bobl sy'n rheoli mangreoedd ar hyn o bryd yn 2024-25. Yn ogystal, gan dybio bod 452 o ymarferwyr newydd yn dechrau bob blwyddyn ac 84 o fangreoedd/cerbydau newydd, byddai costau ffioedd blynyddol parhaus o £71,868 ar gyfer ceisiadau newydd am drwydded a £20,496 ar gyfer ceisiadau newydd am gymeradwyaeth.

7.155 Nid oes modd rhagweld canrannau nifer yr ymarferwyr a'r bobl sy'n rheoli mangreoedd a fydd yn cael trwyddedau a/neu dystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd. Byddai amcangyfrifon a wnaed gan awdurdodau lleol o'r niferoedd a allai wneud apelau yn erbyn gwrthodiad i'r pwyllgorau trwyddedu a'r llysoedd yn awgrymu y bydd yn llai nag 1% o'r cyfanswm sy'n gwneud unrhyw gais. Felly, rhagdybir y bydd pob ymgeisydd yn Nhabl 15 yn cael trwydded/tystysgrif gymeradwyo, ac felly'n gorfod talu ffi cydymffurfio. Felly, ystyrir bod hwn yn oramcangyfrif ond gellir ei gyfrifo i fod yn £489,138 ar gyfer 2024-25.

7.156 Byddai trwyddedau ymarferydd a thystysgrifau cymeradwyo mangreoedd/cerbydau yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd fel y nodir yn Nhabl 21 uchod. Mae ffioedd dangosol ar gyfer ceisiadau adnewyddu wedi'u cyhoeddi fel £147 ar gyfer cais ymarferydd a ffi cydymffurfio o £41, a £204 ar gyfer cais mangre/cerbyd a ffi cydymffurfio o £141. Mae'r ffioedd yn gyffredinol yn cael eu hadolygu a'u cytuno gan awdurdodau lleol, felly gallent newid yn y dyfodol. Gan ddefnyddio'r ffigurau yn Nhabl 15 fel o'r blaen, mae'n debygol y bydd y gost adnewyddu ar gyfer yr ymarferwyr gwreiddiol a'r bobl hynny sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau sy'n dal i fasnachu yn 2027-28 oddeutu £1,114,586.

**Tabl 22 – costau ffioedd ymgeisio a chydymffurfio**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| **Ffi ymgeisio** | | | | |
| Ymarferwyr presennol (n=4,198 x £159) | £667,482 | -- | -- | -- |
| Mangreoedd/cerbydau presennol (n=1,934 x £244) | £471,896 | -- | -- | -- |
| Ymarferwyr newydd (n=452 x £159) | £71,868 | £71,868 | £71,868 | £71,868 |
| Mangreoedd/cerbydau newydd (n=84 x £244) | £20,496 | £20,496 | £20,496 | £20,496 |
| Adnewyddu – ymarferwyr presennol (n=2,842 x £147) | -- | -- | -- | £417,774 |
| Adnewyddu – mangreoedd/cerbydau presennol (n=1,682 x £204) | -- | -- | -- | £343,128 |
| **is-gyfanswm** | **£1,231,742** | **£92,364** | **£92,364** | **£853,266** |
| **Ffi cydymffurfio** | | | | |
| Ymarferwyr presennol (n=4,198 x £44) | £184,712 | | | |
| Mangreoedd/cerbydau presennol (n=1,934 x £141) | £272,694 | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymarferwyr newydd (n=452 x £44) | £19,888 | £19,888 | £19,888 | £19,888 |
| Mangreoedd/cerbydau newydd (n=84 x £141) | £11,844 | £11,844 | £11,844 | £11,844 |
| Adnewyddu – ymarferwyr presennol (n=2,842 x £41) | -- | -- | -- | £116,522 |
| Adnewyddu – mangreoedd/cerbydau presennol (n=1,682 x £141) | -- | -- | -- | £237,162 |
| **is-gyfanswm** | **£489,138** | **£31,732** | **£31,732** | **£385,416** |
| **Cyfanswm ffioedd ymgeisio a chydymffurfio** | **£1,720,880** | **£124,096** | **£124,096** | **£1,238,682** |

7.157 Disgwylir y byddai cyfradd gydymffurfio uchel â'r ddeddfwriaeth. Byddai gweithredu'n groes i'r ddeddfwriaeth, megis cyflawni triniaethau arbennig heb drwydded neu dorri amodau trwydded, yn arwain at Hysbysiad Atal neu RAN, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae torri'r ddau fath o hysbysiad yn arwain at ddirwy ddiderfyn i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Nid oes modd darparu ffigur pendant ynghylch y dirwyon a fyddai'n cael eu rhoi gan y byddai gan lysoedd ynadon gryn ddisgresiwn; fodd bynnag, at ddibenion yr ymarfer hwn, mae dirwy o £5,000 wedi'i defnyddio i gyfrifo costau.

7.158 Amcangyfrifwyd yn gynharach (yn Nhabl 18) y gallai fod tua 133 o achosion o berson yn cael Hysbysiad Atal neu RAN yn y flwyddyn gyntaf. Amcangyfrifodd awdurdodau lleol y byddai tua 2% o'r rhain yn arwain at achos llys, gan arwain at ddirwy - tri i gyd yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, gan ostwng i ddau y flwyddyn wedi hynny, gan roi cyfanswm cost blynyddol tybiannol mewn dirwyon o hyd at £15,000. Amcangyfrifwyd hefyd yn yr un tabl y byddai gostyngiad yn nifer yr Hysbysiadau Atal a RANs a ddyroddir flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd y gostyngiad tybiannol yn y nifer yn y garfan bresennol o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau o flwyddyn i flwyddyn. Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o ddau yn derbyn dirwyon yn 2027-28 ar gost dybiedig o £10,000. Byddai'r elw o'r dirwyon hyn yn cael ei gadw gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Rhagwelir mai ychydig iawn o apelau fyddai yn erbyn Hysbysiadau Atal neu RANs. Mae hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi, ond mae awdurdodau lleol o'r farn, yn seiliedig ar eu profiad o gynlluniau trwyddedu eraill, mai ychydig iawn fydd yn apelio. Rhoddwyd ffigurau blynyddol tybiannol o gyfanswm yr ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd a allai apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath o bob math yn Nhabl 18 ond, ar gyfer ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau, mae'n debygol y bydd ffi llys yn daladwy i gyflwyno apêl yn y llys.

7.159 Yn ogystal, gall y Gwasanaeth Llysoedd godi ffi ar unrhyw ymarferydd neu berson sy'n rheoli mangre/cerbyd sy'n dymuno apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad i wrthod cais neu yn erbyn hysbysiad (fel y nodir yn Nhabl 17). Defnyddir y ffi hon i gofrestru'r apêl, a gellid codi ffi bellach ar gyfer gwrandawiad hefyd, a bydd rhaid i'r apelydd dalu'r costau hyn. Mae'r costau hyn ar wahân i unrhyw ffioedd y gallai fod eu hangen i gyfarwyddo cyfreithwyr ac ati. I roi syniad, ffi bresennol

y Llys Sifil a’r Llys Teulu[46] i gyflwyno apêl yn y Llys Sirol yw £166, a £285 yn yr Uchel Lys (ac eithrio unrhyw ffioedd gwrandawiad cymwys), ac mae'r swm hwn wedi'i gymhwyso i'r niferoedd sy'n cyflwyno apelau a nodwyd yn flaenorol yn Nhablau 17 ac 18.

7.160 Gan nad yw'r mater ffioedd llys wedi'i setlo, enghreifftiau yn unig yw’r cyfansymiau yn y Tabl 23 canlynol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cryno cyffredinol ar ddiwedd y ddogfen hon.

7.161 Mae mathau eraill o geisiadau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf sydd ar gael i ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau, megis cais i amrywio trwydded a/neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd, tystysgrifau newydd a cheisiadau gweinyddol eraill. Bydd pob cais ychwanegol o'r fath yn denu ffi am brosesu, a bydd cost weinyddol gysylltiedig i'r awdurdod lleol sy'n prosesu’r cais. Nid oes modd meintoli faint o'r ceisiadau hyn a wneir mewn unrhyw flwyddyn. Am y rheswm hwn, ni ellir costio'r ceisiadau hyn.

**Tabl 23 – cost ddangosol i ymarferwyr a busnesau – ffioedd llys a dirwyon**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Dirwyon* (pob ymarferydd a mangre/cerbyd, @ £5,000 yr un) | n=3<br>£15,000 | n=2<br>£10,000 | n=2<br>£10,000 | n=2<br>£10,000 |
| Ffioedd llys* – apelau i ynadon @ £166 yr un | n=7<br>£1,162 | n=1<br>£166 | n=1<br>£166 | n=5<br>£830 |
| Ffioedd llys* – apelau i Lys y Goron @ £285 yr un | n =llai nag 1 | n =llai nag 1 | n =llai nag 1 | N =llai nag 1 |
| Pob apêl yn erbyn hysbysiadau gorfodi @ £166 yr un | n=3<br>£498 | n=2<br>£332 | n=2<br>£332 | n=2<br>£332 |
| *Symiau dangosol yn unig– gall gwerth dirwyon a ffioedd amrywio'n sylweddol | | | | |

7.162 Rhagwelir y byddai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflawni'r camau gweithredu a argymhellir a chydymffurfio ag unrhyw hysbysiadau a gyflwynir yn y mwyafrif o achosion. Gan y gallai cost camau unioni i fusnesau unigol amrywio'n fawr ac, nad yw’r gost yn hysbys i raddau helaeth ar hyn o bryd, nid yw wedi'i hamcangyfrif yma.

7.163 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i ymarferwyr a busnesau mewn perthynas â'r gofrestr. Ni fyddai angen darparu unrhyw wybodaeth y tu hwnt i'r gofynion a nodir yn y cynllun trwyddedu, gan mai dim ond manylion pob trwydded/tystysgrif gymeradwyo, nid y bobl sy'n eu dal,

[46] EX50 - Civil court fees (EX50) - GOV.UK (www.gov.uk)

ac eithrio eu henw a chyfeiriad y mangre/cerbyd y busnes (lle bo'n berthnasol) sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr a'i chronfa ddata.

**Tabl 24 - crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2**

| Sector | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Costau staff Medi-Tachwedd 2024 (Tabl 13) | £53,964 | **0** | **0** | **0** |
| Cyhoeddusrwydd | £1,000 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm cost i Llywodraeth Cymru* (A)** | **£54,964** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru (B)** | **£8,951** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | |
| Gweinyddu ceisiadau (Tabl 15) | £1,231,742 | £92,364 | £92,364 | £853,266 |
| Ymweliadau cydymffurfio blynyddol (Tabl 16) | £130,410 | £119,945 | £109,365 | £98,900 |
| Cost apelau (Tabl 17) | £88,860 | £8,090 | £8,090 | £67,270 |
| Cost hysbysiadau gorfodi/apelau (Tabl 18) | £23,576 | £20,816 | £19,254 | £17,692 |
| Costau cyffredinol eraill (Tabl 19) | £246,397 | £235,595 | £134,298 | £134,298 |
| **is-gyfanswm cost i awdurdodau lleol** | **£1,720,985** | **£476,810** | **£363,371** | **£1,171,426** |
| **Llai addasiad ar gyfer cyfanswm y derbyniadau (Tabl 15)** | **-£1,720,880** | **-£124,096** | **-£124,096** | **-£1,238,682** |
| **Costau net awdurdodau lleol (c)** | **£105** | **£352,714** | **£239,275** | **-£67,256** |
| | | | | |
| **Ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau** | | | | |
| Costau ymgyfarwyddo â chanllawiau (Tabl 20) | £444,628 | £34,090 | £34,090 | £34,090 |
| Costau cyfle ymgeisio (Tabl 21) | £1,295,943 | £105,581 | £105,581 | £228,669 |
| Ffioedd ymgeisio a ffioedd cynllun - (Tabl 22) | £1,720,880 | £124,096 | £124,096 | £1,238,682 |
| **Cyfanswm y gost i ymarferwyr/ mangreoedd/cerbydau* (D)** | **£3,461,451** | **£263,767** | **£263,767** | **£1,501,441** |
| **Cyfanswm cost Opsiwn 2* (A+B+C + D)** | **£3,525,471** | **£616,481** | **£503,042** | **£1,434,185** |
| *Mae costau eraill wedi'u nodi o dan yr opsiwn hwn ar gyfer pob parti na ellir eu meintioli'n gywir, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfanswm. Mae'r rhain yn cynnwys y costau i Lywodraeth Cymru/y Gwasanaeth Llysoedd; y GIG yn sgil trin unigolion; dirwyon a osodir ar ymarferwyr/pobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau | | | | |

## Manteision

## Manteision iechyd

7.164 Prif fantais ddisgwyliedig y cynllun trwyddedu yw osgoi costau i'r GIG, o ran costau triniaeth, ac i iechyd unigolion. Fel yr esboniwyd yn gynharach, mae risgiau iechyd hysbys sy'n cael eu hadrodd yn dda, sy'n gysylltiedig â thriniaethau tyllu'r croen. O dan Opsiwn 1, amcangyfrifwyd bod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thatŵio a thyllu'r corff yn arwain at isafswm cost flynyddol i'r GIG o £103,294 i £447,330. Byddai unrhyw leihad yn y cymhlethdodau sy'n deillio o driniaethau arbennig yn arwain at y GIG yn osgoi o leiaf ran o'r costau hyn.

7.165 Byddai unrhyw gymhlethdodau sy'n cael eu hosgoi hefyd yn arwain at enillion QALY i unigolion, er na ellir eu meintioli yma. Mae un QALY yn werth £70,000. Cost net gronnol Opsiwn 2 o gymharu â chynnal y sefyllfa bresennol a amlinellir yn Opsiwn 1 yw £4,525,547 ar sail gwerthoedd uwch yr ystod wahaniaeth dros gyfnod o bedair blynedd. Byddai angen i'r cynllun trwyddedu arwain at –oddeutu 65 o enillion QALY i fod yn niwtral o ran cost.

## Manteision eraill

7.166 Ystyrir nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd yn briodol – cefnogwyd y farn hon gan ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad y Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd[47]. Byddai'r cynllun trwyddedu o dan yr opsiwn hwn yn gosod gofynion ar ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau, y byddai disgwyl iddynt godi safonau a sicrhau bod yr holl driniaethau arbennig yn cael eu cyflawni mewn modd diogel a phriodol. Gan y byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu mecanweithiau gorfodi priodol, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn canfod eu bod yn gallu ymdrin ag achosion o weithredu'n groes i'r ddeddfwriaeth mewn ffordd fwy syml ac felly'n diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol. Yn ogystal, mae'n annhebygol y byddai angen i awdurdodau lleol wneud cais Rhan 2A gan y byddai ganddynt fecanweithiau mwy effeithiol i ymdrin ag arferion anawdurdodedig.

7.167 Byddai'r rhan fwyaf o ddeiliaid trwydded sy'n cyflawni triniaethau arbennig a'r mangreoedd/cerbydau lle cânt eu cyflawni hefyd yn gweld manteision o ran eu henw da. Drwy fodloni'r gofynion trwyddedu, byddent yn gallu dangos i'r cyhoedd yn annibynnol eu bod yn bodloni safonau hylendid a glendid priodol, yn ogystal â chynnal gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Dyluniwyd y cynllun gorfodol i ganiatáu i ymarferwyr weithio unrhyw le yng Nghymru mewn mangreoedd/cerbydau cymeradwy, felly mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd na'r cynllun cofrestru a amlinellir yn Opsiwn 1.

[47] Nid yw bellach ar gael ar-lein Datganiad Ysgrifenedig - Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd: Adroddiad Cryno yr Ymgynghoriad (6 Tachwedd 2014) | LLYW.CYMRU

7.168 Byddai'r gofrestr ganolog ar gyfer triniaethau arbennig yn cynorthwyo ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau i ddangos eu statws fel rhai sydd wedi bodloni gofynion y cynllun trwyddedu ac yn galluogi darpar gleientiaid i gysylltu â nhw. Pe bai ymarferydd, person sy'n rheoli mangre/cerbyd neu aelod o'r cyhoedd yn dod yn ymwybodol o berson sy'n ymddwyn yn groes i'r ddeddfwriaeth, byddent yn gallu gwirio'r gofrestr ganolog a hysbysu'r awdurdod lleol.

7.169 Byddai gan y cyhoedd fynediad at gyfleuster canolog hygyrch sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac y gellir ei chwilio yn Gymraeg a Saesneg i ddod o hyd i ymarferydd sy'n gweithio yn eu hardal sydd wedi'i drwyddedu, neu fangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo.

7.170 Byddai'r pecyn cyfathrebu a amlinellwyd yn gynharach yn bwysig wrth wneud ymarferwyr, busnesau a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r cynllun trwyddedu. Byddai gwybodaeth y cyhoedd am beryglon defnyddio ymarferwyr didrwydded a mangreoedd heb eu cymeradwyo – a chyflawni’r triniaethau eu hunain neu gan ffrind heb ei hyfforddi – yn cynyddu. Gan y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y trwyddedau y maent wedi'u dyroddi a'r mangreoedd/cerbydau y maent wedi'u cymeradwyo ar y gofrestr gyhoeddus, byddai unrhyw un sy'n ceisio cael triniaeth arbennig yn gallu cael gwybod o'r gofrestr pa ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau sydd wedi bodloni'r safonau cenedlaethol. Byddai hyn yn helpu i wella tryloywder ymhellach a sicrhau bod gan bobl fwy o wybodaeth.

7.171 Yn ogystal â'r costau posibl a fydd yn cael eu hosgoi i'r GIG a nodwyd uchod, gall y cynllun trwyddedu fod â manteision economaidd ehangach os bydd gwelliant mewn safonau o fewn y sector yn arwain at lai o achosion o absenoldeb yn y gweithle oherwydd cymhlethdodau yn dilyn triniaeth.

## Anfanteision

7.172 Efallai y bydd anfantais yn nhermau economaidd i'r cleient os yw ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn dewis trosglwyddo cost uwch ffioedd ymgeisio ac adnewyddu a ffioedd eraill y cynllun i'w cleientiaid drwy godi mwy am eu gwasanaethau. Mae'r gofyniad i ymgymryd â'r cwrs atal a rheoli heintiau ar gost i'r ymgeisydd ac adnewyddu trwydded/tystysgrif gymeradwyo bob tair blynedd yn gostau nad oes rhaid i ymarferwyr/pobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau eu talu ar hyn o bryd o dan Opsiwn 1. Gallai trosglwyddo'r costau ychwanegol hyn i'r cleient arwain at lai o gwsmeriaid yn ei dro, ond nid oes modd meintoli'r anfanteision posibl hyn. Hefyd, bydd hi'n ofynnol i bob ymarferydd a pherson sy'n rheoli mangre/cerbyd dalu'r un costau ar gyfer ceisiadau lle bynnag y maent yng Nghymru, felly mae hwn yn gynllun mwy teg mewn perthynas â'r costau a'r safonau cymeradwyo hynny gan awdurdodau lleol. Fodd

bynnag, rhagwelir y bydd manteision y cynllun i'r cleient o ran safonau hylendid a diogelwch uwch ac i'r ymarferydd/person sy'n rheoli mangre/cerbyd o ran cysondeb dull awdurdodau lleol yn gorbwyso unrhyw anfanteision o ran cost.

7.173 Mae rhai ymarferwyr yn yr ymgynghoriadau cyhoeddus wedi mynegi'r farn y gallai costau'r ffioedd ymgeisio ac adnewyddu, ynghyd ag unrhyw waith y gallai fod ei angen i ddod â safonau ymarfer neu fangreoedd i'r safon ofynnol i ymuno â'r cynllun, olygu bod rhai o'r ymarferwyr neu'r mangreoedd hyn yn gorfod rhoi’r gorau i fasnachu neu greu marchnad 'danddaearol' o ymarferwyr heb drwydded sy'n barod i weithredu'n anghyfreithlon. Mae'r rhain yn risgiau posibl, ond mae Opsiwn 2 yn darparu offer gorfodi symlach a mwy addasadwy i awdurdodau lleol allu mynd i'r afael ag ymarferwyr o'r fath. Rhagwelir hefyd, wrth i'r cynllun ddod yn fwy cyfarwydd i gleientiaid ac wrth iddynt gael gwybodaeth am y risgiau iechyd posibl cysylltiedig, y byddant yn fwy tueddol o ddefnyddio ymarferydd trwyddedig.

7.174 Efallai y bydd anfantais canfyddedig i awdurdodau lleol hefyd gan y bydd gofynion y cynllun trwyddedu'n gofyn am gryn tipyn o waith i ddechrau drosglwyddo ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol i'r cynllun newydd, yn ogystal ag ymdrin ag ymgeiswyr newydd. Mae awdurdodau lleol wedi nodi bod rhaid bodloni gofynion y gwaith ychwanegol hwn o'r adnoddau presennol, ac mae’n bosibl na fydd yr adnoddau hyn yn ddigonol. Gan fod y cynllun cyfan wedi'i ddylunio i fod yn gynllun adennill costau llawn ac na chaniateir i awdurdodau lleol wneud elw, dylent adennill eu costau o leiaf. Yn ogystal, maent wedi cadarnhau i ni y byddant yn adolygu eu ffioedd i sicrhau eu bod yn parhau i adennill costau gweinyddu'r cynllun. Mae'r staff fydd ei angen arnynt yn fater i'w rheolwyr eu hunain ei ystyried.

## Cymharu costau

### Tabl 25 – cymharu costau opsiynau

| | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Opsiwn 1 (o Dabl 5)** | | | | |
| A - Cyfanswm costau Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B - Costau net awdurdodau lleol | £318,670 – £323,070 | £317,070 | £317,070 | £318,670 – £323,070 |
| C - Cyfanswm costau i fusnesau | £68,338 | £68,338 | £68,338 | £68,338 |
| **Opsiwn 1 - Cyfanswm costau net (A+B+C)(Tabl 5)** | **£387,008 – £391,408** | **£385,408** | **£385,408** | **£387,008 – £391,408** |
| | | | | |
| **Costau Opsiwn 2 (o Dabl 24)** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A - Cyfanswm costau Llywodraeth Cymru | £54,964 | 0 | 0 | 0 |
| b - Iechyd Cyhoeddus Cymru | £8,951 | 0 | 0 | 0 |
| c – Costau net awdurdodau lleol | £105 | £352,714 | £239,275 | -£67,256 |
| d – Cyfanswm costau ymarferwyr/mangreoedd/ cerbydau | £3,461,451 | £263,767 | £263,767 | £1,501,441 |
| **Opsiwn 2 - cyfanswm costau net (a+b+c+d)** | **£3,525,471** | **£616,481** | **£503,042** | **£1,434,185** |
| | | | | |
| **Cost Opsiwn 2 yn ychwanegol at Opsiwn 1** | **£3,138,463 – £3,134,063** | **£231,073** | **£117,634** | **£1,047,177 – £1,042,777** |

7.175 Gwelir o Dabl 25 fod costau Opsiwn 2 yn y flwyddyn gychwyn 2024-25 a'r flwyddyn adnewyddu 2027-28 yn sylweddol uwch na'r rhai ar gyfer Opsiwn 1. Mae hyn oherwydd yr angen i drosglwyddo pob ymarferydd cofrestredig presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau cofrestredig i'r cynllun newydd, y gofynion mwy trylwyr a'r gofyniad i adnewyddu trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo bob tair blynedd yn cynyddu'r costau cyffredinol i awdurdodau lleol ac ymgeiswyr. Yn ogystal, mae'r costau i bartïon eraill megis Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fwy ar y cychwyn, gan fod y gwaith o lunio'r cynllun fel y gall awdurdodau lleol ac ymgeiswyr ei ddefnyddio o'r dyddiad dod i rym arfaethedig wedi'u cynnwys yn 2024-25.

7.176 Nodir hefyd fod awdurdodau lleol yn dangos diffyg i bob pwrpas yn y rhan fwyaf o flynyddoedd yn y ddau opsiwn, gan fod y ffigurau net wedi ystyried derbyniadau ffioedd ymgeisio ac, yn achos Opsiwn 2, derbyniadau'r ffioedd cydymffurfio hefyd. Nododd Tabl 15 y bwriad i’r holl dderbyniadau o'r ffioedd ymgeisio a'r ffioedd cydymffurfio y gellir eu codi o dan Opsiwn 2 faintoli i sero gan y bwriedir i’r ffioedd dalu cost rhedeg y cynllun, a chyfrifodd yr awdurdodau lleol y ffioedd ymgeisio a chydymffurfio cychwynnol yn unol â hynny.

7.177 Mae'r cyfrifiadau rydym wedi'u cyflwyno yn y RIA hwn wedi ystyried yr holl gostau posibl, yn ogystal â phrosesu'r ceisiadau cychwynnol i'r pwynt gwneud penderfyniad ac, o ganlyniad, nid yw cyfanswm y derbyniadau posibl yn talu'r costau hyn yn llwyr. Mae nifer o resymau am hyn:

- Ni all awdurdodau lleol ddatgan gydag unrhyw sicrwydd faint o ymarferwyr neu fangreoedd sydd ganddynt mewn busnes a fydd yn ymgeisio, ond maent wedi gorfod rhoi amcangyfrifon i ni.

- Yn ogystal, mae gan bob awdurdod lleol wahanol strwythurau staffio a ffioedd a gwahanol ffyrdd o weithio, sydd wedi gwneud nodi prosesau gwaith cyffredin a neilltuo costau uned yn gymhleth.

- Mae'n amhosibl rhagweld faint o bobl fydd yn gwneud cais i'r cynllun, faint o'r ymgeiswyr hynny fydd yn cael eu trwyddedu neu faint o fangreoedd/cerbydau fydd yn cael eu cymeradwyo, felly rhaid rhagdybio y bydd pob ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo.

- Bydd llawer o bobl yn gwneud cais am drwydded ymarferydd a chymeradwyaeth mangre, ac mae'n amhosibl nodi lle mae dyblygu.

- Ni ellir pennu llawer o'r costau uned, gan eu bod yn dibynnu ar ystod o ffactorau eraill a fydd yn wahanol ym mhob achos, er enghraifft, nifer yr ymgeiswyr a allai wneud apêl o unrhyw fath, faint fyddai'r costau llys, pa lefel o gamau gorfodi y gallai fod angen eu cymhwyso mewn unrhyw sefyllfa, neu faint fyddai maint unrhyw ddirwyon a osodir.

7.178 Fel y trafodwyd yn yr adran 'awdurdodau lleol' ar gyfer Opsiwn 2, mae'r cyfrifiadau yn yr RIA hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf yr awdurdodau lleol o nifer yr ymarferwyr a mangreoedd sydd wedi'u cofrestru gyda nhw ar hyn o bryd, a'r profiad sydd ganddynt o weithgarwch gorfodi cynlluniau trwyddedu tebyg.

7.179 Mae'n debygol iawn bod y costau a gyflwynir yma ar gyfer y ddau opsiwn yn oramcangyfrif, gan fod rhaid rhagdybio y bydd pob ymgeisydd yn cael ei drwyddedu/cymeradwyo.

7.180 Yn ogystal, mae'r costau ar gyfer Opsiwn 2 yn cynnwys costau ar gyfer lefel uwch o weithgarwch gorfodi, gan fod yr opsiwn yn cyflwyno mwy o rwymedïau cyfreithiol i awdurdodau lleol eu cymryd nag sydd ar gael ar gyfer Opsiwn 1 – mae achosion llys ffurfiol yn brin o dan Opsiwn 1 oherwydd eu cymhlethdod a'u cost. Gyda chymaint o newidynnau yn y niferoedd sy'n ymuno â'r cynllun ac sydd angen gweithgarwch gorfodi ar gyfer y ddau opsiwn, nid yw'r ffigurau o reidrwydd yn gynrychiadol o'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol ar hyn o bryd neu a fydd yn digwydd os cyflwynir Opsiwn 2. Felly, mae gwir nifer yr ymgeiswyr a'r gweithgarwch o dan unrhyw bennawd wedi'u dyfalu i raddau helaeth, felly gallent fod yn llai neu, i'r gwrthwyneb, yn sylweddol fwy, ac mewn perthynas ag ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau, maent yn cynnwys nifer sy'n anfesuradwy ar hyn o bryd sydd wedi'u cyfrif ddwywaith gan y byddant yn gwneud cais am drwydded ymarferydd a chymeradwyaeth mangre/cerbyd.

7.181 Wedi dweud hynny, pan fo'r costau net i awdurdodau lleol yn unig ar gyfer Opsiwn 2 yn cael eu cymharu â chostau net Opsiwn 1 i awdurdodau lleol (Tabl 25), gwelir o'r gost net flynyddol i awdurdodau lleol y byddai'n costio dim ond ychydig yn fwy neu lai iddynt fabwysiadu Opsiwn 2. Mae hyn oherwydd bod Opsiwn 2 wedi'i ddylunio i dalu

costau parhaus rhedeg y cynllun trwyddedu arfaethedig, yn ogystal â'r gost gychwynnol o brosesu a phenderfynu pob cais. Awdurdodau lleol a bennod y ffioedd dangosol ar gyfer y cynllun ond, ers hynny, maent wedi ystyried na fyddant yn talu eu costau yn llawn, felly'r bwriad yw adolygu'r ffioedd. Wedi dweud hynny, yn 2027-28 mae'n ymddangos bod costau net awdurdodau lleol yn gwneud elw bach. Nid yw'n glir pam, heblaw y rhagwelir y bydd llai o'r garfan wreiddiol yn masnachu i wneud cais i adnewyddu, ac mae'n bosibl mai anomaledd yw hwn.

7.182 Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau opsiwn yw'r ffioedd a godir ar bob ymgeisydd, er bod rhai o'r ffioedd a godir mewn rhai awdurdodau lleol ar hyn o bryd am gofrestru o fewn yr un amrediad pris â rhai o'r prisiau a gynigir o dan Opsiwn 2. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai o'r ffioedd yn fwy na dwbl y ffioedd sy'n cael eu codi ar hyn o bryd gan rai awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'r costau cyfle i ymgeiswyr yn uwch ar gyfer Opsiwn 2 oherwydd bod y gofynion ymgeisio yn fwy trylwyr ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ym mhob achos fod wedi gwneud a phasio cwrs dyfarniad lefel 2 mewn atal a rheoli heintiau. Rhaid cwblhau'r cwrs hwn cyn y gellir gwneud unrhyw gais a rhaid i'r ymgeisydd ei ariannu ei hun. Mantais y gofyniad hwn, fodd bynnag, yw sicrhau bod gan bawb sy'n gwneud cais yr un wybodaeth am atal a rheoli heintiau ac y dylent allu cymhwyso'r wybodaeth i'w harferion gwaith a'u gweithle. Nid oes gofyniad o'r fath o dan Opsiwn 1 ac, i bob pwrpas, gall unrhyw un sefydlu busnes heb fawr o wybodaeth am sut i ymarfer yn ddiogel, a byddai hyn yn parhau pe bai Opsiwn 1 yn parhau.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

7.183 Mae **Opsiwn 1** yn cynnal y sefyllfa bresennol ac nid yw'n bodloni'r amcan polisi. Mae'n parhau â'r sefyllfa lle mae dull anghyson o orfodi wedi'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Mae'r pwerau sydd ar gael i reoli busnesau sy'n darparu aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu'r corff ac electrolysis yn cael eu hystyried yn annigonol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

7.184 Mae **Opsiwn 2** yn cynnig trwyddedu gorfodol i ymarferwyr sy'n darparu'r pedair triniaeth arbennig a enwir yng Nghymru, a'r mangreoedd/cerbydau y maent yn cael eu cyflawni ynddynt. Byddai safonau cenedlaethol yn cael eu cymhwyso drwy amodau trwyddedu gorfodol, hyfforddiant atal a rheoli heintiau, a phroses ymgeisio a chymeradwyo a fframwaith gorfodi a strwythur ffioedd cyson. Ei nod yw gwella safonau i greu chwarae teg i fusnesau parchus a sicrhau dull gwell a chyson o reoleiddio'r triniaethau hyn ledled Cymru. Ystyrir bod y dogfennau canllaw ategol a'r gweithgarwch cyfathrebu yn sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng cost a'r tebygolrwydd o gyflawni'r amcan polisi a'r manteision diriaethol ac anniriaethol sy'n deillio o hynny i gleientiaid, y GIG, ymarferwyr a busnesau.

7.185 Mynegodd yr RIA blaenorol y farn nad oedd mynd ati i greu cofrestr ganolog ar unwaith yn cyflwyno llawer o fanteision i awdurdodau lleol, busnesau a'r cyhoedd, o ran ei bod yn ei gwneud yn haws cael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, ers hynny mae awdurdodau lleol wedi penderfynu ar y cyd mai'r peth ffafriol fyddai iddynt gydweithio ar sefydlu a chynnal un gofrestr ganolog. Gan fod yr wybodaeth orfodol sydd i'w chynnwys yn y gofrestr wedi'i nodi yn y Ddeddf, roedd yr awdurdodau lleol o'r farn ei bod yn well adeiladu'r gofrestr cyn cychwyn y ddeddfwriaeth a chyflwyno'r cynllun gorfodol, ac mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae hyn wedi cyflwyno nifer o fanteision o ran bod y gofrestr wedi'i phrofi a'i gwneud yn barod, ac mae awdurdodau lleol wedi bod yn ymgyfarwyddo â'i defnyddio cyn i geisiadau byw ar gyfer cofrestru cymeradwyo/trwyddedu gael eu gwneud.

**Ymgynghoriad ar yr RIA hwn**

7.186 Roedd y fersiwn ddrafft o'r RIA hwn yn rhan o'r dogfennau a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2023. Mae gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymatebion a dderbyniwyd ar yr RIA gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol hon.

**Effeithiau Eraill**

**Asesiad Effaith Integredig**

7.187 Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) llawn wedi'i gwblhau ar gyfer y rheoliadau hyn a gellir ei weld yma: https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru

7.188 Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol yn unrhyw un o'r rhannau o'r asesiad effaith integredig. Y brif effaith gadarnhaol sy'n gyffredin i bob rhan oedd y byddai cleientiaid yn elwa'n gyffredinol pe bai'r pedair triniaeth arbennig yn cael eu cyflwyno i safon gyson o atal a rheoli heintiau, ac y byddai hyn yn gymwys i'r un graddau i'r holl grwpiau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol.

7.189 Yr effaith gyffredinol fwyaf a nodwyd yn yr IIA oedd mewn perthynas â diogelu data o ran bod awdurdodau lleol yn casglu a chadw data drwy'r broses ymgeisio a thrwyddedu/cymeradwyo, ac ymarferwyr drwy gasglu a chadw data cleientiaid.

**Refeniw a Manteision**

7.190 Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi ar drethi Cymru, treth y DU na systemau budd-daliadau'r DU mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

## 8. Asesiad cystadleuaeth

8.1 Bydd yn ofynnol i bob ymarferydd a pherson sy'n rheoli mangred/cerbyd wneud cais am drwyddedu a/neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd, yn ogystal â newydd-ddyfodiaid i'r maes. Disgwylir y bydd y ffioedd ymgeisio a chydymffurfio yr un fath ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru, felly bydd yr holl ymgeiswyr yn gorfod talu'r un ffioedd. Byddai unrhyw gostau a ysgwyddir gan fusnesau mewn perthynas â hyfforddiant neu wrth baratoi mangre i gyrraedd safon sy'n ofynnol er mwyn cael ei chymeradwyo yn gymesur â maint y busnes, felly rhagwelir y byddai unrhyw effaith ar gystadleuaeth yn fach iawn. Ar ben hynny, gall gwell rheoleiddio gynyddu hyder yn y sector triniaethau arbennig yng Nghymru a denu rhagor o gwsmeriaid.

**Yr Opsiwn a Ffefrir - Opsiwn 2: cychwyn holl ddarpariaethau Rhan 4 ac Atodlen 3**

| **Prawf hidlo'r gystadleuaeth** | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n o leiaf 50%? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill? | Yn y lle cyntaf o ran offer gweithle ac ati? |
| C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Efallai y bydd rhai yn mynd allan o fusnes? |
| C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C8: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Nodiadau**

**C4:** Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu hawliau tad-cu (h.y. hawliau caffaeledig trosglwyddadwy) ar gyfer ymarferwyr a busnesau presennol. Bydd angen i bob ymarferydd sy'n gweithredu ar hyn o bryd a phob gweithredwr mangre neu gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y triniaethau arbennig penodedig wneud cais am drwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd o dan y cynllun newydd arfaethedig. Gan fod y safon cymhwysedd i'w dangos a'r amodau trwyddedu gryn dipyn yn fwy trylwyr na'r hyn y mae'r cynllun cofrestru presennol yn ei ganiatáu, mae'n bosibl y bydd rhai ymarferwyr a busnesau yn teimlo bod y cynllun trwyddedu newydd yn heriol yn ariannol, ac efallai na fydd rhai yn mynd drwy'r broses drwyddedu yn y pen draw. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gydag ymarferwyr presennol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o safonau gofynnol yn y dyfodol, ac mae llawer eisoes yn bodloni'r safonau hynny.

**C5:** am y rhesymau a amlinellir yn C4 uchod, mae'n bosibl y bydd nifer yr ymarferwyr a mangreoedd trwyddedig yn newid oherwydd y cynllun trwyddedu arfaethedig yn y tymor byr ar ôl cyflwyno'r cynllun.

## 9. Adolygiad ôl-weithredu

9.1 Mae adolygiad ôl-weithredu yn rhan annatod o'r cynnig hwn. Diben y rheoliadau sydd i'w gwneud yw pennu manylion y cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru gyda'r bwriad o:

1. darparu fframwaith cyfreithiol cyson a mwy effeithiol i awdurdodau lleol reoleiddio'r diwydiant hwn.
2. codi safonau cyson o atal a rheoli heintiau yn y sector hwn.
3. darparu gwell mesurau diogelu i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau hyn, gan leihau effeithiau niweidiol ar iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig.

9.2 Rydym yn rhagweld y bydd pwyntiau 1 a 2 yn rhan gymharol syml o'r adolygiad oherwydd y systemau rydym eisoes wedi'u sefydlu i hwyluso hyn. Mae ein rhwydweithiau awdurdodau lleol ac ymarferwyr sefydledig wedi nodi y byddant yn cefnogi'r gwaith hwn.

9.3 Mae rhwydwaith diogelu'r cyhoedd awdurdodau lleol yn cynnwys paneli arbenigol sy'n adrodd i grŵp cenedlaethol o benaethiaid iechyd yr

amgylchedd sy'n cael eu goruchwylio gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru). Mae'r fframwaith hwn yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi awdurdodau lleol i ymrwymo i benderfyniadau cenedlaethol ar ystod o ddisgyblaethau diogelu'r cyhoedd. Mae'r 22 awdurdod lleol wedi ymrwymo i hyn ar gyfer gweithredu ac adolygu'r cynllun trwyddedu triniaethau arbennig.

9.4 Mae adran 75 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal a chyhoeddi cofrestr o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy ar gyfer triniaethau arbennig. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i sefydlu a chynnal cofrestr ganolog ar sail Cymru gyfan gan un awdurdod lleol ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gan hyn y fantais o sicrhau bod set gyson o ddata yn cael ei chasglu gan bob un o'r 22 awdurdod lleol a bod y data a gyhoeddir gan bob awdurdod lleol ar gael mewn un lle. Felly, bydd y gofrestr yn cwmpasu Cymru gyfan a bydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd edrych arni. Y data hwn fydd yn ffurfio sylfaen yr adolygiad ôl-weithredu.

9.5 Bydd data sy'n gysylltiedig â gorfodi'r cynllun trwyddedu a chydymffurfio ag ef yn cael ei fonitro ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu bob chwarter i ganfod cynnydd y cyfnod pontio a darparu nifer sylfaenol yr ymarferwyr trwyddedig a'r mangreoedd/cerbydau cymeradwy. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o geisiadau'n cael eu derbyn yn naw mis cyntaf gweithrediad y cynllun gan mai dyma'r cyfnod y bydd rhaid i ymarferwyr presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd wneud eu ceisiadau i drosglwyddo o'r hen gynllun cofrestru i'r cynllun newydd. Bydd y gronfa ddata a fydd yn bwydo'r gofrestr ganolog ar-lein yn cael ei defnyddio i gynhyrchu'r ystadegau hyn, a bydd cost staff/amser cynhyrchu'r adroddiadau data ac adrodd i Lywodraeth Cymru yn cael ei hamsugno yng nghostau rhedeg safonol pob awdurdod lleol. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost staff/amser i adolygu'r data a ddaw i law a fydd hefyd yn cael ei hamsugno mewn costau rhedeg is-adrannol safonol.

9.6 Bydd arfarnu'r data o 12 mis cyntaf yr adolygiad hwn yn pennu amlder casglu data yn yr ail flwyddyn o weithredu. Rydym yn rhagweld y bydd data'n cael ei adolygu'n genedlaethol ac yn lleol ac yn ôl y math o driniaeth arbennig. Bydd y dull hwn yn helpu i lywio'r angen am unrhyw ymyriadau addysg, hyrwyddo neu orfodi wedi'u targedu. Mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i adolygu eu data eu hunain ac i gofnodi costau gweithredu'r cynllun a'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Bwriad hyn yw er mwyn iddynt allu pennu'n fwy cywir y ffioedd rhesymol i'w codi am geisiadau newydd i'r cynllun. Nid yw costau'r gwaith hwn o fewn awdurdodau lleol yn hysbys ar hyn o bryd.

9.7 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr triniaethau arbennig gynnal ymgynghoriad â'u cleient cyn ac ar ôl cyflawni triniaeth arbennig. Mae hyn yn cynnwys cadw cofnod o'r cyngor ôl-ofal a roddir, gan gynnwys camau y dylai'r cleient eu cymryd i atal haint. Bydd yr

arferion hyn ynghyd ag eraill yn cael eu monitro gan awdurdodau lleol, felly gallent gael eu casglu fel rhan o'r adolygiad gorfodi.

9.8 Bydd pwynt 3 yn cyflwyno mwy o heriau ond efallai y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio cysylltiadau sefydledig ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau clefydau trosglwyddadwy awdurdodau lleol sy'n ymchwilio i achosion a brigiadau o achosion o haint sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig.

9.9 Rhoddir ystyriaeth ynghylch a fyddai'r rhwydwaith ymarferwyr, paneli arbenigol a chydweithwyr mewn disgyblaethau prifysgol perthnasol yn gallu cynorthwyo i asesu manteision y cynllun trwyddedu i fusnesau ac iechyd eu cleientiaid. Mae unrhyw gomisiwn i drydydd parti i wneud unrhyw asesiad o'r cynllun yn debygol o fod yn destun ffi. Nid yw hyn yn cael ei gostio, gan y bydd telerau unrhyw gomisiwn yn pennu pa waith sydd ei angen ac felly pa ffi fyddai'n briodol.

9.10 Mae wedi bod yn fwriad cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach er mwyn nodi triniaethau arbennig eraill y dylid eu cynnwys yn y cynllun gorfodol. Y bwriad oedd gwneud hyn unwaith y bydd y cynllun trwyddedu arfaethedig wedi'i sefydlu i ganiatáu digon o amser i awdurdodau lleol weithredu'r cynllun gyda'r pedair triniaeth a enwir. Mae'n debygol y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu faterion gweithredol yn cael eu nodi gan awdurdodau lleol o fewn y cyfnod hwn, a allai olygu bod angen addasu'r canllawiau neu'r rheoliadau. Mae hyn yn gyffredin gydag unrhyw gynllun newydd, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn derbyn adborth gan awdurdodau lleol yn hyn o beth.

9.11 Byddai'n rhesymegol adolygu'r cynllun yn ei gyfanrwydd ar yr un pryd i ganfod a yw'n cyflawni'r amcanion polisi o wella safonau atal a rheoli heintiau o fewn y diwydiant ac atal gweithgareddau'r ymarferwyr hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.